Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Astudiaeth o fodelau o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref

## Adroddiad terfynol

# Astudiaeth o fodelau o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref

**Cynnwys** **Tud.**


| | | |
|---|---|---|
| **Cydnabyddiaeth** | | **3** |
| **1** | **Rhagarweiniad** | **4** |
| **2** | **Cyd-destun** | **10** |
| **3** | **Pobl ifanc sengl ddigartref: anghenion a'r ddarpariaeth** | **17** |
| **4** | **Effeithioldeb y ddarpariaeth** | **51** |
| **5** | **Casgliadau ac argymhellion** | **75** |
| **Atodiad 1** | **Llyfryddiaeth** | **82** |
| **Atodiad 2** | **Ffurflenni ar gyfer yr arolwg o'r llenyddiaeth** | **86** |
| **Atodiad 3** | **Bylchau yn y ddarpariaeth a nodwyd mewn Strategaethau Digartrefedd a Cynlluniau Gweithredu Cefnogi Pobl Cymru** | **87** |
| **Atodiad 4** | **Enghreifftiau o fathau o ddarpariaeth** | **91** |
| **Atodiad 5** | **Grŵp llywio aml-ddisgyblaethol i ystyried sut y gellir ateb anghenion pobl ifanc â'r anghenion mwyaf cymhleth** | **95** |
| **Atodiad 6** | **Monitro a gwerthuso gwasanaethau** | **96** |


**Mynegai i'r Tablau**


| | | |
|---|---|---|
| **Tabl 1** | **Sbectrwm/amrediad anghenion pobl ifanc sengl ddigartref** | **21** |
| **Tabl 2** | **Teipoleg o fodelau llety ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref (crynodeb a'r deipoleg gyflawn)** | **27** |
| **Tabl 3** | **Cymhariaeth o'r gwasanaethau a gynigir mewn ardal wledig ac un drefol gan ddefnyddio categorïau a mathau'r deipoleg** | **43** |

## CYDNABYDDIAETH

Carem ddiolch i'r llu o sefydliadau ac unigolion sydd wedi cyfrannu at yr ymchwil a oedd yn sail i'r adroddiad hwn, yn enwedig awdurdodau'r ddwy astudiaeth unigol. Siaradwyd ag unigolion o fewn nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru a sefydliadau masnach, cynrychioladol, statudol a sector gwirfoddol sy'n ymddiddori mewn digartrefedd ieuenctid, a buont oll mor hael â rhannu eu gwybodaeth a'u profiad gyda ni.

Diolch hefyd i

grŵp llywio'r project:

- Tamlyn Rabey, Llywodraeth y Cynulliad
- Geoff Marlow, Llywodraeth y Cynulliad
- Simon Prothero, Llywodraeth y Cynulliad
- Edward Sherriff, Llywodraeth y Cynulliad
- Helen Davies, Barnardo's

yr ymarferwyr a weithredodd fel seinfwrdd ar gyfer y dadansoddiad o angen a'r deipoleg o lety a chefnogaeth

- Helen Armstrong
- Sam Austin
- Frances Beecher
- Marie Bevan
- Ian Fraser
- Eddie Isles
- Paula Kennedy
- Mary O'Grady
- Chris Price
- Chris Rutson
- Steve Porter
- Andrew Vipond

yr e- grŵp o gynghorwyr:

- Andrew Bateson
- Andy Gale
- Carl Chapple
- Sue Finch
- Sue Hutson
- Janet Sheldon
- Michelle Wales

Cyfieithydd:

- Siân Edwards

Caroline Humphreys, Tamsin Stirling, Simon Inkson ac Anne Delaney, ymgynghorwyr project Housing+Cymru.

**Awst 2007**

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Cefndir i'r ymchwil

1.1.1 Pan gomisiynodd Llywodraeth y Cynulliad yr ymchwil hon, nodai'r cyfarwyddyd fod awdurdodau lleol yn debyg o wynebu cryn her wrth geisio cyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at deuluoedd digartref o safbwynt sicrhau fod cyflenwad digonol o lety addas a chefnogaeth yn gysylltiedig â thai ar gael i ateb yr amrywiaeth o anghenion sydd gan bobl ifanc sengl ddigartref 16-24 oed.

1.1.2 Mae ar awdurdodau lleol ddyletswydd i bobl ifanc sengl ddigartref o dan y darpariaethau digartrefedd. Mae'r prif ddyletswyddau digartrefedd a nodir yn Neddf Tai 1996 yn cyfeirio at ymgeiswyr sydd ag angen blaenoriaethol am lety. O dan Orchymyn Pobl Ddigartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnwys y canlynol yn y categorïau angen blaenoriaethol:

- rhai 16 neu 17 oed, a
- ymadawyr â gofal neu bobl mewn perygl neilltuol o gael eu hecsploetio'n rhywiol neu'n ariannol sydd yn 18 oed neu'n hŷn ond o dan 21.

Gall grwpiau anghenion blaenoriaeth eraill gynnwys pobl ifanc, e.e. troseddwr ifanc a ryddheir o'r ddalfa, person ifanc sy'n ffoi rhag camdriniaeth yn y cartref, neu rywun â salwch meddwl neu anabledd. Yn ychwanegol at hynny, dywed y ***Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Tai a Digartrefedd*** (LlyC, 2003) y dylai awdurdodau lleol ystyried a ydyw ymgeiswyr ifanc eraill yn ddiymgeledd, ac felly ag angen blaenoriaethol o dan Ddeddf 1996, o ganlyniad i'w hoed neu amgylchiadau. Mae'n bosibl y bydd llawer o bobl ifanc sengl ddigartref, yn enwedig rhai sydd heb deulu neu rwydweithiau cefnogaeth gymdeithasol eraill, yn dod o fewn y grŵp hwn.

1.1.3 Gan hynny, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau llety addas ar gyfer nifer sylweddol o bobl ifanc sengl ddigartref, rhyw 1,000 o rai 16-17 oed a 2,500 o rai 18-24 oed y flwyddyn ar hyn o bryd. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi troi at lety gwely a brecwast ar gyfer cyfran fawr o'r grŵp hwn, ond ym marn Llywodraeth y Cynulliad nid yw hwn yn briodol, ac mae wedi cymryd camau i gyfyngu ar ei ddefnydd. Drwy Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwahardd defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer rhai 16-17 oed ac eithrio am gyfnodau byr o argyfwng neu asesu, o fis Ebrill 2007. O Ebrill 2008, mae'r Gorchymyn yn gwahardd ei ddefnyddio ar gyfer pob grŵp anghenion blaenoriaethol (yn cynnwys rhai 18-24 oed sy'n dod o dan bennawd anghenion blaenoriaethol arall).

1.1.4 Comisiynwyd yr ymchwil hon am fod Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno gallu cynghori awdurdodau lleol wrth iddynt gefnu ar ddefnyddio gwely a brecwast ac i gynllunio ar gyfer darparu sbectrwm priodol o fodelau eraill o lety ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref. Yn ychwanegol at ddyletswyddau digartrefedd o dan y Gorchymyn Anghenion Blaenoriaethol, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb rhiant corfforaethol am ymadawyr â gofal, a dyletswyddau o dan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Gan hynny, dylai awdurdodau lleol fod yn gwybod pa fodelau o lety sydd yn ateb anghenion pobl ifanc orau, ac sydd yn fwyaf tebygol o'u cynorthwyo ar eu ffordd tuag at fywyd annibynnol cynaliadwy.

1.1.5 Ffactor ychwanegol a brofai’r angen am yr ymchwil hon oedd tystiolaeth, gan Strategaethau Digartrefedd Lleol, Cynlluniau Gweithredol Cefnogi Pobl ac ymateb anffurfiol, fod awdurdodau lleol yn ei chael hi’n anodd cynllunio’n strategol yn hytrach nag yn ymatebol i sicrhau darpariaeth ddigonol o lety addas a fydd yn ateb gofynion amrywiol pobl ifanc sengl ddigartref. Mae tystiolaeth hefyd (o arolygon digartrefedd a wnaed gan awdurdodau lleol a’u partneriaid ar gyfer strategaethau digartrefedd, ac yn anecdotaidd) fod cyfran uchel o denantiaethau pobl ifanc a gafodd eu rhoi mewn tai cymdeithasol prif-ffrwd yn methu, yn enwedig yn absenoldeb cymorth hyblyg, ac nad yw hi bob amser yn bosibl dod o hyd i le iddynt yn y ffurfiau mwyaf addas o lety.

## 1.2 Nodau ac amcanion yr ymchwil

1.2.1 Amcanion y gwaith ymchwil oedd darparu ar gyfer awdurdodau lleol a’u partneriaid ddealltwriaeth fanwl o:

- yr amrywiaeth o fodelau o lety sy’n bodoli yn y DU a thu hwnt i’w ffiniau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref 16-24 oed
- addasrwydd cymharol pob model ar gyfer gwahanol grwpiau
- effeithioldeb pob model o safbwynt canlyniadau, ac
- ystyriaethau gwerth am arian

1.2.2 Nod yr ymchwil oedd darparu gwybodaeth a fydd yn rhoi i awdurdodau lleol (ac eraill) sail o dystiolaeth a fframwaith strategol ar gyfer cynllunio sbectrwm addas o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref yn y tymor canol i’r tymor hir.

1.2.3 Edrychodd yr ymchwil ar bob math o bobl ifanc sengl ddigartref, p’run ai eu bod wedi eu hatgyfeirio gan dimau gwasanaeth digartrefedd awdurdodau lleol, timau plant sy’n derbyn gofal y gwasanaethau cymdeithasol neu dimau troseddwyr ifanc, ond rhoddwyd sylw neilltuol i ymadawyr â gofal a throseddwyr ifanc.

## 1.3 Methodoleg

1.3.1 Gwnaed yr ymchwil rhwng mis Hydref 2006 a mis Mai 2007 ac roedd mewn dau gam. Nod cam cyntaf yr ymchwil oedd:

- datblygu teipoleg o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref
- nodi’r amrywiaeth o anghenion sydd gan y grŵp hwn, yn cynnwys anghenion lluosog cymhleth
- casglu gwybodaeth berthnasol am effeithioldeb gwahanol fodelau o lety, a datblygu honno ymhellach yn ystod ail gam yr ymchwil

1.3.2 Datblygwyd yr uchod ar sail arolwg o:

- strategaethau digartrefedd
    - pob un o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru

- sampl o 10 o awdurdodau lleol Lloegr a'r Alban y nodwyd eu bod wedi rhoi rhywfaint o bwyslais ar bobl ifanc sengl ddigartref
- 3 strategaeth digartrefedd unigol o awdurdodau yn Lloegr a ganfuwyd drwy chwiliad ar y we.

- gwybodaeth Cefnogi Pobl

  - Cynlluniau Gweithredu Cefnogi Pobl gan 11 o awdurdodau lleol Cymreig
  - ymarferiadau mapio anghenion cysylltiedig gan ddau awdurdod lleol Cymreig lle darparwyd y rhain ar wahân i'r Cynlluniau Gweithredu Cefnogi Pobl
  - sampl o 10 adroddiad arolygu Cefnogi Pobl gan awdurdodau Seisnig y barnwyd eu bod yn ardderchog gydag argoelion ardderchog o wella, neu'n dda gydag argoelion ardderchog o wella

- adroddiadau/ffynonellau eraill

  - adroddiadau adrannau llywodraeth perthnasol – gweler Atodiad 1 am restr lawn
  - adroddiadau ymchwil perthnasol - gweler Atodiad 1 am restr lawn
  - llenyddiaeth berthnasol o UDA, Ewrop ac Awstralia - gweler Atodiad 1 am restr lawn.

1.3.3 Arolygwyd y llenyddiaeth er mwyn nodi:

- y mathau o lety a chefnogaeth a ddefnyddir i ateb anghenion pobl ifanc sengl ddigartref

- tystiolaeth ynglŷn ag anghenion pobl ifanc sengl ddigartref

- tystiolaeth o blaid effeithioldeb y gwahanol fathau o lety a chefnogaeth o wahanol safbwyntiau, gan gynnwys eu haddasrwydd o safbwynt y person ifanc, y canlyniadau positif, cost-effeithioldeb a barn budd-ddeiliaid am eu heffeithioldeb

Defnyddiwyd ffurflenni i gasglu'r wybodaeth o'r amrywiaeth eang o lenyddiaeth a adolygwyd. Dangosir enghraifft yn Atodiad 2.

1.3.4 Mynychodd yr ymchwilwyr ddwy sesiwn o'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio hefyd i weld cyflwyniadau a roddwyd i gynorthwyo arolwg polisi'r Pwyllgor o ddigartrefedd ymhlith ieuenctid. Casglwyd ac adolygwyd copïau o'r cyflwyniadau hyn.

1.3.5 O'r amrediad eang o wybodaeth a gynhyrchwyd, aed ati i ddatblygu dadansoddiad o'r amrywiaeth o anghenion sydd gan bobl ifanc sengl ddigartref a llunio teipoleg o lety a chefnogaeth i ateb yr anghenion hyn. Ymgynghorwyd ynglŷn â'r rhain gydag e-grŵp o gynghorwyr (a ddewisiwyd ac y cytunwyd arnynt gan grŵp llywio'r project) a chyfres o ymarferwyr o ddau awdurdod lleol, dwy gymdeithas tai a dau ddarparydd tai a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref o'r sector gwirfoddol (a ddewisiwyd ac y cytunwyd arnynt hefyd gan grŵp llywio'r project). Dylanwadwyd ar fersiynau terfynol

y dadansoddiad o anghenion a'r deipoleg a gyflwynir yn yr adroddiad hwn gan sylwadau a dderbyniwyd gan yr ymgynghorwyr.

1.3.6 Nod ail gam yr ymchwil oedd canfod addasrwydd, effeithioldeb a gwerth am arian pob un o'r modelau a nodwyd yn y cam cyntaf. Gwnaethpwyd hynny drwy:

- ystyried gwerthusiadau cyhoeddedig perthnasol o fodelau o lety a chefnogaeth a nodwyd yn ystod cam cyntaf yr ymchwil
- dadansoddi data perthnasol, yn cynnwys sampl o 20 o ganlyniadau blynyddol Grant Refiniw Cefnogi Pobl a ddychwelwyd gan chwe sefydliad sy'n arbenigo mewn gwasanaethau i bobl ifanc. Roedd y canlyniadau ar gyfer cymysgedd o wahanol fathau o broject, yn cynnwys llety dros-dro wedi ei rannu, hosteli a chymorth hyblyg
- dadansoddi gwybodaeth sydd ar gael gan sefydliadau yn Lloegr y cydnabyddir eu bod yn cynrychioli arfer da o ran darparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref. Detholwyd y sefydliadau hyn gyda chymorth Tîm Gweithredu Deddfwriaeth Digartrefedd Communities and Local Government
- gwneud cyfres o gyfweliadau lled-strwythuredig dros y ffôn
- gwneud dwy astudiaeth unigol, i ddysgu mwy am arfer da a ddaeth i'r amlwg yn gynharach yn yr ymchwil ac archwiliad pellach o lenyddiaeth ryngwladol. Gwnaed y naill astudiaeth mewn ardal drefol a'r llall mewn ardal wledig, ac roeddynt yn cynnwys cyfweliadau gyda staff uwch yn y maes tai a chynrychiolwyr Cefnogi Pobl o'r ddau awdurdod lleol, y rheolydd ymadael â gofal a rheolydd y Tîm Troseddu Ieuenctid, a grŵp ffocws gyda phobl ifanc sengl ddigartref

1.3.7 Nod y cyfweliadau oedd archwilio:

- addasrwydd y gwahanol fodelau ar gyfer gwahanol fathau o bobl ifanc ddigartref
- a oedd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol
- pa mor effeithiol yr atebir anghenion gwahanol fathau o bobl ifanc ddigartref am lety a chefnogaeth yn gysylltiedig â thai, a chanlyniadau nodweddiadol o safbwynt symud tuag at fyw'n annibynnol
- trefniadau cyllido, costau uned ac unrhyw broblemau ariannol eraill i awdurdodau lleol neu breswylwyr, yn cynnwys oblygiadau'r trefniadau cyllido cyfredol
- unrhyw anawsterau logistaidd gyda pharatoi ar gyfer darparu mathau neilltuol o lety neu gefnogaeth (e.e. fframweithiau cyllido, llwybrau atgyfeirio)
- unrhyw ffactorau a oedd yn effeithio ar effeithioldeb neu addasrwydd
- gwerth am arian, ac

- unrhyw fuddiannau ychwanegol annisgwyl y daethpwyd o hyd iddynt.

1.3.8 Gwnaed cyfweliadau ffôn lled-strwythuredig gyda:

- arweinwyr timau digartrefedd, rheolwyr Timau Ymadael â Gofal, a rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid mewn sampl o 11 o awdurdodau lleol a oedd yn cynrychioli cefndiroedd gwledig, trefol a'r cymoedd. Cwblhawyd yr holl gyfweliadau yn llwyddiannus ac eithrio gyda rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid tri awdurdod a rheolwyr Timau Ymadael â Gofal tri awdurdod

- staff uwch mewn 16 o sefydliadau (cymdeithasau tai a sefydliadau sector gwirfoddol) sy'n darparu llety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref yng Nghymru.

1.3.9 Gwnaed cyfweliadau personol lled-strwythuredig gyda'r budd-ddeiliaid a ganlyn:

- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Cymorth Cymru
- Shelter Cymru
- Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl
- Voices from Care Cymru
- cysylltiadau Cefnogi Pobl, Digartrefedd, Pobl Ifanc, y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol, Troseddwyr Ifanc, Cynhwysedd Ieuenctid a Pholisi Ieuenctid Llywodraeth y Cynulliad
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

1.3.10 Nod yr astudiaethau unigol oedd:

- datblygu dealltwriaeth glir o faint o'r gwahanol fathau o ddarpariaeth a geir ym mhob ardal ar hyn o bryd

- canfod cyfraddau 'llwyddiant' gwahanol fodelau o lety a chefnogaeth, o wahanol safbwyntiau, yn cynnwys pobl ifanc, a rhesymau canfyddedig/hysbys am unrhyw wahaniaethau yn y cyfraddau llwyddiant

- archwilio trefniadau ar gyfer cyd-gynllunio a gweithio ar y cyd mewn perthynas â phobl ifanc sengl ddigartref

- nodi'r lefelau o angen sy'n cael eu diwallu ac sydd heb eu diwallu

- darganfod pam mae rhai modelau o lety a chefnogaeth yn cael eu darparu ac nid rhai eraill, a pha mor glir yw'r cysylltiad â thystiolaeth o angen

1.3.11 Gwnaed y gwaith ymchwil gan Caroline Humphreys, Tamsin Stirling, Simon Inkson ac Anne Delaney o Housing+Cymru.

**Nodyn ar gwmpas a chyfyngiadau'r ymchwil**

Yn hytrach na chyflwyno'r holl wybodaeth a gynhyrchwyd yn ystod gwhanol gamau'r gwaith ymchwil, mae'r adroddiad hwn yn ganlyniad dadansoddi, gwyntyllu a dehongli'r wybodaeth i greu teipoleg o lety a chefnogaeth a'r sbectrwm o anghenion, sy'n llywio'r ystyriaeth o effeithioldeb, yn ogystal â'r argymhellion cyffredinol.

O adeg gynnar yn yr ymchwil, daeth yn amlwg na fyddai mor hawdd cael gafael ar y lefel o fanyldeb a geisiem ynglŷn â gwahanol nodweddion y gwahanol fathau o lety a chefnogaeth ag yr oeddem wedi ei ragweld. Roedd hyn yn neilltuol o wir o safbwynt y diffyg tystiolaeth gadarn ynglŷn ag effeithioldeb gwahanol fathau o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref a'u cost-effeithioldeb. Datgelodd yr arolwg o'r llenyddiaeth rai gwerthusiadau o wahanol fathau o lety a chefnogaeth, ond nemor ddim ymgais i werthuso effeithioldeb cymharol gwahanol fathau o lety a chefnogaeth yn gyffredinol. Roedd llawer o'r wybodaeth a oedd ar gael yn ansoddol yn hytrach nag yn feintiol. Ni allai'r cyfweliadau lled-strwythuredig na'r astudiaethau unigol lenwi'r bwlch hwn o ran gwybodaeth 'galed'.

O ganlyniad, bu'n rhaid i'r ymchwilwyr ddibynnu'n helaeth ar yr unigolion a'r sefydliadau a ddefnyddiwyd i roi prawf ar deipoleg y ddarpariaeth a'r sbectrwm anghenion, yn cynnwys y grŵp llywio, er mwyn sicrhau fod y deipoleg a'r sbectrwm a gyflwynir yn gywir ac yn braff.

Er gwaethaf diffyg tystiolaeth 'galed', mae'r ymchwil yn crynhoi barn llawer o bobl sy'n gweithio ar y lefel genedlaethol ac yn lleol. Cred yr ymchwilwyr, at ei gilydd, lle ceir cytundeb barn rhyngddynt (fel a ddigwyddodd ar nifer o faterion) y gall hynny o leiaf ddechrau ffurfio sail o dystiolaeth ynglŷn â rhai elfennau o effeithioldeb gwahanol fathau o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref. Mae'n amlwg fod angen mwy o waith i allu canfod yn glir beth sy'n gweithio orau ar gyfer pobl ifanc a beth sy'n cynnig y gwerth gorau am arian/sy'n fwyaf cost-effeithiol.

### 1.4 Strwythur yr adroddiad

1.4.1 Mae pennod nesaf yr adroddiad hwn yn gosod yr ymchwil yn ei gyd-destun polisi, ar lefel Cymru, y DU, ac yn rhyngwladol. Mae pennod 3 yn ystyried anghenion pobl ifanc sengl ddigartref a'r ddarpariaeth sydd ar gael i ateb eu hanghenion. Mae pennod 4 yn ystyried y berthynas rhwng angen a'r math o ddarpariaeth, yn archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar effeithioldeb gwasanaethau ac yn ystyried a oes tystiolaeth strategol neu weithredol ar gael er mwyn gwerthuso effeithioldeb gwasanaethau. Ceir casgliadau cyffredinol ac argymhellion ym mhennod 5.

## 2 Y CYD-DESTUN

### 2.1 Y cyd-destun: polisi ieuenctid

2.1.1 Ar hyn o bryd, ar lefel y DU, mae cryn bwyslais ar ddatblygu polisi ar gyfer pobl ifanc ac ynglŷn â nhw. Yng Nghymru a Lloegr ill dwy, ceir cyfuniad o fframweithiau sydd ynglŷn â dull hollgyffredinol o ymdrin â phobl ifanc (a'u teuluoedd) a rhai eraill sydd ynglŷn ag anelu gwasanaethau, adnoddau a mentrau at grwpiau neilltuol o bobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r ffordd o fynd ati yn Lloegr yn canolbwyntio'n neilltuol ar y rhai mwyaf diymgeledd a adawyd ar y cyrion, tra bod mwy o bwyslais ar ffyrdd hollgyffredinol o fynd ati yng Nghymru.

2.1.2 Yn Lloegr, gwnaed arolwg polisi o blant a phobl ifanc gan Drysorlys EM (HM Treasury 2007a). Edrychai'r arolwg ar swyddogaeth gwasanaethau hollgyffredinol a rhai wedi eu targedu, ac mae'n sail i weithredu â'r bwriad o:

- wella cyfleoedd bywyd pob plentyn a pherson ifanc, gan atal problemau drwy fagu gwytnwch i risg canlyniadau gwael, a chynorthwyo plant a phobl ifanc cyn gynted ag y bydd problemau'n codi
- cefnogi'r teuluoedd sydd â'r canlyniadau gwaethaf, ac sydd wedi eu dal mewn cylch o gyflawniad isel, a
- cefnogi teuluoedd sydd â phlant anabl er mwyn gwella'u canlyniadau hwythau

2.1.3 Ceisiai un o gyhoeddiadau'r arolwg (HM Treasury 2007b) ganfod costau darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc o deuluoedd â lefelau uchel o angen. Nodai y gall plant sydd ag arnynt angen cefnogaeth ychwanegol gostio hyd at £300,000 yr un am le mewn gofal a gwariant cysylltiedig, yn cynnwys £67,000 ar gyfer cyfranogaeth y Tîm Troseddu Ieuenctid. Dywed y ddogfen fod: '*methu mynd i'r afael â phroblemau yn effeithiol nid yn unig yn estyn canlyniadau gwael o genhedlaeth i genhedlaeth, mae hefyd yn atal gwasanaethau rhag buddsoddi mwy mewn canlyniadau gwell i bawb.'*

2.1.4 O safbwynt dulliau a mentrau wedi eu targedu, un enghraifft yw ffocws y Tasglu Eithrio Cymdeithasol ar oedolion (yn cynnwys oedolion ifanc) sy'n wynebu eithrio cronig, h.y., y bobl y mae'r gwasanaethau'n ei chael hi'n fwyaf anodd eu cyrraedd. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y byddai cyfres o brojectau peilot a fydd yn rhoi prawf ar wahanol ddulliau o weithio gydag oedolion ag anghenion lluosog yn cael eu cynnal. Yn ychwanegol, ym mis Hydref 2006, cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau ***Care Matters***, Papur Gwyn ar wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, a chafodd mentrau newydd eu sefydlu ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

2.1.5 Mae gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru rhwng 11 a 25 oed yn seiliedig ar gysyniad o hawl hollgyffredinol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu fod gan bob person ifanc hawl sylfaenol i amrediad o wasanaethau o safon uchel a fydd yn eu galluogi i fanteisio'n effeithiol ar gyfleoedd i ddysgu, a chyfranogi mewn cyflogaeth, iechyd da, dinasyddiaeth a chynhwysedd cymdeithasol. Mae ***Ymestyn Hawliau*** yn cynnwys hawl i wasanaethau, cyfleusterau a chyngor o safon uchel sydd yn ymatebol ac wedi eu darparu mewn amgylchiadau hygyrch a chroesawgar. Mae ffocws hefyd ar feithrin gallu pobl ifanc i fod yn annibynnol.

2.1.6 Nododd gwerthusiad cynnar o weithrediad ***Ymestyn Hawliau*** (LlyC, 2004) fod gan y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu hawliau hollgyffredinol i bobl ifanc nifer o ffactorau yn gyffredin, yn cynnwys eu bod:

- wedi eu creu o safbwynt pobl ifanc, yn cynnwys y rhai a adawyd ar gyrion cymdeithas
- wedi eu hadeiladu ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n atal pobl ifanc rhag mynd i drwbl yn y lle cyntaf
- yn cydgysylltu gwasanaethau a phroffesiynau
- yn golygu ymyriad cynnar a thaer, wedi ei gynllunio'n ofalus, a gweithredu dwys ar adegau allweddol o drawsnewidiadau
- yn targedu achosion, nid symptomau

2.1.7 Mae'r ffactorau hyn yn llawn mor bwysig i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau â'r nod o atal neu fynd i'r afael â digartrefedd ieuenctid ag ydynt i ddarparwyr unrhyw wasanaethau eraill. Mae'r gwerthusiad yn nodi efallai y bydd y newid mewn diwylliant y bydd ei angen er mwyn cyflawni'r ffactoru uchod '*yn mynnu newid sylfaenol yn y ffordd mae rhai darparwyr yn gweld pobl ifanc, gan symud oddi wrth y ddeuoliaeth draddodiadol o bobl ifanc y mae angen naill ai eu "rheoli" neu eu "gwarchod" at weledigaeth o roi grym a llais i bawb ifanc, i wireddu eu potensial llawn.'*

2.1.8 Dwy enghraifft o raglenni wedi eu targedu yw rhaglen Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant, ***Dyfodol Teg i'n Plant*** (LlyC, dim dyddiad) a'i fenter ***Rhoi Plant yn Gyntaf*** sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol.

2.1.9 Er gwaethaf y ffocws hwn ar bobl ifanc a'u teuluoedd, dangosodd dadadansoddiad cymharol o les plant a phobl ifanc yn y gwledydd cyfoethog, yn seiliedig ar nifer o ffynonellau data, mai'r DU oedd ar waelod rhestr o 21 o wledydd yn y byd diwydiannol (UNICEF, 2007). Roedd y dadansoddiad yn cymharu lles mewn chwe dimensiwn – lles materol, iechyd a diogelwch, addysg, perthynas gyda chymheiriaid a theulu, ymddygiad a pheryglon, ac ymdeimlad gwirioneddol pobl ifanc eu hunain o les – gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data. Gwnaeth y DU yn wael ar bob dimensiwn: y dimensiwn lleiaf gwael oedd iechyd a diogelwch. Esgorodd yr adroddiad hwn ar lawer o drafod pan gafodd ei gyhoeddi: un feirniadaeth neilltuol oedd nad oedd rhai o'r dangosyddion yn wir gymaradwy a bod rhai yn hen ffasiwn ac wedi newid er gwell yn y cyfamser.

## 2.2 Y cyd-destun: digartrefedd ieuenctid

2.2.1 Megis gyda pholisi ieuenctid cyffredinol, mae datblygiadau polisi mewn perthynas â digartrefedd ieuenctid wedi cael sylw mawr yng Nghymru a Lloegr. Yn Lloegr, mae Communities and Local Government wedi cyhoeddi rhaglen benodol yn ddiweddar i atal neu fynd i'r afael â digartrefedd ieuenctid, a bydd yn buddsoddi mewn cynlluniau arloesol ac yn lledaenu arfer effeithiol (CLG, 2007). Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ddileu'r defnydd o lety gwely a brecwast ar gyfer rhai 16 a 17 oed, i ddod â

gwasanaethau cyfryngu digartrefedd o fewn cyrraedd mwy o bobl, a sefydlu cynlluniau lletya ar aelwyd gyda chefnogaeth ledled Lloegr. Mae cynllun digartrefedd ieuenctid cenedlaethol newydd, a redir gan amrywiaeth o asiantaethau'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, yn cael ei arwain gan Centrepoint a YMCA England.

2.2.2 Gwnaed yr ymchwil hon yng nghyd-destun ***Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol 2006-2008*** Llywodraeth y Cynulliad (LlyC, 2005) sy'n rhoi pwyslais neilltuol ar atal digartrefedd. Themâu allweddol y strategaeth yw gwasanaethau sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, cynllunio gwasanaethau digartrefedd yn strategol, a phartneriaethau a gweithio cydgysylltiedig yn ysbryd ***Creu'r Cysylltiadau***. Mae'r strategaeth yn cynnwys nifer o bwyntiau gweithredu sy'n ymwneud yn benodol â phobl ifanc, yn cynnwys pwysleisio'r angen am weithio cydgysylltiedig rhwng tai a Phartneriaethau Pobl Ifanc, cyfryngu ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a gweithio ar y cyd i sicrhau nad yw ymadawyr â gofal, cyn-droseddwyr a rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn mynd yn ddigartref. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys ymrwymiad – a gyflawnwyd eisoes – i ddeddfu i leihau'r defnydd a wneir o lety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc, ymhlith grwpiau eraill.

2.2.3 Mae'r ***Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol*** yn cynnwys nifer o dargedau ar gyfer atal digartrefedd, lleihau'r nifer sy'n mynd yn ddigartref eilwaith, hyd arhosiad mewn llety dros-dro ar gyfartaledd, a nifer y teuluoedd mewn llety gwely a brecwast.

2.2.4 Yn ystod 2006/07, ymwelodd swyddogion Cyfarwyddiaeth Tai'r Cynulliad â phob un o'r 22 awdurdod lleol i edrych ar eu gwaith ar ddigartrefedd. Rhai o gasgliadau cyffredinol yr ymweliadau hyn oedd:

- y cymerwyd camau breision ran cwtogi ar ddefnydd llety gwely a brecwast ar gyfer teuluoedd, ond mae hyn o fwy o broblem yn achos pobl sengl
- y gwelir anhawster sicrhau llety parhaol fel y prif rwystr i leihau'r nifer o bobl sydd mewn llety dros-dro
- mae gwaith partneriaeth yn gwella yn y rhan fwyaf o feysydd, er nad yw digartrefedd yn cael sylw digonol mewn cynllunio strategol lefel-uchel.

2.2.5 Mae strategaethau cenedlaethol eraill sy'n berthnasol i'r ymchwil hon yn cynnwys ***All Wales Youth Offending Strategy*** (YJB, 2004), a ***Cydgysylltu yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer Oedolion a Phobl Ifanc i Ostwng Aildroseddu*** (NOMS, 2006). Un o egwyddorion yr ***All Wales Youth Offending Strategy*** yw sicrhau fod yr hawliad hollgyffredinol a sefydlwyd yn ***Ymestyn Hawliau*** yn cael ei ymestyn i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc, yn cynnwys rhai sydd yn y ddalfa. Mae ***Cydgysylltu yng Nghymru*** yn cynnwys adran benodol ar broblemau llety sydd yn datgan y '*farn bod mynediad i lety priodol yn bengonglfaen ar gyfer adsefydlu troseddwyr yn llwyddiannus*'. Y weledigaeth mewn perthynas â llety yw '*Sicrhau bod yr holl droseddwyr o Gymru sydd yn y gymuned neu'n gadael y ddalfa yn gallu cael llety addas a chynaliadwy, gyda chymorth os yw hynny'n briodol.*'

2.2.6 Mae strategaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau fod llety'n cael ei ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn cyfeirio at Gymru hefyd (YJB, 2006). Mae gan y strategaeth dri amcan: cynyddu dylanwad Timau Troseddu Ieuenctid, helpu i gadw teuluoedd rhag chwalu, a sicrhau mynediad i lety addas.

2.2.7 Yn ychwanegol at strategaethau cenedlaethol eraill, mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau mewn meysydd amgen na thai sydd yn berthnasol i'r ymchwil yma. Er enghraifft, mae'r canllawiau ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn mynnu eu bod yn ymchwilio i anghenion tai pobl ifanc, yn cynnwys rhai sy'n ddigartref.

2.2.8 Gwnaeth Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio llywodraeth flaenorol y Cynulliad arolwg polisi o ddigartrefedd ieuenctid (LlyC, 2006). Mae'r arolwg yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â digartrefedd ieuenctid yng Nghymru, yn enwedig:

- y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc ddigartref gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn cynnwys nodi arfer da
- swyddogaeth awdurdodau lleol o ran gweithredu'r ddeddfwriaeth berthnasol yn achos digartrefedd ieuenctid, yn cynnwys nodi arfer da.

2.2.9 Derbyniodd yr arolwg dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau a chynigiwyd 25 o argymhellion. Mae a wnelo nifer o'r rhain â llety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref, yn cynnwys:

- cefnogi awdurdodau lleol i roi'r gorau yn raddol i ddefnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer pobl o dan 25
- ymchwilio i ddarganfod faint o lefydd gwely sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc ddigartref yng Nghymru ac ystyried ffyrdd o gyllido llefydd ychwanegol
- archwilio'r nifer o lefydd gwely sydd ar gael at ddefnydd pobl ifanc ddigartref yn unig, ac ychwanegu at eu nifer fel a lle y bo'r angen
- nodi arfer da mewn darparu llety â chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref.

2.2.10 Mae'r cytundeb llywodraethu newydd rhwng y grwpiau Llafur a Phlaid Cymru, ***Cymru'n Un***, yn cynnwys ymrwymiad mewn perthynas â phobl ifanc a thai – sef darparu cymorth ariannol i bobl ifanc sydd am brynu eu cartref cyntaf yn eu cymuned eu hunain, ond sy'n methu fforddio gwneud hynny – ond nid yw'n cynnwys yr un ymrwymiad penodol ar ddigartrefedd ieuenctid. Ar bwnc ieuenctid a chyfiawnder troseddol, mae'r ddogfen yn nodi y bydd y Cynulliad yn *'ystyried modelau effeithiol o arferion trawsbynciol rhwng y system cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau addysg, tai a iechyd meddwl.'* Ar ddigartrefedd, mae'n nodi: '*Byddwn yn llunio cynllun i fynd i'r afael â digartrefedd dros ddeng mlynedd, gan geisio pwerau newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, lle bydd pwerau o'r fath yn angenrheidiol i ddatblygu a gweithredu strategaeth Cymru.*'

## 2.3 Y cyd-destun: ymchwil ddiweddar berthnasol

2.3.1 Dim rhyfedd, yn wyneb y ffocws polisi cyfredol ar ddigartrefedd ieuenctid, fod nifer o ddarnau o ymchwil perthnasol i'r project hwn wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar.

2.3.2 Roedd ymchwil gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar anghenion tai a phrofiadau troseddwyr ifanc yn seiliedig ar sampl o bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â deg o Dimau Troseddu Ieuenctid ledled Cymru a Lloegr (YJB, 2007). Rhai o ganlyniadau allweddol yr ymchwil yw:

- bod problemau llety pobl ifanc fel arfer yn ymwneud â pherthynas deuluol anodd, neu o dan straen neu lle bu camdriniaeth, am flynyddoedd fel arfer cyn y gwnaed unrhyw ymgais i ymadael â'r cartref

- bod digartrefedd, i'r bobl ifanc yn yr astudiaeth, wedi ei gelu i raddau helaeth gan eu hymdrechion tymor-byr i ymdopi, yn aml drwy 'soffa-syrffio'. Dyna oedd orau gan y rhan fwyaf o'r troseddwyr ifanc yn y sampl o'i gymharu â'r mathau ffurfiol o lety dros-dro a oedd ar gael. Roedd diogelwch a glendid llety dros-dro yn neilltuol o bwysig i'r bobl ifanc

- bod cael mynediad i lety yn anodd ym marn pobl ifanc ac ymarferwyr, gyda phroblemau neilltuol yn cynnwys rhannu gwybodaeth, meini prawf sy'n eithrio pobl, lefel y gefnogaeth yn y llety a gynigid yn is na'r hyn a awgrymwyd wrth/a ddisgwylid gan y person ifanc, a diffyg eglurdeb ynglŷn â rôl swyddog llety y Tîm Troseddu Ieuenctid.

2.3.3 Daw'r adroddiad i'r casgliad *'y gall troseddwyr ifanc sydd ag angen llety . . . fod wedi eu cuddio o'r golwg, yn treulio llawer o amser yn symud rhwng tai ffrindiau. Nid yw'r ffordd grwydrol o fyw a all ddatblygu wedyn yn gydnaws ag ailsefydu effeithiol neu fyw bywyd integredig, sefydlog, heb droseddu.'* Mae'n cynnig nifer o argymhellion, yn cynnwys yr angen am gymorth pwrpasol ac arbenigol ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n byw'n annibynnol.

2.3.4 Gwnaeth NACRO Cymru astudiaeth er mwyn cyflawni nifer o ymrwymiadau a nodwyd yn Strategaeth Troseddu Ieuenctid Cymru (NACRO Cymru, 2005). Holwyd Timau Troseddu Ieuenctid yng Nghymru ynglŷn â gweithio gyda throseddwyr ifanc i gael llety addas ar eu cyfer. Cafodd yr astudiaeth fod amrywiaeth anferth ledled Cymru o safbwynt yr amser a dreulir ar waith swyddog llety, bodolaeth strategaethau llety Timau Troseddu Ieuenctid, argaeledd cyllid, a'r mathau o lety y gallai'r Tim Troseddu Ieuenctid ei ddefnyddio. Dim ond un Tîm Troseddu Ieuenctid a nododd fod y llety y gallent ei ddefnyddio ar gyfer pobl ifanc yn dda. Nodai'r Timau mai'r prif fathau o lety roedd ei angen er mwyn gwella'r dewisiadau sydd ar gael yw llety brys â lefelau uchel o gefnogaeth, gofal maethu tra'n disgwyl achos llys, a lletya ar aelwyd â chefnogaeth.

2.3.5 Er nad yng Nghymru y cafodd ei gwneud, mae gan astudiaeth o lety ar gyfer cyn-garcharorion yn ne-orllewin Lloegr bwyntiau sy'n cydfynd â'r astudiaeth hon (Maguire et al., 2007), yn enwedig y casgliad fod bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth ar gyfer nifer o grwpiau o gyn-garcharorion, yn cynnwys troseddwyr ifanc a rhai ag anghenion cymhleth.

2.3.6 Defnyddiodd astudiaeth o dai a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal (Rainer, 2007) sampl o fwy na 1,000 o bobl ifanc a oedd mewn cysylltiad â thimau ymadael â gofal tri o ranbarthau Lloegr am gyfnod o chwe mis tan fis Ionawr 2007. Cafodd nad oedd 16% ohonynt mewn llety â chefnogaeth addas. Archwiliwyd nifer o

faterion gan yr astudiaeth, yn enwedig y rhaniad rhwng adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol a'r rheolau yn ymwneud â digartrefedd bwriadol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad '*efallai mai'r gwahaniaeth rhwng y gefnogaeth mae rhai sy'n ymadael â gofal yn ei derbyn ar bapur ac yn ymarferol yw'r prif reswm pam y maent yn dal i wynebu cymaint o rwystrau sylweddol o'i gymharu â'u cymheiriaid. Mae'r gwahaniaeth hwn yn broblem neilltuol mewn perthynas â chefnogaeth tai, yn rhannol oherwydd y pwysau anferth sydd ar lefydd mewn tai addas ac yn rhannol oherwydd y ffawtlin sy'n dal i fodoli rhwng yr adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol mewn rhai ardaloedd.'*

2.3.7 Comisiynodd Llywodraeth yr Alban arolwg o'r ymchwil ar bobl ifanc ddiymgeledd a'u camau tuag at fyw'n annibynnol a gyhoeddwyd yn 2007 (Scottish Executive, 2007). Nodai'r arolwg nifer o broblemau sy'n berthnasol i'r ymchwil hon:

- mae pobl ifanc sy'n symud o fod yn derbyn gofal i fyw'n annibynnol dan anfantais neilltuol o safbwynt nifer o ffactorau a allai hwyluso'r broses hon

- bydd y rhan fwyaf o bobl yn symud ymlaen o ofal yn 16 neu 17 oed mewn un cam o newid disymwth sydd yn effeithio ymhellach ar agweddau eraill ar eu bywydau fel addysg, perthynas, a iechyd a lles. Mae'r holl bethau hyn, yn eu tro, yn dylanwadu ar eu gallu i ymdopi â byw'n annibynnol

- mae ymchwil gyda phobl ifanc sy'n symud ymlaen o ofal yn dangos eu bod nhw eu hunain yn nodi'r angen am baratoi ar gyfer y trawsnewidiad hwn mewn da bryd. Fodd bynnag, maent yn aml heb y sgiliau bywyd a gymerir yn ganiataol mewn rhai a gafodd fagwraeth fwy teuluol, ac felly mae angen cymorth arnynt

- mae'r grŵp yma o bobl ifanc yn amrywiol ac ni ddylid trin eu hanghenion fel pe baent yn unffurf

- nid oes corff helaeth o ymchwil ar yr hyn sy'n cyfrannu at ganlyniadau da yn achos plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal, yn enwedig astudiaethau hydredol a fyddai'n helpu i wahanu canlyniadau unigol ymyriadau, er bod yna gyfoeth o 'ddoethineb ymarferol' proffesiynol sydd heb ei gofnodi.

2.3.8 Mae ymchwil ar ffoëdigion ifanc yn yr Alban (Aberlour Child Care Trust, dim dyddiad) yn pwysleisio'r angen am eu cadw rhag byw ar y strydoedd, gyda holl beryglon hynny. Y pryderon allweddol a danlinellwyd gan yr ymchwil oedd:

- diffyg gwybodaeth am wasanaethau sydd yn bodoli
- yr angen am wasanaethau penodol a all gysylltu â phobl ifanc
- cyfyngiadau ar gyflenwad ac ansawdd llety mynediad uniongyrchol
- bod angen mathau mwy hyblyg o lety â chefnogaeth sy'n targedu anghenion pobl ifanc
- bod angen pecynnau cynhwysfawr o gefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n ceisio cael eu traed tanynt yn y byd mewn oed
- tensiynau rhwng deddfwriaeth plant a deddfwriaeth tai.

**Pwyntiau allweddol: cyd-destun**

- Ar hyn o bryd, mae cryn bwyslais ar ddatblygu polisi ar gyfer pobl ifanc ac ynglŷn â nhw ar lefelau'r DU, Cymru a Lloegr

- Mae fframweithiau polisi ieuenctid yn gyfuniad o ffyrdd hollgyffredinol o fynd ati a rhai wedi eu targedu, gyda mwy o bwyslais ar dargedu yn Lloegr a ffyrdd hollgyffredinol yng Nghymru

- Er gwaetha'r ffocws hwn, nid yw'r DU yn cymharu'n dda â gwledydd cyfoethog eraill o safbwynt lles plant a phobl ifanc

- Mae llawer o sylw'n cael ei roi i ddatblygu polisi ynglŷn â digartrefedd ieuenctid hefyd

- Ceir nifer o strategaethau cenedlaethol yng Nghymru sy'n rhoi cyd-destun i'r ymchwil hon, yn cynnwys y ***Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol*** a ***Strategaeth Troseddu Ieuenctid Cymru***

- Mae ymchwil berthnasol ddiweddar wedi canfod anawsterau gyda sicrhau llety addas a chefnogaeth i droseddwyr ifanc a phobl ifanc sy'n ymadael â gofal. Mae hynny oherwydd nifer o ffactorau, yn cynnwys diffyg gwybodaeth am wasanaethau, pobl ifanc sydd â nodweddion neilltuol yn cael eu heithrio o'r gwasanaethau sy'n bodoli, tyndra rhwng gwahanol fframweithiau deddfwriaethol, a'r newid sydyn i bobl ifanc sy'n symud o ofal at fyw'n annibynnol

- Bydd darparu a defnyddio llety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref yn fwy effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau polisi cenedlaethol yng Nghymru a thargedau cysylltiedig ar gyfer lleihau lefelau digartrefedd yn gyffredinol a lefelau digartrefedd eildro, yn ogystal â dileu'r defnydd o lety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc sy'n ddigartref

# 3 POBL IFANC SENGL DDIGARTREF: ANGHENION A DARPARIAETH

## Rhagarweiniad

3.1.1 Mae’r bennod hon wedi ei threfnu o dan dri phen:

- anghenion pobl ifanc sengl ddigartref
- teipoleg o’r llety a’r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc sengl ddigartref
- y ddarpariaeth sydd ar gael mewn gwirionedd

3.1.2 Mae Tablau 1 a 2 yn cyflwyno gwybodaeth am sbectrwm anghenion pobl ifanc. Lluniwyd y wybodaeth ar sail yr arolwg eang a wnaed o’r llenyddiaeth ac ar farn y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod cam cyntaf yr ymchwil yma (ceir manylion am y fethodoleg ym mharagraffau 1.3.2-1.3.5).

3.1.3 Mae Tablau 3 a 4 yn darparu gwybodaeth am y darlun o wasanaethau mewn gwahanol leoliadau a gasglwyd yn ystod cam olaf yr ymchwil yn awdurdodau’r ddwy astudiaeth unigol – y naill yn drefol a’r llall yn wledig (ceir manylion am y fethodoleg ym mharagraffau 1.3.8-1.3.9). Gofynnwyd i’r unigolion y cyfwelwyd â nhw i leoli’r gwasanaethau a oedd ar gael yn eu cylch o fewn y deipoleg a gyflwynir yn Nhabl 2 ac i drafod materion penodol, yn cynnwys sut yr eir ati yn strategol i gynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, bylchau yn y ddarpariaeth, a materion yn ymwneud â defnyddio gwasanaethau’n effeithiol.

## 3.2 Anghenion pobl ifanc sengl ddigartref

3.2.1 Un broblem gyffredinol bwysig a ddeilliodd o’r arolwg o’r llenyddiaeth yw bod anghenion pobl ifanc sengl ddigartref yn aml yn cael eu hystyried fel rhan o anghenion pobl sengl ddigartref yn gyffredinol, a gall hynny effeithio ar y math o wasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir. Fodd bynnag, nodai nifer o ddogfennau strategol ar ddigartrefedd a Chefnogi Pobl gyfran mor uchel o rai sy’n datgan eu bod yn ddigartref sydd yn bobl ifanc.

3.2.2 Cyflwynir sbectrwm o’r anghenion a amlygir gan pobl ifanc sengl ddigartref yn Nhabl 1. Mae’r Tabl yn rhestru pedwar diffiniad eang o angen ar y llaw chwith. Mae saethau rhwng pob diffiniad. Pwrpas y rhain yw dynodi y dylid ystyried y bras ddiffiniadau fel sbectrwm o anghenion a phwysleisio nad oes ffiniau pendant rhwng pob bras ddiffiniad. Felly, gall y wybodaeth a geir yn y colofnau eraill yn hawdd iawn gyd-doddi ar draws y diffiniadau.

3.2.3 Mae’r diffiniadau’n rhychwantu anghenion syml ac anghenion cymhleth lle ceir tystiolaeth o ymddygiad sydd yn niweidiol ac sydd yn cynrychioli risg. Efallai y bydd ar bobl ifanc ag anghenion syml angen ymyriad tymor-byr, lefel-isel i ailsefydlu sadrwydd, ynghyd â chefnogaeth i ddysgu sgiliau ar gyfer byw’n annibynnol a dod o hyd i dai. Fel arfer, bydd y bobl ifanc hyn wedi dioddef rhyw ergyd sydyn ac annisgwyl ond bydd ganddynt gefndir sefydlog o addysg/cyflogaeth a rhwydwaith da o deulu a ffrindiau.

3.2.4 Ar ben arall y sbectrwm ceir pobl ifanc sydd ag amrywiaeth o broblemau cymhleth, e.e. pobl ifanc sydd wedi cael ei rhoi mewn unedau ieuenctid diogel neu lefydd un-safle/arbenigol/sefydliadol dwys y tu allan i'r sir, neu rai a fu mewn sefydliad troseddwyr ifanc neu garchar oedolion). Yn ychwanegol at hynny, gall fod gan y bobl ifanc hyn broblemau camddefnyddio sylweddau difrifol neu broblemau iechyd meddwl parhaus a all fod yn gysylltiedig â'u profiadau. Efallai y cawsant hefyd eu hesgeuluso neu eu camdrin. Mae'n ddigon tebyg y gellir ymdrin â'r fath anghenion yn rhai o'r darpariaethau cyfredol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw fodelau o gefnogaeth/llety yn yr arolwg o'r llenyddiaeth ar y ddarpariaeth yng Nghymru (cyfredol neu arfaethedig) â'r nod o ganolbwyntio'n unswydd ar y lefel gymhleth iawn yma o angen sydd ar begwn eithaf y sbectrwm anghenion.

3.2.5 Rhoddir manylion pellach am y diffiniadau yn y Tabl o dan bedwar pennawd:

- sefyllfaoedd byw blaenorol
- profiadau a phroblemau posibl sydd ag angen cefnogaeth
- anghenion posibl cyfnod un
- anghenion posibl cyfnod dau

3.2.6 Po uchaf y lefel o angen, fel y dengys y tabl, y mwyaf tebygol fydd y person ifanc o fod wedi cael profiad o un neu fwy o'r sefyllfaoedd a ganlyn:

- profiad anhapus o'r gyfundrefn ofal a/neu brofiad o amrywiaeth o leoliadau
- byw mewn sefydliad – carchar, uned ieuenctid ddiogel, ysbyty seiciatrig
- soffa-syrffio
- cysgu allan
- profiad o amrywiaeth o sefyllfaoedd dros-dro mewn gwahanol gymunedau a lleoliadau
- byw ar aelwyd lle bu camdriniaeth neu gamdriniaeth – gan ddioddef camdriniaeth neu fod yn dyst i gamdriniaeth

a gallant fod ag un neu fwy o broblemau ychwanegol ag angen cefnogaeth:

- problemau iechyd meddwl
- camdrin sylweddau
- problemau ymddygiad
- record droseddol
- bod yn ddiymgeledd – risg o gael eu defnyddio a/neu eu hecsploetio'n rhywiol
- yn fygythiad posibl neu wirioneddol i bobl eraill

3.2.7 O dan y penawdau 'anghenion posibl cyfnod un' ac 'anghenion posibl cyfnod dau', mae'r Tabl yn rhestru'r ymateb sydd ei angen fel arfer yn achos pob un o'r bras ddiffiniadau o angen. Rydym wedi gwahaniaethu rhwng y ddau gyfnod am y dengys y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwil fod anghenion yn dwysáu pan fydd pobl ifanc yn cael eu gwahanu am gyfnod mwy estynedig oddi wrth eu teulu. Mae'n debyg fod hynny oherwydd fod y chwalfa deuluol yn ganlyniad problemau mwy difrifol yn ymwneud â'r oedolyn cyfrifol/rhiant a all, yn eu tro, achosi i'r person ifanc ddatblygu mwy o broblemau eu hunain ag angen ymateb mwy cymhleth dros gyfnod hwy.

3.2.8 Deilliodd y wybodaeth gefndir a ganlyn o sylwadau ynglŷn â'r sbectrwm angen gan rai yr ymgynghorwyd â nhw a chyfweledigon, ac mae'n werth ei hystyried ochr yn ochr â'r sbectrwm ei hun:

- lle mae anghenion yn llai cymhleth, mae'n debyg y bydd yr ymateb yn canolbwyntio ar waith sgiliau bywyd, chwilio am lety symud-ymlaen addas, ac ymdrin ag anghenion hyfforddi, addysg neu gyflogaeth

- wrth i'r anghenion fynd yn fwy cymhleth, daw pedwar ffactor yn neilltuol o bwysig wrth ateb anghenion pobl ifanc:

    - er mwyn iddynt ddysgu sgiliau bywyd yn effeithiol, rhaid mynd i'r afael â phroblemau ychwanegol fel camddefnyddio sylweddau, camdriniaeth a/neu iechyd meddwl cyn – neu ar yr un pryd â – gwaith ar sgiliau bywyd sylfaenol

    - mae pob lefel o angen yn golygu rhywfaint o waith gydag asiantaethau eraill, ond po fwyaf cymhleth yr angen, y mwyaf hanfodol fydd gweithgaredd aml-asiantaeth ac ymyraethol er mwyn i'r person symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Wrth hynny, golygwn ei bod hi'n bwysig i wahanol asiantaethau yn y sectorau statudol a gwirfoddol weithio mewn partneriaeth ac mewn modd cyfannol er mwyn cyfuno eu harbenigedd, e.e. mewn camddefnyddio sylweddau, anabledd dysgu, iechyd meddwl, i allu ymateb i holl anghenion yr unigolyn

    - i'r bobl ifanc hynny sy'n berygl iddyn nhw'u hunain neu i bobl eraill, mae asesiad risg a rheoli risg ar y cyd ag asiantaethau eraill yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth

    - po fwyaf cymhleth yr anghenion, y mwyaf oll o angen sydd am gontinwwm neu sbectrwm o wasanaethau, gan ei bod hi'n debycach y bydd person yn elwa ar symud ymlaen at fodelau eraill o lety sy'n dal i gynnig elfen o gefnogaeth. Efallai hefyd y bydd angen i bobl ifanc symud o lefel is o gefnogaeth at lefel uwch.


3.2.9 Cred darparwyr gwasanaethau fod pobl ifanc yn grŵp dynamig iawn ac y gall eu hanghenion newid yn sylfaenol mewn ymateb i amrywiaeth o broblemau a all darfu ar eu gallu i ymdopi'n dda a'u gallu i fyw bywyd mwy sefydlog. Er enghraifft:


- newid/rhywbeth yn tarfu ar eu sefyllfa gartref
- eu rhyddhau o sefyllfa sy'n newid mawr yn eu bywyd, e.e. terfyn perthynas faeth, y trawsnewidiad i fod yn oedolyn, rhyddhad o garchar neu uned ddiogel
- newid mewn perthynas bersonol
- newidiadau yng nghyfansoddiad y grŵp cymheiriaid
- argaeledd cyffuriau/alcohol (yn aml dan ddylanwad grŵp cymheiriaid neu brofiad o deulu camweithredol lle mae cyffuriau ac alcohol yn ffactor)
- newid ar yr aelwyd, e.e. dechrau perthynas a/neu feichiogi


3.2.10 Mae problemau o'r fath y golygu y gall pobl ifanc weithiau symud yn sydyn o gwmpas y diffiniadau o angen yn Nhabl 1. Roedd consensws cryf ymhlith darparwyr fod yn rhaid felly i'r ymateb i'w hanghenion fod yn amryfath, yr hyn a ddisgrifir weithiau fel 'continwwm o wasanaethau' (er bod rhai, fel y trafodir yn nes ymlaen, yn erbyn defnyddio'r ymadrodd hwn).

3.2.13 Roedd consesnsws y gall anghenion rhai 16 ac 17 oed fod yn wahanol iawn i eiddo rhai 18 oed a throsodd. Plant yw rhai 16 ac 17 oed yn ôl y diffiniad cyfreithiol, ac fe'u diogelir gan y diffiniad o 'Blant mewn Angen' a darpariaethau'r ddeddfwriaeth Diogelu Plant. Mae rhai o'r farn y dylid cydnabod y darpariaethau cyfreithiol hyn a'r dyletswydd gofal sydd ynghlwm wrthynt drwy ddatblygu llety a gwasanaethau cefnogi ar wahân i ateb yr anghenion hyn (yn enwedig, fel y gwelir yn nes ymlaen, yn achos llety brys â chefnogaeth).

**TABL 1: SBECTRWM/ AMREDIAD ANGHENION POBL IFANC SENGL DDIGARTREF**

| | Sefyllfaoedd byw blaenorol posibl: | Profiadau posibl a phroblemau y bydd angen cefnogaeth gyda nhw | Anghenion posibl cyfnod cyntaf | Anghenion posibl ail gyfnod |
|---|---|---|---|---|
| **1.<br>Pobl ifanc ddiymgeledd ag anghenion sylfaenol** | • Chwalu'r uned deuluol<br>• Ymadael â lle mewn gofal/maeth a fu'n bositif | • Diffyg hyder/hunan-barch a/neu<br>• Diffyg paratoad cyffredinol ar gyfer byw'n annibynnol a/neu<br>• Diffig cysondeb, cyfranogiad a chyflawniad addysgol | Asesiad o anghenion a chefnogaeth er mwyn:<br>• Datblygu sgiliau byw<br>• Cynyddu lefelau o hyder a hunan-barch<br>• Defnyddio adnoddau cymuned<br>• Dilyn cyfleoedd hyfforddi, addysg a chyflogaeth<br>Symud ymlaen ac ail-ymgartrefu (os llety dros-dro) | Dim cysylltiad pellach neu gyswllt cyfyngedig |
| <br>**2.<br>Pobl ifanc ddiymgeledd ag anghenion lefel ganolig** | • Chwalu'r uned deuluol<br>• Ymadael â lle mewn gofal/maeth (profiad llai positif)<br>• Profiad o amryw o leoliadau/trefniadau byw dros-dro | • Diffyg hyder/hunan-barch a/neu<br>• Diffyg paratoad cyffredinol ar gyfer byw'n annibynnol a/neu<br>**A**<br>• Ychydig o gyfranogiad mewn addysg, diffyg cysondeb a chyflawniad<br>• Problemau ymddygiad<br>• Problemau lefel-isel iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau<br>• Cysylltiad â'r llysoedd troseddol system ynglŷn â throseddu di-drais | Asesiad brys lle bu chwalfa'r trefniadau byw yn sydyn a/neu'n drawmatig<br><br>Cefnogaeth i:<br>• Ddatblygu sgiliau byw<br>• Cynyddu lefelau o hyder a hunan-barch<br>• Defnyddio adnoddau cymuned<br>• Dilyn cyfleoedd hyfforddi, addysg a chyflogaeth<br>• Symud ymlaen ac ail-ymgartrefu (os llety dros-dro)<br>• Gall cefnogaeth i ddatrys problemau eraill olygu cyd-gysylltu ag asiantaethau eraill | Symud i lety mwy addas â chefnogaeth<br><br>Neu<br><br>Mesur cyfyngedig o gyswllt/cefnogaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| <br>**3.<br>Pobl ifanc ddiymgeledd ag anghenion cymhleth a lluosog** | Unrhyw rai o’r uchod yn 2 ac unrhyw rai isod | • Diffyg hyder/hunan-barch a/neu<br>• Diffyg paratoad cyffredinol ar gyfer byw’n annibynnol<br><br>**A**<br>• Ychydig o gyfranogiad mewn addysg, diffyg cysondeb a chyflawniad<br>• Profiad o gamdriniaeth a/neu<br>• Camddefnydd sylweddau<br>• Problemau iechyd meddwl<br>• Ymddygiad/bywyd di-drefn a/neu<br>• Hanes o ymddygiad troseddol a/neu<br>• Hanes o ymyriad gan y sector statudol a/neu<br>• Posibilrwydd y gallent fod yn fygythiad iddyn nhw’u hunain neu eraill ond dim hanes cyfredol o hynny | Asesiad brys lle bu chwalfa’r trefniadau byw yn sydyn a/neu’n drawmatig<br><br>Cefnogaeth ddechreuol i:<br>• Ddatblygu sgiliau bywyd<br>• Gynyddu hunan-hyder a hunan-barch<br>• Defnyddio adnoddau cymunedol<br>• Dod o hyd i lety/cefnogaeth addas<br><br>Cefnogaeth wedi ei ffocysu i:<br>• Ymdrin â phroblemau penodol<br>• Asesu a rheoli unrhyw risg posibl<br>• Cydgysylltu ag, ac ymyriad gan, asiantaethau eraill yn y sectorau statudol a gwirfoddol | Symud i lety mwy addas â chefnogaeth<br><br>Cefnogaeth bellach i:<br>• Gynyddu hunan-hyder a hunan-barch<br>• Datblygu sgiliau bywyd<br>• Manteisio at gyfleoedd addysg a hyfforddiant a chyflogaeth<br>• Parhau i gyd-gysylltu ag asiantaethau<br>• Sicrhau llety symud-ymlaen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| <br>**4.<br>Pobl ifanc ddiymgeledd ag anghenion cymhleth a lluosog sy'n berygl i'r person neu i bobl eraill** | • Carchar<br>• Uned ieuenctid ddiogel<br>• Ymwneud â'r gwasanaethau seiciatrig/ iechyd meddwl<br>• Cysgu allan<br>• Syrffio soffa<br>• Naill ai'n dyst i gamdriniaeth yn y cartref neu wedi cael eu camdrin<br>• Puteindra | • Diffyg hyder/hunan-barch a/neu<br>• Diffyg paratoad cyffredinol ar gyfer byw'n annibynnol a/neu<br>• Cyfranogiad a chyflawniad addysgol isel<br><br>**Fel 3 uchod, a**<br>• Hanes o ymddwyn yn dreisgar/fygythiol a/neu<br>• Record o gamdrin eraill (yn rhywiol a/neu'n emosiynol a/neu'n gorfforol) o fewn y teulu, yr ysgol neu'r gymuned | Asesiad brys lle bu chwalfa'r trefniadau byw yn sydyn a/neu'n drawmatig<br><br>Cefnogaeth ddechreuol i:<br>• Ddatblygu sgiliau bywyd<br>• Gynyddu hunan-hyder a hunan-barch<br>• Defnyddio adnoddau cymunedol<br>• Dod o hyd i lety/cefnogaeth addas<br><br>Cefnogaeth wedi ei ffocysu i:<br>• Ymdrin â phroblemau penodol<br>• Asesu a rheoli unrhyw risg<br>• Cydweithrediad ac ymyriad aml-asiantaeth – sectorau statudol a gwirfoddol | Symud i lety mwy addas â chefnogaeth<br><br>Cefnogaeth bellach i:<br>• Gynyddu lefelau hunan-hyder a hunan-barch<br>• Datblygu sgiliau bywyd<br>• Manteisio at gyfleoedd hyfforddi, addysg a chyflogaeth<br>• Gweithgaredd aml-asiantaeth parhaus<br>• Sicrhau llety symud-ymlaen a all ddal i fod ag elfen o gefnogaeth |
| **DS. Efallai y bydd angen gwasanaethau cyfryngu yn 2, 3 neu 4 i ailsefydlu cysylltiadau â'r teulu estynedig/sefyllfa gartref arall** | | | | |

### 3.3 Teipoleg o’r amrywiaeth o fodelau llety a chefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc sengl ddigartref

3.3.1 Cyn cyflwyno’r deipoleg, efallai y byddai o gymorth diffinio’r hyn a olygwn wrth y term. Mae’r deipoleg yn cynrychioli’r holl fathau o ddarpariaeth a nodwyd yng ngham cyntaf yr ymchwil fel gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc sengl ddigartref yn y DU ar hyn o bryd. Nid yw’n cynrychioli sut y credwn ni, y darparwyr neu’r budd-ddeiliaid y dylai proffil o wasanaethau presennol edrych, h.y., y mae’n gynrychioladol yn hytrach nag yn seiliedig ar ddyheadau. Nid ydyw ychwaith yn argymhelliadol nac yn cynnwys pob math posibl o lety y gellid ei ddefnyddio ar gyfer y grŵp yma. Mae modelau anghyffredin yn eithriadau i’r deipoleg, ac ni chawsant eu cynnwys fel categorïau ychwanegol.

3.3.2 Tra bod gwasanaethau’n cael eu diffinio’n gryno yn y deipoleg, defnyddir terminoleg sy’n cyfeirio ar ddulliau comisiynu a phatrymau hanesyddol o gyllido drwy grantiau, ac felly mae angen esbioniad pellach. Ceis eglurhad o rai o’r termau mwy cymhleth a ddefnyddir yn y nodyn isod ac mae Atodiad 4 yn rhoi disgrifiad manwl o fodelau mwy diweddar a/neu lai sefydliedig yng Nghymru.

3.3.3 Ceir teipoleg o fodelau llety a chefnogaeth yn Nhabl 2 isod. Mae’r Tabl yn cynnwys pum categori a rhoddir diffiniadau o fodelau unigol/mathau o wasanaethau a geir o fewn pob categori.

3.3.4 Defnyddiwyd dwy ffactor i wahaniaethu rhwng y categorïau a’r modelau/mathau a gynhwysir o’u mewn, sef:

- a ydyw’r cyfleuster a/neu’r gefnogaeth wedi eu lleoli mewn un safle/ardal neu beidio
- a fwriedir i’r ddarpariaeth fod yn un frys/arhosiad byr (hyd at 6 mis) neu’n un dros-dro

3.3.5 Mae gwybodaeth bellach, a gyflwynir yn y colofnau, yn darparu mwy o fanylion ynglŷn â phob model/math o dan bum penawd:

- y llety ei hun
- lefel a natur y gefnogaeth a ddarperir
- llwybrau atgyfeirio nodweddiadol
- hyd yr arhosiad
- symud ymlaen

3.3.6 Mae’r wybodaeth am atgyfeiriadau a gynhwysir yn y tabl yn aml yn ailadroddus ei natur er bod yna rai nodweddion a thueddiadau penodol:

- mae gan wasanaethau (darpariaeth frys a thros-dro) sy’n lletya pobl ifanc yn gyffredinol (h.y. pobl ifanc â phob math o anghenion) amrywiaeth eang o lwybrau atgyfeirio

- yn yr un modd, mae gwasanaethau dwys (e.e. allgyrch pendant) aml-asiantaeth hefyd yn derbyn atgyfeiriadau gan lawer o asiantaethau

- lle bydd gwasanaeth yn canolbwyntio ar angen neilltuol (e.e. pobl ifanc sy’n camddefnyddio sylweddau, troseddwyr neu wasanaethau ar gyfer menywod ifanc sy’n

cael eu camdrin) mae'r llwybrau atgyfeirio yn tueddu i fod yn gysylltiedig â gwasanaethau statudol a gwirfoddol sy'n gweithio ym maes yr angen neilltuol hwn

- gall gwasanaethau sydd â chysylltiad clos â sector statudol am eu bod yn cael eu cyllido'n rhannol neu'n gyfan gwbl ganddynt (ac efallai â chytundeb lefel gwasanaeth gyda nhw) fod â llwybrau atgyfeirio mwy caeth (e.e. efallai y bydd llety â chefnogaeth yn derbyn atgyfeiriadau gan Dimau Gadael Gofal yn unig, ac efallai y bydd gan hosteli asesu brys neu rai penodol ar gyfer pobl ifanc drefniadau atgyfeirio gyda thîm digartrefedd neu ddewisiadau tai yr awdurdod lleol)

3.3.7 Nid oedd y wybodaeth am hyd yr arhosiad a symud ymlaen a ddeilliodd o'r arolwg o'r llenyddiaeth yn ddigon manwl mewn llawer o achosion, ac felly gosodwyd marciau cwestiwn yn erbyn peth o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y golofn hon o'r tabl. Yn ychwanegol at hynny, mae hyd arhosiad yn y tabl yn cyfeirio at y cyfnod o amser y mae'r gwasanaeth yn anelu at/bwriadu cefnogi person ifanc, nid at faint o amser y cafodd pobl eu cefnogi mewn gwirionedd. Mae tystiolaeth yr arolwg o'r llenyddiaeth a chyfweliadau yn awgrymu y gall diffyg llety symud-ymlaen effeithio'n ddwys ar y gallu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol. Ystyrir y broblem hon ymhellach ym mhennod 4.

3.3.8 Mae'r deipoleg yn nodi un ar hugain o fathau o ddarpariaeth. Mae'r nifer o weithiau y nodwyd pob math yn yr ariolwg o'r llenyddiaeth yn amrywio'n fawr iawn. Y mathau mwyaf cyffredin o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref yn y DU a nodwyd yn yr arolwg yw mynediad uniongyrchol, llety dros-dro wedi ei rannu, cymorth hyblyg, a llety 'foyer'.

3.3.9 Cytunai'r darparwyr a'r budd-ddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ynglŷn â'r deipoleg ar y cyfan ei bod yn adlewyrchu'n gywir yr amrediad o wasanaethau y gellir eu datblygu i ateb anghenion pobl ifanc sengl ddigartref. Gwnaed mân welliannau i'r drafft i gynnwys barn y rhai yr ymgynghorwyd â nhw a cheir y fersiwn diwygiedig yn Nhabl 2 isod. Canolbwyntiai'r rhan fwyaf o'r gwelliannau ar egluro terminoleg, ond roedd y cyfweledigion hefyd am gynnwys dau fath o ddarpariaeth nad oedd yno yn wreiddiol:

- llety gwely a brecwast. Ni chynhwyswyd hwn yn wreiddiol oherwydd barn y mwyafrif nad yw'n addas ar gyfer pobl ifanc. Roedd nifer o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw am ei gynnwys am ei fod yn dal i gael ei ddefnyddio yn ymarferol. Credai rhai cyfweledigion hefyd y gallai rhai landlordiaid llety gwely a brecwast fod yn gefnogol iawn i bobl ifanc ac y gallai'r math hwn o ddarpariaeth, mewn rhai amgylchiadau, fod yn well na darpariaeth hostel gyffredinol.

- llochesau. Cynhwyswyd y rhain oherwydd eu bod hi'n amlwg eu bod yn lletya pobl ifanc sy'n cefnu ar berthynas lle cawsant eu camdrin ac mae'n bosibl fod rhai yn lletya pobl ifanc sy'n ffoi rhag sefyllfeydd eraill lle dioddefasabt gamdriniaeth (e.e. gan rieni).

3.3.10 At ei gilydd, ni fu'n bosibl nodi unrhyw gydberthynas rhwng dwyster y lefel gefnogaeth a'r categori a'r math o ddarpariaeth. Mae yna fathau o fewn y categorïau mynediad uniongyrchol/brys yn y deipoleg (1 a 2) a'r categorïau llety dros-dro (3, 4 a 5) a all ddiwallu anghenion sylfaenol pobl ifanc yn ogystal ag anghenion cymhleth a lluosog a rhai sydd yn ymdrin ag amrywiaeth o anghenion.

**Nodyn ar y derminoleg a ddefnyddir yn Nhabl 2**

***Unedau gwasgarog***

Mae hyn yn cyfeirio at broject a gyllidir gan Grant Refiniw Cefnogi Pobl (SPRG) sydd ynghlwm wrth sawl eiddo unigol, heb iddynt fod yn yr un lleoliad, o anghenraid; mae unedau eiddo yn aml ar wasgar yn ddaearyddol. Y gwahaniaeth rhwng hyn a cymorth hyblyg yw bod yr eiddo yn aros gyda'r gwasanaeth (h.y. pan na fydd ar bobl angen cefnogaeth mwyach, byddant yn symud ymlaen).

***Cymorth hyblyg***

Gwasanaeth arall a gyllidir gan SPRG fel arfer yw cymorth hyblyg. Mae'n cynnig amryw o fathau o gefnogaeth i bobl yn eu cartrefi neu denantiaethau eu hunain gyda'r nod o'u gallugi i fod, a pharhau i fod, yn annibynnol. Darperir y gwasanaeth cyhyd ag y bo'i angen, ond gyda strategaeth glir i'w ddirwyn i ben drwy'r broses cynllunio cefnogaeth. Pan na fydd angen y gefnogaeth mwyach, defnyddir y gwasanaeth gan berson arall sydd ag angen cefnogaeth, tra bydd y person gwreiddiol yn parhau i fyw yn ei gartref/tenantiaeth ei hun.

***Hostel mynediad uniongyrchol***

Defnyddir y term 'hostel' neu 'hostel mynediad uniongyrchol' i ddisgrifio gwasanaethau sy'n gallu lletya pobl ar fyr rybudd. Mae hyn yn golygu y byddant fel arfer yn gallu gwneud asesiad o fewn 24 awr a fydd yn galluogi'r gwasanaeth i benderfynu a fydd yn gallu lletya'r person hwnnw.

***Llochesau***

Gwasanaethau yw'r rhain sydd ond ar gael i bobl sydd wedi dioddef camdriniaeth, gan amlaf o ganlyniad i'w perthynas gyda'u partner. Cyfeirir atynt fel gwasanaethau mynediad uniongyrchol am y gallant, fel hosteli, asesu pobl a atgyfeirir yn gyflym ac ar fyr rybudd.

***Tai wedi eu rhannu***

Defnyddir y term yma i ddisgrifio gwasanaeth sydd yn lletya pobl sydd ag angen cefnogaeth am gyfnod dros-dro ac sy'n cynnwys rhai cyfleusterau sy'n cael eu rhannu. Bydd llwybr mynediad cynlluniedig i'r gwasanaeth, h.y. derbynir atgyfeiriadau dros gyfnod o amser, gyda'r person sydd â mwyaf o angen yn cael lle pan fydd un yn dod yn wag. Fel arfer bydd darparydd y gwasanaeth yn gweithredu rhyw fath o restr aros.

***Craidd a chlwstwr***

Mae'r model hwn fel arfer yn cynnwys cyfuniad o dŷ wedi ei rannu neu grŵp o fflatiau ar yr un safle ac unedau gwasgaredig (h.y. unedau eraill o dai anghenion cyffredinol â chymorth hyblyg nad ydynt ar y safle). Yn aml bydd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael llety yn y lle cyntaf yn y craidd ac yna, os bydd angen, yn symud i'r unedau gwasgaredig/tai â chymorth hyblyg fel rhan o broses gynlluniedig tuag at fod yn gwbl annibynnol.

**TABL 2: TEIPOLEG O FODELAU LLETY AR GYFER POBL IFANC SENGL DDIGARTREF (CRYNODEB A'R DEIPOLEG GYFLAWN)**

**CRYNODEB O GATEGORÏAU A MATHAU**

**CATEGORI 1 – DARPARIAETH FRYS/ARHOSIAD BYR LLE DARPERIR GWASANAETHAU MEWN LLETY HOSTEL <u>AR UN SAFLE</u>**

- Categori 1 Math 1: Darpariaeth hostel gyffredinol
- Categori 1 Math 2: Darpariaeth hostel gyffredinol gyda llety diogel penodol ar gyfer pobl ifanc
- Categori 1 Math 3: Llochesau ar gyfer pobl sy'n ffoi rhag camdriniaeth yn y cartref
- Categori 1 Math 4: Darpariaeth hostel yn benodol ar gyfer pobl ifanc
- Categori 1 Math 5: Hostel pobl ifanc (asesiad ac ymyriad brys)

**CATEGORI 2 – DARPARIAETH YMYRIAD BRYS/ARHOSIAD BYR LLE <u>NA</u> DDARPERIR GWASANAETHAU MEWN LLETY HOSTEL AR UN SAFLE**

- Categori 2 Math 1: Llety gwely a brecwast
- Categori 2 Math 2: Llety brys ar aelwyd â chefnogaeth (gelwir hefyd yn 'lloches dros nos')
- Categori 2 Math 3: Gwasanaethau allgyrch pendant (iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu anghenion lluosog)
- Categori 2 Math 4: Pecyn aml-asiantaeth cydgysylltiedig hyblyg
- Categori 2 Math 5: Gwasanaethau cyfryngu

**CATEGORI 3 – GWASANAETHAU O NATUR DROS-DRO SYDD Â'R NOD O DDARPARU CEFNOGAETH I ALLUOGI POBL IFANC I GYNNAL TENANTIAETH A BYW YN ANNIBYNNOL, A DDARPERIR <u>AR UN SAFLE</u>**

- Categori 3 Math 1: Tai â chfnogaeth wedi eu rhannu – gall fod ar gyfer amrywiaeth o bobl ifanc neu'n arbenigol, h.y. menywod ifanc diymgeledd, pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau, rhai sy'n mynd drwy brosesau cyfiawnder troseddol (llety cymeradwy)
- Categori 3 Math 2: Llety foyer
- Categori 3 Math 3: Fflatiau hyfforddi
- Categori 3 Math 4: Tŷ wedi ei rannu – cefnogaeth cymheiriaid

**CATEGORI 4 – GWASANAETHAU O NATUR DROS-DRO SYDD Â'R NOD O DDARPARU CEFNOGAETH I ALLUOGI POBL IFANC I GYNNAL TENANTIAETH A BYW YN ANNIBYNNOL, MEWN LLETY <u>ANGHENION CYFFREDINOL GWASGAREDIG</u>**

- Categori 4 Math 1: Cymorth hyblyg – <u>cyffredinol</u> h.y. ar gyfer amrywiaeth o oedrannau ac anghenion
- Categori 4 Math 2: Cymorth hyblyg – <u>penodol ar gyfer</u> <u>pobl ifanc</u> beth bynnag y bo'u hanghenion cefnogaeth
- Categori 4 Math 3: Cymorth hyblyg – <u>ar gyfer problemau penodol ac yn benodol ar gyfer pobl ifanc</u> e.e. pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau, troseddwyr ifanc, ymadawyr â gofal, menywod ifanc diymgeledd
- Categori 4 Math 4: Cynlluniau bondiau a ddefnyddir ar y cyd â chymorth hyblyg
- Categori 4 Math 5: Llety ar aelwyd â chefnogaeth

**CATEGORI 5 – GWASANAETHAU O NATUR DROS-DRO SYDD Â'R NOD O DDARPARU CEFNOGAETH I ALLUOGI POBL IFANC I GYNNAL TENANTIAETH A BYW YN ANNIBYNNOL A DDARPERIR DRWY GYFUNIAD O LETY ANGHENION CYFFREDINOL UN-SAFLE A GWASGAREDIG (Y CYFEIRIR ATO WEITHIAU FEL CRAIDD A CHLWSTER)**

- Categori 5 Math 1: Craidd a chlwster – ar un safle
- Categori 5 Math 2: Craidd a chlwster gwasgaredig

**CATEGORI 1 – DARPARIAETH FRYS/ARHOSIAD BYR LLE DARPERIR GWASANAETHAU MEWN LLETY HOSTEL <u>AR UN SAFLE</u> (yn**

| cynnwys llochesau ar gyfer pobl sy’n ffoi rhag camdriniaeth yn y cartref | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mathau** | **Y llety** | **Lefel a natur y gefnogaeth** | **Llwybrau atgyfeirio nodweddiadol** | **Hyd yr arhosiad** | **Symud ymlaen** |
| **Categori 1 Math 1: Darpariaeth hostel gyffredinol** | Prif nodweddion:<br>• yn fawr fel arfer (15 uned+)<br>• stafelloedd ar wahân - (mae modelau mwy diweddar yn aml yn cynnwys tŷ bach/cyfleusterau ymolchi yn yr uned)<br><br>Gall cyfleusterau eraill gynnwys:<br>• cegin wedi ei rhannu<br>• tŷ bach/cyfleusterau ymolchi wedi ei rhannu<br>• stafell gyffredin<br>• gofod cyfweld/ cyfarfodydd cefnogi ar wahân<br>• swyddfa<br>• CCTV<br>• modelau mwy diweddar – cyfleusterau hyfforddi TG | Prif nodweddion:<br>• staffio 24 awr (staff ar ddi-hun neu’n cysgu i mewn)<br>• cefnogaeth un-i-un gan weithiwr allweddol<br><br>Prif ffocws y gefnogaeth:<br>• cefnogaeth i fagu sgiliau i allu byw’n annibynnol<br>• datrys problemau yn ymwneud ag iechyd, diogelwch, achosion llys<br>• cydgysylltu ag asiantaethau eraill ar y materion uchod a cheisio cefnogaeth arall<br>• ymdrin â phroblemau symud ymlaen ac ailymgartrefu<br><br>Meysydd eraill (yn amodol ar adnoddau ac amser) cefnogaeth mewn perthynas â:<br>• camddefnyddio sylweddau<br>• cyflogaeth, addysg a hyfforddiant<br>• sefydlu a chynnal perthynas<br>• hobïau | • Gwasanaethau Cymdeithasol a Digartrefedd awdurdod lleol<br>• Sefydliadau gwirfoddol eraill – asiantaethau cynghori a darparwyr cefnogaeth eraill<br>• Gwasanaeth Prawf<br>• Hunan-gyfeirio<br>• Atgyfeiriad o lety GaB (hunan neu asiantaeth) | Nod: 1-3 mis | • Tenantiaeth ei hun (pob deiliadaeth)<br>• Mathau eraill o dai â chefnogaeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Categori 1 Math 2: Darpariaeth hostel gyffredinol gyda llety diogel penodol ar gyfer pobl ifanc** | Fel uchod ond gyda rhan o'r adeilad wedi ei ddynodi'n llety pobl ifanc (e.e. coridor neu lawr gyda threfniadau mynediad diogel) gall y rhain fod wedi eu cysylltu â thechnoleg gynorthwyol<br><br>Gall fod ar gyfer un rhyw | Fel uchod ond mae'n rhoi i'r darparydd y gallu i letya pobl ifanc sy'n cefnu ar sefyllfaoedd lle bu camdriniaeth neu anniogel (e.e. puteindra) ac felly'n fwy tebygol o allu darparu cefnogaeth â ffocws ar yr agwedd hon | | | |
| **Categori 1 Math 3: Llochesau ar gyfer pobl sy'n ffoi rhag camdriniaeth yn y cartref** | Prif nodweddion:<br>• yn fach fel arfer (hyd at 6 uned)<br>• stafelloedd ar wahân – (mae modelau mwy diweddar yn aml yn cynnwys tŷ bach/ cyfleusterau ymolchi yn yr uned)<br><br>Gall cyfleusterau eraill gynnwys:<br>• cegin wedi ei rhannu<br>• tŷ bach/cyfleusterau ymolchi wedi ei rhannu<br>• stafell gyffredin<br>• stafell blant<br>• stafell arddegau<br>• gofod cyfweld/ cyfarfodydd cefnogi ar wahân<br>• Swyddfa<br>• CCTV | Prif nodweddion:<br>• galw allan mewn argyfwng<br>• cefnogaeth un-i-un gan weithiwr allweddol<br><br>Prif ffocws y gefnogaeth:<br>• ymdrin â phroblemau camdrin<br>• cefnogaeth i fagu sgiliau i allu byw'n annibynnol<br>• datrys problemau brys yn ymwneud ag iechyd, diogelwch, achosion llys<br>• cydgysylltu ag asiantaethau eraill ar y materion uchod a cheisio cefnogaeth arall<br>• ymdrin â phroblemau symud ymlaen ac ailymgartrefu<br><br>Meysydd eraill (yn amodol ar adnoddau ac amser) cefnogaeth mewn perthynas â:<br>• camddefnyddio sylweddau<br>• cyflogaeth. addysg a hyfforddiant<br>• sefydlu a chynnal perthynas<br>• hobïau | • Gwasanaethau Cymdeithasol a Digartrefedd awdurdod lleol<br>• Sefydliadau gwirfoddol eraill – asiantaethau cynghori a darparwyr cefnogaeth eraill<br>• Gwasanaeth Prawf<br>• Hunan-gyfeirio<br><br>Gwasanaeth ar gyfer oedolion yn bennaf sydd wedi dioddef mewn perthynas â phartner, sy'n cynnwys pobl ifanc gyda phlant neu hebddynt<br><br>Bydd llochesau'n amrywio o'r safbwynt a fyddant yn derbyn pobl ifanc sy'n cael eu camdrin gan bobl amgen na'u partner | Nod: 6 wythnos – 6 mis | • Tenantiaeth ei hun (pob deiliadaeth)<br>• Mathau eraill o dai â chefnogaeth |
| **Categori 1 Math 4:** | Prif nodweddion tebyg i | Fel gyda Math 1 ond mae natur y | | Fel uchod | Fel uchod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darpariaeth hostel yn benodol ar gyfer pobl ifanc** | Fath 1. Dim ond mewn ardaloedd trefol y ceir y fath hosteli arbenigol fel arfer, tueddu i fod o faint canolig (8 – 20 uned) | gwasanaeth hwn yn galluogi'r tîm staff i ganolbwyntio'n llwyr ar y problemau sy'n effeithio ar bobl ifanc. Hefyd yn creu amgylchedd diogel ac yn caniatáu cefnogaeth gan gymheiriaid. | | | |
| **Categori 1 Math 5: Hostel pobl ifanc (asesiad ac ymyriad brys)** | Prif nodweddion:<br>• bach (5-8 uned fel arfer)<br>• stafelloedd ar wahân – (weithiau'n cynnwys tŷ bach/cyfleusterau ymolchi yn yr uned)<br><br>Gall cyfleusterau eraill gynnwys:<br>• cegin wedi ei rhannu<br>• stafell gyffredin<br>• gofod cyfweld/ cyfarfodydd cefnogi ar wahân<br>• swyddfa<br>• CCTV | Prif nodweddion:<br>• staffio 24 awr (staff ar ddi-hun fel arfer)<br>• cefnogaeth un-i-un<br><br>Prif ffocws y gefnogaeth:<br>• llunio asesiad angen manwl<br>• cefnogaeth benodol i sefydlogi'r sefyllfa sydd wedi arwain at yr argyfwng<br>• cydgysylltu gyda'r sector statudol ac asiantaethau eraill (tebyg o fod yn adnabyddus i'r rhain)<br>• ymdrin â'r problemau sydd wedi arwain at fynd yn ddigartref<br>• cyfryngu os wedi ymddieithrio oddi wrth y teulu<br>• ffocws ar y cam nesaf o safbwynt yr union ddewisiadau a all ateb anghenion y person | • Yn fwyaf tebygol o fod ynghlwm wrth Wasanaethau Cymdeithasol a digartrefedd yr awdurdod lleol a chwalfa amgylchiadau byw a chysgu allan<br><br>Llai tebygol o fod yn un o'r rhai a restrir isod er y gallai ddod ar hyd y llwybrau hyn ar y darparydd ac yna cael eu cyfeirio drwy'r awdurdod lleol:<br>• sefydliadau gwirfoddol eraill – asiantaethau cynghori a darparwyr cefnogaeth eraill<br>• Gwasanaeth Prawf<br>• hunan-gyfeirio<br>• atgyfeiriad (hunan neu asiantaeth) o lety GaB | 3 – 7 diwrnod ond gall fod yn hwy | Ffocws ar gynllunio'r symudiad iawn:<br><br>• dychwelyd adre<br>• lletya ar aelwyd â chefnogaeth<br>• mathau eraill o letyâ chefnogaeth<br><br>Annhebygol o fynd i mewn i lety anghenion cyffredinol |
| **CATEGORI 2 – DARPARIAETH YMYRIAD BRYS/ARHOSIAD BYR LLE NA DDARPERIR GWASANAETHAU MEWN LLETY HOSTEL AR UN SAFLE** | | | | | |
| **Mathau** | **Y llety** | **Lefel a natur y gefnogaeth** | **Llwybrau atgyfeirio nodweddiadol** | **Hyd yr arhosiad** | **Symud ymlaen** |
| **Categori 2 Math 1: Gwely a brecwast** | Prif nodweddion:<br>• stafell (weithiau â'i thŷ bach a'i stafell ymolchi ei hun, | Lefel gyfyngedig o gefnogaeth. Darperir peth cefnogaeth lle:<br>• bydd darparydd cefnogaeth yn derbyn grant i ddarparu | Adran ddigartrefedd yr awdurdod lleol fel arfer | Amrywiol | Llety anghenion cyffredinol neu â chefnogaeth neu lety arall â |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | weithiau wedi eu rhannu) | cefnogaeth i bobl ifanc sy'n byw mewn llety GaB yn lleol<br>• mae'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda ac/neu wedi darparu hyfforddiant i'r landlord i chwarae mwy o ran fel landlord – gall hyn wedyn fynd yn debycach i letya ar aelwyd â chefnogaeth | | | chefnogaeth |
| **Categori 2 Math 2: Lletya brys ar aelwyd â chefnogaeth (gelwir hefyd yn 'lloches dros nos')** | Prif nodweddion:<br>• cartref rhywun (unrhyw ddeiliadaeth)<br>• darperir llety gan ofalydd maeth, â phrofiad blaenorol fel arfer, sy'n:<br>- gwneud cais i'r darparydd am fod yn rhan o'r gwasanaeth<br>- bodloni'r meini prawf dethol<br>- derbyn gwybodaeth a hyfforddiant<br>- cael cefnogaeth gyson gan ddarparydd y gwasanaeth ac asiantaethau perthnasol eraill | Ffocws y gefnogaeth:<br>• darparu sefydlogrwydd a chymorth ac arweiniad gan oedolyn<br>• datrys unrhyw broblemau brys ynglŷn â diogelwch, iechyd ayb.<br>• yn aml, am ei fod yn atgyfeiriad mewn argyfwng, cyfraniad gan y sector statudol ac asiantaethau eraill (e.e. yr heddlu oherwydd materion yn ymwneud ag amddiffyn plant)<br>• cefnogi parhau mewn addysg a hyfforddiant<br>• cysylltiadau cryf gyda Thîm Ymadael â Gofal/Tîm digartrefedd yr awdurdod lleol | • Atgyfeirio fel arfer gan wasanaethau cymdeithasol (Tîm Ymadael â Gofal) neu dîm digartrefedd awdurdod lleol, at y sefydliad sydd â'r cytundeb i drefnu'r gwasanaeth (yn aml drwy'r Gwasanaethau Plant/Tîm Ymadael â Gofal) | 3 – 5 diwrnod | Llety arall â chefnogaeth |
| **Categori 2 Math 3 Gwasanaethau allgyrch pendant (iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu anghenion lluosog)** | Gweithredir yn achos y person ni waeth beth fo'r trefniadau byw (yn cynnwys cysgwyr allan) | Prif nodweddion:<br>• model dwys o gefnogaeth a gwasanaeth ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu gyfuniad o anghenion sydd wedi arwain at ffordd o fyw ddi-drefn (yn aml, bydd person wedi bod i mewn ac | System atgyfeirio agored ond yn debyg o fod yn ddarparydd gwasanaethau stadudol neu wirfoddol ym maes iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu gyfiawnder troseddol | Agored – dibynnu ar yr unigolyn | Llety arall â chefnogaeth Gall hefyd fod yn sefydlad (e.e. adfer) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | allan o ysbytai meddwl/ carchar)<br>• anl-asiantaeth, fel arfer, gyda lefelau uchel o gysylltu, cynllunio ac ymyriad rhwng gwasanaethau<br>• cyd-drefnir y gwasanaeth gan un darparydd, a bydd y gwasanaeth yn dilyn y person<br>• lefelau staffio o hyd at un aelod staff ar gyfer 2/3 o bobl, gyda chyfraniad sylweddol gan asiantaethau eraill<br>• Nod y gwasanaeth yw cadw'r person yn ddiogel, ei atal rhag bod yn fygythiad i eraill a dod ag elfen o sefydlogrwydd a fydd yn y man yn ei alluogi i ddefnyddio gwasanaethau eraill yn effeithiol | | | |
| **Categori 2 Math 4: Pecyn aml-asiantaeth cydgysylltiedig hyblyg** | Gwasanaeth aml-asiantaeth a roddir i bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref (h.y. yn byw gyda rhieni, ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau ('syrffio soffa') | Prif nodweddion:<br>• cefnogaeth yn canolbwyntio ar atal pobl rhag mynd yn ddigartref drwt ymyriad brys o flaen llaw<br>• cyd-drefnir gan un gwasanaeth ond ffordd aml-asiantaeth o fynd ati a all gynnwys cyfryngu, ymyriad teuluol, CBT, ymyriad addysgol, gwasanaethau cymdeithasol, CAMHs ayb. | System atgyferio agored:<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol a Digartrefedd awdurdod lleol<br>• cyrff gwirfoddol eraill – asiantaethau cynghori, darparwyr cefnogaeth eraill<br>• Y Gwasanaeth Prawf<br>• hunan-atgyfeirio<br>• Connexions<br>• ysgolion | Dibynnu ar y sefyllfa | Amrywiol (dibynnu ar sut y datrysir y sefyllfa) |
| **Categori 2 Math 5: Gwasanaethau** | Prif nodweddion:<br>• hwyluso trafod a | Prif nodweddion:<br>• cefnogaetha dialog un-i-un | • Atgyfeiriad gan wasanaeth pan fydd | Hyd yn dibynnu ar | Gall arwain at ddychwelyd |

| Mathau | Y llety | Lefel a natur y gefnogaeth | Llwybrau atgyfeirio nodweddiadol | Hyd yr arhosiad | Symud ymlaen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfryngu** | datrys problemau'n ymwneud â phlentyn/ person ifanc yn ymadael â chartref<br>• tra gall fod yn wasanaeth ar wahân, gall hefyd fod yn rhan o wasanaethau eraill, neu'n cael ei ddefnyddio ganddynt, gan amlaf Categori 1 Math 3 Hostel pobl ifanc a Categori 2 Math 1 Lletya brys ar aelwyd â chefnogaeth uchod<br>er mai mewn llety Categorïau 1 a 2 y caiff ei ddefnyddio'n fwyaf cyffredin, gall hefyd gael ei ddefnyddio gan rai o'r gwasanaethau a ddisgrifir isod | gyda'r person ifanc<br>• dialog un-i-un gyda'r rhiant/ gwarcheidwad<br>• trafod gyda'r ddau barti<br>• y nod fydd dod o hyd i ateb a all (ond nid o anghenraid) arwain at ddychwelyd adref i alluogi'r person ifanc i symud allan mewn modd cynlluniedig yn ddiweddarach neu am gyfnod hwy | person ifanc eisoes mewn llety â chefnogaeth, fel arfer<br><br>Fel arall:<br>• atgyfeiriad statudol<br>• sector gwirfoddol<br>• hunan-atgyfeirio – rhiant/ gwarcheidwad neu'r person ifanc<br>• atgyfeirio gan wasanaeth digartrefedd/opsiynau tai | y broblem | adre neu ddod o hyd i lety amgen (yn aml gyda chefnogaeth yn gysylltiedig, gan y bydd y person ifanc fel arfer wedi bod yn byw mewn lleoliad gydag oedolyn) |
| **CATEGORI 3 – GWASANAETHAU O NATUR DROS-DRO SYDD Â'R NOD O DDARPARU CEFNOGAETH I ALLUOGI POBL IFANC I GYNNAL TENANTIAETH A BYW YN ANNIBYNNOL, A DDARPERIR AR UN SAFLE** | | | | | |
| **Mathau** | **Y llety** | **Lefel a natur y gefnogaeth** | **Llwybrau atgyfeirio nodweddiadol** | **Hyd yr arhosiad** | **Symud ymlaen** |
| **Categori 3 Math 1: Tai â chefnogaeth wedi eu rhannu – gall fod ar gyfer amrywiaeth o bobl ifanc neu'n arbenigol, h.y. menywod ifanc diymgeledd, pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau, rhai** | Prif nodweddion:<br>• eu lleoli yn y gymuned<br>• hyd at wyth gwely<br>• stafelloedd ar wahân – (mae modelau mwy diweddar yn aml yn cynnwys tŷ bach/cyfleusterau ymolchi yn yr uned)<br><br>Gall cyfleusterau eraill | Prif nodweddion:<br>• staffio 24-awr (staff ar ddi-hun/ cysgu i mewn) neu ar alwad<br>• cefnogaeth un-i-un<br><br>Prif ffocws y gefnogaeth yw:<br>• dysgu sgiliau byw'n annibynnol<br>• ymdrin â phroblemau penodol e.e. camddefnydd sylweddau, | Proses atgyfeirio eang ei chwmpas fel arfer:<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• digartrefedd<br>• Y Gwasanaeth Prawf<br>• asiantaethau cynghori sector gwirfoddol<br>• darparwyr tai a chefnogaeth eraill<br>• hunan-atgyfeirio | Nod 3 – 9 mis? | Amrywiaeth o opsiynau, llety anghenion cyffredinol fel arfer (gwahanol ddeiliadaethau)<br><br>Gellir atgyfeirio at wasanaeth cymorth hyblyg lle mae angen cefnogaeth o |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **sy'n mynd drwy'r system gyfreithiol (llety cymeradwy)** | gynnwys:<br>• cegin wedi ei rhannu<br>• tŷ bach/cyfleusterau ymolchi wedi ei rhannu<br>• stafell gyffredin<br>• gofod cyfweld/ cyfarfodydd cefnogi ar wahân<br>• swyddfa<br>• CCTV<br>• modelau mwy diweddar – cyfleusterau hyfforddi TG | patrymau troseddu, iechyd meddwl gwael)<br>• mynediad i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant<br>• sefydlu a chynnal perthynas<br>• defnyddio adnoddau cymuned – hobïau a diddordebau<br>• cefnogaeth gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill<br>• ymdrin â phroblemau symud ymlaen ac ailsefydlu<br>• cysylltu ag asianatethau eraill<br>• elwa ar gydgefnoageth ac ymuno mewn gweithgareddau a drefnwyd a thrafodaethau gyda phreswylwyr eraill | | | hyd |
| **Categori 3 Math 2: Foyers** | Fel uchod ond bydd ganddo yn sicr un neu fwy o stafelloedd cyffredin yn cynnwys cyfleusterau dysgu/hyfforddi a TG<br><br>DS. Gall y model foyer fod ag elfen wasgaredig hefyd (h.y. fflatiau mewn llety anghenion cyffredinol) neu fod yn fodel cwbl wasgaredig. Bydd yn dal i fod â'r nodweddion a ddisgrifir yn y tair colofn nesaf | • Fel uchod ond â mwy o bwyslais ar hyfforddiant, addysg a chyflogaeth, a fydd yn cynnwys darpariaeth fewnol a chefnogi pobl ifanc i gychwyn a pharhau i gyfranogi mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth allanol<br><br>• Bydd staff hefyd yn canolbwyntio ar greu a chynnal cysylltiadau da gyda chyrff a gweithwyr proffesiynol ym meysydd hyfforddiant a chyflogaeth | Gall y broses atgyfeirio fod yn eang ei chwmpas fel uchod ond bydd rhan o'r broses atgyfeirio ac ymgeisio yn ceisio ymrwymiad gan y person ifanc i chwilio am gyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi a dysgu, a dal ati | 6 – 18 mis? | Fel uchod.<br><br>Efallai bod mwy o ddisgwyliad y gall pobl ifanc fynd i mewn i dai prif-ffrwd heb gefnogaeth |
| **Categori 3 Math 3: Fflatiau hyfforddi** | Gall fod ar yr un safle â darpariaeth arall (hostel/ darpariaeth mynediad | • Ffocws y gefnogaeth yw magu hyder gyda sgiliau elfennol (coginio, cadw at | Cael eu hatgyfeirio fel arfer gan y gwasanaeth lle mae'r fflatiau ar yr un safle | 1 -3 mis? | Llety gyda LCCiaid neu yn y sector preifat |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | uniongyrchol/cartref gofal, fel arfer) neu lety gwasgaredig arall (h.y. fflatiau) | gyllideb, deall biliau, defnyddio adnoddau cymuned, gwneud ffrindiau a chynnal cyfeillgarwch, deall y denantiaeth, ayb.)<br><br>Mae'r darparydd yn debyg o fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion eraill:<br>• anghenion cyflogaeth a hyfforddi<br>• dod o hyd i lety symud-ymlaen ac ailsefydlu<br>defnyddio cefnogaeth barhaus yn y gymuned neu gan asiantaethau eraill gyda materion fel achosion llys, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl | â llety arall (e.e. cartref gofal fel rhan o gynllun ar gyfer person sy'n ymadael â gofal neu ddarparydd hostel) | | |
| **Categori 3 Math 4: Tŷ wedi ei rannu – cefnogaeth cymheiriaid** | Tŷ bychan gyda phobl ifanc yn rhannu<br><br>Hyd at 4 gwely mewn tŷ cyffredin<br><br>Fel tŷ myfyrwyr | • cefnogaeth gan staff ar y safle neu deithiol a hefyd cyd-gefnogaeth/cefnogaeth gan gymheiriaid<br>• cefnogaeth i helpu gyda phenderfynu, sgiliau bywyd a datrys anghydfod<br>• cefnogaeth lefel-isel gyda'r bwriad o alluogi pobl i wneud pethau drostynt eu hunain | Cwmpas eang<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Digartrefedd<br>• Y Gwasanaeth Prawf<br>• asiantaethau cynghori sector gwirfoddol<br>• darparwyr tai a chefnogaeth eraill | 12 – 18 mis? | Llety anghenion cyffredinol arall (amrywiaeth o ddeiliadaethau) |
| **CATEGORI 4 – GWASANAETHAU O NATUR DROS-DRO SYDD Â'R NOD O DDARPARU CEFNOGAETH I ALLUOGI POBL IFANC I GYNNAL TENANTIAETH A BYW YN ANNIBYNNOL, MEWN LLETY <u>ANGHENION CYFFREDINOL GWASGAREDIG</u>** | | | | | |
| **Mathau** | **Y llety** | **Lefel a natur y gefnogaeth** | **Llwybrau atgyfeirio nodweddiadol** | **Hyd y gefnogaeth** | **Symud ymlaen** |
| **Categori 4 Math 1: Cymorth hyblyg - <u>cyffredinol</u> h.y. ar gyfer amrywiaeth o oedrannau ac** | Mae cynlluniau cyffredinol yn tueddu i fod yn llety anghenion cyffredinol mwy o faint – fflat 1-llofft fel arfer (onid oes gan y | Mae lefel y gefnogaeth yn tueddu i fod yn is, yn gyffredinolaidd ei natur, â'r nod o alluogi pobl i ddatblygu sgiliau i allu byw'n annibynnol a chynnal tenantiaeth | Gall fod yn gyffredinol ac yn eang eu cwmpas:<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Digartrefedd | Nod: 6 mis – 18 mis? | Y person yn aros yn y llety pan nad oes angen cefnogaeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **anghenion** | person hawl i gael plant i ymweld)<br><br>Llety'n tueddu i fod yn eiddo i LCCiaid<br><br>Defnydd cyfyngedig o lety sector preifat, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, yn rhannol oherwydd problemau fforddio llety | drwy gefnogaeth un-i-un<br><br>Cefnogaeth ar-alwad | • Y Gwasanaeth Prawf<br>• asiantaethau cynghori sector gwirfoddol<br>• darparwyr tai a chefnogaeth eraill<br>• hunan-atgyfeirio<br><br>Lle mae'n wasanaeth awdurdod lleol (h.y. cymorth ar gyfer tenantiaid awdurdod lleol), tueddir i atgyfeirio'n fewnol, yn gysylltiedig â rhoi cefnogaeth i denantiaid y bmae eu tenantiaeth yn methu neu bobl sydd ar y rhestr aros ac sydd ag angen cefnogaeth | | mwyach |
| **Categori 4 Math 2: Cymorth hyblyg – <u>penodol ar gyfer pobl ifanc</u> beth bynnag y bo'u hanghenion cefnogaeth** | Fel uchod ond bod maint y cynlluniau'n tueddu i fod yn llai (4 – 20 uned) | Rhedir y gwasanaethau hyn yn aml gan asiantaethau sydd â llety arall un-safle ar gyfer pobl ifanc ac sydd felly'n rhan o gontinwwm o gefnogaeth gyda phobl ifanc yn symud i mewn i'r gwasanaethau hyn wrthiddynt fagu hyder<br><br>Cefnogaeth ar-alwad<br><br>Gall y gwasanaethau hyn fod yn rhan o gynllun cymorth hyblyg cyffredinol mwy o faint lle mae cefnogaeth arbenigol ar pobl ifanc yng ngofal asiantaeth sydd â'r wybodaeth arbenigol hon | • mewnol, lle maent yn rhan o gontinwwm o ofal<br>neu<br>• ynghlwm wrth wasanaethau statudol fel y tîm ymadael â gofal neu wasanaethau digartrefedd<br>• atgyfeiriadau gan ddarparwyr gwasanaethau eraill | Fel uchod | Fel uchod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Categori 4 Math 3: Cymorth hyblyg – <u>ar gyfer problemau penodol ac yn benodol ar gyfer pobl ifanc</u> e.e. pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau, troseddwyr ifanc, ymadawyr â gofal, menywod ifanc diymgeledd** | Fel uchod ond bod maint y cynlluniau'n tueddu i fod yn llai (4 – 20 uned) | Cefnogaeth yn canolbwyntio ar yr uchod ac ar fynd i'r afael â'r broblem neilltuol a all olygu cefnogaeth un-i-un fwy dwys a gweithio gydag asiantaethau eraill yn y sectorau statudol a gwirfoddoli ar y broblem neilltuol<br><br>Yn aml, bydd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn anghenion lluosog a chymhleth<br><br>Mae anghenion yn y mathau hyn o wasanaethau yn fwy dwys fel arfer a bydd gofyn i staff fod â sgiliau a phrofiad penodol yn y maes angen neilltuol<br><br>Gall y gwasanaethau hyn fod yn rhan o gynllun cymorth hyblyg cyffredinol mwy o faint lle mae cefnogaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc yng ngofal asiantaeth sydd â'r wybodaeth arbenigol hon | • mewnol, lle maent yn rhan o gontinwwm o ofal<br>neu<br>• ynghlwm wrth wasanaethau statudol fel y tîm ymadael â gofal neu wasanaethau digartrefedd<br>• atgyferiadau gan asiantaethau eraill perthnasol i'r broblem<br>• darparwyr gwasanaethau eraill | | |
| **Categori 4 Math 4: Cynlluniau bondiau** | Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio llety sector preifat a bydd darparydd y gefnogaeth yn treulio amser yn cysylltu â landlordiaid sector preifat<br><br>Hwylusir mynediad i'r sector rhentu preifat drwy ddarparu bondiau a ddarperir ar y cyd â chymorth hyblyg | Tebyg i wasanaethau cymorth hyblyg eraill | Gallant fod ynghlwm â gwasanaeth neilltuol os yw'n talu am y bondiau (e.e. Tîm Ymadael â Gofal y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Prawf)<br><br>Neu os yw wedi ei gylldio â grantiau a sicrhawyd gan ddarparydd y gwasanaeth, gall y system atgyfeirio fod yn eang ei chwmpas: | Fel uchod | Fel uchod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Digartrefedd<br>• Y Gwasanaeth Prawf<br>• asiantaethau cynghori sector gwirfoddol<br>• darparwyr tai a chefnogaeth eraill<br>• hunan-atgyfeirio | | |
| **Categori 4 Math 5: Lletya ar aelwyd â chefnogaeth** | Prif nodweddion:<br>• bydd y nifer o bobl a gefnogir gan y gwasanaeth yn fwy nag yn y model brys (hyd at 20 lle)<br>• cartref rhywun (unrhyw ddeiliadaeth)<br>• darperir llety gan ofalydd maeth, â phrofiad blaenorol fel arfer, sy'n:<br>- gwneud cais i'r darparydd am fod yn rhan o'r gwasanaeth<br>- bodloni'r meini prawf dethol<br>- derbyn gwybodaeth a hyfforddiant<br>cael cefnogaeth gyson gan ddarparydd y gwasanaeth ac asiantaethau perthnasol eraill | Ffocws y gefnogaeth:<br>• darparu sefydlogrwydd a chymorth ac arweiniad drwy chwarae rhan rhiant<br>• cefnogaeth i ddatrys problemau penodol = chwalfa deuluol, cysyllwt â'r heddlu, llysoedd ayb.<br>• cefnogi parhau mewn addysg a hyfforddiant<br>• cysylltiadau cryf gyda Thîm Ymadael â Gofal/Tîm digartrefedd yr awdurdod lleol | • Atgyfeirio fel arfer gan wasanaethau cymdeithasol (Tîm Ymadael â Gofal) neu dîm digartrefedd awdurdod lleol, at y sefydliad sydd â'r cytundeb i drefnu'r gwasanaeth (yn aml drwy'r Gwasanaethau Plant/Tîm Ymadael â Gofal) | Dibynnu ar oed y person ifanc ond darperir fel arfer nes ei fod/bod yn 18 oed (ac efallai'n hwy os yw'n dal i fod mewn addysg lawn-amser) | Llety coleg neu anghenion cyffredinol |
| **CATEGORI 5 – GWASANAETHAU O NATUR DROS-DRO SYDD Â'R NOD O DDARPARU CEFNOGAETH I ALLUOGI POBL IFANC I GYNNAL TENANTIAETH A BYW YN ANNIBYNNOL A DDARPERIR DRWY GYFUNIAD O LETY ANGHENION CYFFREDINOL UN-SAFLE A GWASGAREDIG (Y CYFEIRIR ATO WEITHIAU FEL CRAIDD A CHLWSTER)** | | | | | |
| **Mathau** | **Y llety** | **Lefel a natur y gefnogaeth** | **Llwybrau atgyfeirio** | **Hyd y** | **Symud ymlaen** |

| | | | nodweddiadol | gefnogaeth | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Categori 5 Math 1: Craidd a chlwster – ar un safle** | Prif nodweddion:<br>• cyffredinol neu ar gyfer angen penodol (e.e. menywod ifanc diymgeledd, pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl)<br>• llety hunan-gynwysedig (fflatiau)<br>• darpariaeth sy'n cael ei rhannu ar yr un safle weithiau<br>• defnydd stafell gyffredin<br>• maint 6 – 12 uned | Ffocws y gefnogaeth yw helpu pobl i fyw'n annibynnol<br><br>Mae'r elfen wasgaredig yn caniatái bobl fyw'n gymharol annibynnol ond gyda chefnogaeth staff a chymheiriaid ar cgael pan fydd ei hangen<br><br>Tra bod y lefel o gefnogaeth yn gymharol isel, yn y fath wasanaethau gall y celeientiaid fod yn bobl ag anghenion hir-dymor sy'n parhau<br><br>Fel arfer mae gwasanaeth ar-alwad neu staff yn cysgu i mewn | Gall llwybrau atgyfeirio fod yn eang eu cwmpas, yn dibynnu ar ffocws neilltuol y gwasanaeth:<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Digartrefedd<br>• Y Gwasanaeth Prawf<br>• asiantaethau cynghori sector gwirfoddol<br>• hunan-atgyfeirio<br>• Gwasanaethau Iechyd Meddwl Ieuenctid Cymunedol<br>• darparwyr tai a chefnogaeth eraill<br>• hunan-atgyfeirio | Gall fod yn gymharol hi-dymor (2 – 5 mlynedd neu fwy?) | Llety anghenion cyffredinol |
| **Categori 5 Math 2: Craidd a chlwster hyblyg/gwasgaredig** | Prif nodweddion:<br>• cyffredinol neu ar gyfer angen penodol (e.e. menywod ifanc diymgeledd, pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl)<br>• tŷ wedi ei rannu gydag ardal gyffredin<br>• fflatiau gwasgaredig lle mae gan bobl fynediad agored i'r ddarpariaeth gyffredin yn y tŷ sy'n cael ei rannu | Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod |
| DS. Er nad yw hyn mewn gwirionedd yn dod o fewn cwmpas yr ymchwil hon, lle mae'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu (sydd weithiau'n cynnwys anabledd corfforol), maent yn tueddu i fod o natur barhaol, ond cyfeirir atynt am eu bod yn darparu ateb ar gyfer rhai pobl sydd â'r anghenion hyn. | | | | | |

## 3.4 Y ddarpariaeth mewn gwirionedd

***Bylchau yn y ddarpariaeth***

3.4.1 Nododd yr arolwg o'r llenyddiaeth a wnaed yn ystod cam cyntaf yr ymchwil rai themâu cyffredinol parthed bylchau yn y ddarpariaeth. Er enghraifft, awgrymai strategaethau digartrefedd yng Nghymru mai ychydig o lety oedd ar gael yn benodol ar gyfer pobl ifanc yn hytrach na phobl sengl yn gyffredinol. Nodai'r rhan fwyaf o'r strategaethau fod angen llety ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref, ond nid oedd tystiolaeth glir i gefnogi hynny a dim ond nifer fach o'r strategaethau a nododd y math o lety a'r gefnogaeth roedd eu hangen (yn hytrach na datgan yn gyffredinol fod angen darpariaeth ychwanegol ar gyfer y grŵp hwn). Nodai cyfran sylweddol o'r 11 Cynllun Gweithredu Cefnogi Pobl Cymreig fod projectau newydd ar gyfer y grŵp hwn yn flaenoriaeth. Roedd y bylchau penodol a nodwyd yn y Cynlluniau Gweithredu Cefnogi Pobl yn cynnwys llety ar gyfer rhai 16 ac 17 oed â phroblemau iechyd meddwl, rhai a oedd yn ymddwyn yn droseddol, a rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Mae Atodiad 3 yn darparu dadansoddiad cryno o'r angen am ddarpariaeth newydd ar sail y strategaethau digartrefedd a'r Cynlluniau Gweithredu Cefnogi Pobl.

3.4.2 Gofynnai ail gam yr ymchwil i'r rhai y cyfwelwyd â nhw a sefydliadau'r astudiaethau unigol i nodi bylchau yn y ddarpariaeth o lety yn eu hardal.

3.4.3 Credai pob cyfwelai nad oedd llety digonol ar gael ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref, o safbwynt nifer nac o safbwynt gwahanol fathau o ddarpariaeth i ateb gwahanol anghenion. Pwysleisiai rhai y bylchau mewn math neilltuol o ddarpariaeth, nodai eraill nad oedd digon o unrhyw fath o ddarpariaeth, ac chrybwyllai eraill y ddwy broblem. Credai cyfweledigion o awdurdodau lleol yn enwedig na chawsai'r ddarpariaeth ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid ei datblygu mewn modd strategol a chynlluniedig erioed.

> *'Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref a rhai sy'n gadael gofal … yn bodoli ond nid ydynt yn gyfystyr â system gydlynol sy'n canolbwyntio ar gydymateb i anghenion a gyflwynir gan yr unigolyn ac ar rannu sgiliau, adnoddau a gwybodaeth.'*
> (Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)

3.4.4 Mae bylchau penodol a nodwyd yn cynnwys:

- darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag **anghenion cymhleth** a ddiffinir fel ymddygiad all fod yn beryglus, sy'n cynnwys pobl ifanc â phroblemau gyda chamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Tanlinellwyd y broblem gan bob math o awdurdod lleol. Credai cyfweledigion fod pobl sy'n byw mewn tai wedi eu rannu sydd â phroblemau cymhleth o'r math a nodir yn Nhabl 1 yn fynych yn effeithio mewn modd negyddol ar bobl ifanc eraill sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Gall pobl ifanc o'r fath ddod yn adnabyddus i holl ddarparwyr cylch dros gyfnod o amser, ac efallai cael eu heithrio o bron pob gwasanaeth tai â chefnogaeth (drwy gael eu troi allan, neu o ganlyniad i feini prawf atgyfeirio, asesu neu gymhwysedd). Gan hynny, efallai y bydd y bobl ifanc hyn yn parhau i ddefnyddio llety gwely a brecwast a'i chael hi'n anodd byw bywyd ar batrwm

sefydlog yn eu llety nesaf. Fodd bynnag, ni nodwyd pa nifer o bobl ifanc a oedd yn yr amgylchiadau hyn.

- pwysleisiwyd effaith **camddefnyddio sylweddau** ar bobl ifanc gan lawer o'r darparwyr a'r budd-ddeiliaid y cyfwelwyd â nhw, gyda rhai budd-ddeiliaid yn nodi fod yna epidemig o gyffuriau yn eu hardal (heroin yn enwedig). Roedd cyfweledigion yn bendant eu barn fod angen adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc, o safbwynt cyfleusterau dadwenwyno (*detox*) a'r angen am fwy o wasanaethau cefnogi arbenigol i weithio naill ai ochr yn ochr ag asiantaethau sy'n darparu cymorth, neu fel adnodd o fewn gwasanaethau.

- mae diffyg gwybodaeth ynglŷn ag union anghenion rhai pobl ifanc sydd â'r **anghenion mwyaf cymhleth a dwys** a sut y gellid diwallu'r anghenion hynny. Er enghraifft, mae Voices from Care Cymru wedi gweithio gyda nifer o fenywod ifanc, o dan 18 yn ogystal â thros 18, sy'n gaeth i sylweddau ac yn puteinio.

- darpariaeth a all letya **troseddwyr ifanc**. Credai pobl ei bod hi'n bwysig fod llety ar gael pan fydd pobl ifanc yn cael ei rhyddhau o'r ddalfa. Rhoddod un awdurdod enghraifft o berson ifanc y bu'n rhaid iddo aros yn y ddalfa am na ellid dod o hyd i lety ar ei gyfer, a soniodd un arall am rywun newydd ei ryddhau o garchar a fu'n cysgu mewn pabell oherwydd diffyg unrhyw lety. Credai nifer fach o gyfweledigion, o Dimau Troseddu Ieuenctid yn bennaf, fod yna broblem hygyrchedd o'r safbwynt nad oedd darpariaeth ar gael ar y pryd yr oedd ar bobl ifanc a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa ei hangen. Mae cynlluniau ar gyfer ailsefydlu yn aml yn mynd i'r gwellt pan fydd pobl ifanc mewn darpariaeth a leolir y tu allan i'w hardal gartref.

- yr angen am **ddarpariaethau brys** yn benodol ar gyfer pobl ifanc (nid llochesau nos). Pwysleisiodd y mwyafrif o'r darparwyr a'r comisiynwyr anghenion neilltuol rhai 16 ac 17 oed, eu natur ddiymgeledd a'r angen am ddarpariaeth frys yn benodol ar gyfer y grŵp hwn er mwyn sicrhau eu diogelwch ac osgoi ecsploetiaeth. Fel y gwelir isod, mae gwahaniaeth barn ynglŷn â'r ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn sy'n ymwneud yn bennaf â ffactorau lleoliad. Fodd bynnag, gellir nodi nifer o nodweddion darpariaeth o'r fath – projectau graddfa-fach, amlweddog yn cynnwys swyddogaethau asesu, cefnogi a chyfryngu yn ogystal â llety.

- credir fod **Llety ar Aelwyd â Chefnogaeth** yn fodel llwyddiannus ac roedd cyfweledigion sydd â'r ddarpariaeth hon yn eu cylch fel rheol am ehangu'r ddarpariaeth hon o ran nifer a mathau. Credent fod ganddi'r gallu i gael ei defnyddio i ateb amrediad ehangach o anghenion, e.e. ar gyfer lleoliadau brys, ac i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc ag anghenion penodol, e.e. iechyd meddwl a chamddefnydd sylweddau

- diffyg **carchardai/cyfleusterau diogel** ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn creu problemau ar gyfer pobl ifanc sy'n ceisio cadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau tra'u bod nhw yn y ddalfa ac yn gwneud gwaith ailsefydlu yn fwy cymhleth. Yn ychwanegol at hynny, mae'n effeithio ar gysondeb gwasanaethau a nododd swyddogion Timau Troseddu Ieuenctid ei bod hi'n anodd parhau gyda phethau positif a gyflawnwyd yn y carchar, fel hyfforddiant galwedigaethol a gwaith sgiliau bywyd. Mae'r prinder llefydd carchar/cyfleusterau diogel ar gyfer plant/pobl ifanc yng Nghymru yn

sylweddol. Ar unrhyw adeg, mae yna ryw 180 o blant o Gymru yn y system garchar ond, ym mis Gorffennaf 2007, dim ond 78 o lefydd diogel oedd ar gael yng Nghymru (mae mwy o lefydd yn cael eu creu yng Ngharchar y Parc, ond bydd diffyg o hyd).

3.4.5 Mae'r bylchau a nodwyd gan awdurdodau'r ddwy astudiaethau yn bras adlewyrchu'r farn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau rhwng y un trefol a'r un gwledig.

3.4.6 Credai budd-ddeiliaid o fewn yr awdurdod trefol fod gwasanaethau digonol ar gael ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref o ran ansawdd a math. Yr un bwlch nodedig oedd diffyg llety a gwasanaethau cefnogi ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth (a ddiffinir fel troseddwyr cyson â phroblemau camddefnyddio sylweddau). Credid mai grŵp bychan oedd y rhain, ond un a achosai broblemau beunydd mewn gwasanaethau a chefnogaeth sy'n bodoli, ac a fyddai'n cael eu heithrio dros amser o'r fath wasanaethau ac yn aml yn cael eu gadael yn byw mewn llety gwely a brecwast. Nododd budd-ddeiliaid fod y tirlun wedi newid o ran camddefnyddio sylweddau, fod defnydd heroin gan bobl ifanc mor gyffredin yh awr ag y buasai defnydd canabis gan bobl ifanc yn y gorffennol, a bod angen mwy o gyfraniad gan arbenigwyr yn y maes hwn ochr yn ochr ag adnoddau eraill fel cyfleusterau dadwenwyno. Credai un budd-ddeiliad fod angen gwella cynllunio, hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o garchar. Ochr yn ochr â hyn, teimlent ei bod yn bwysig parhau â'r gwaith hyfforddi a pharatoi a wnaed gyda phobl ifanc yn y carchar er mwyn eu helpu i osgoi hen batrymau o ymddwyn.

3.4.7 Yn yr awdurdod gwledig, nodwyd mai'r bylchau penodol oedd mewn gwasanaethau cefnogi yn y sectorau statudol a gwirfodol a allai gynnig cymorth arbenigol i wasanaethau digartrefedd cyffredinol ym meysydd iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, anabledd (yn cynnwys salwch) a chefnogaeth deuluol. Roedd diffyg gwasanaethau cefnogi ar gyfer pobl ifanc hefyd mewn saith o brif drefi'r ardal. Nodwyd weithiau, oherwydd y pwysau ar y gwasanaethau, bod yn rhaid rhoi pobl ag angen cefnogaeth arnynt mewn gwasanaethau preswyl sydd heb wasanaeth cefnogi ar y safle. Credai'r cynrychiolwyr o'r Tîm Ymadael â Gofal a'r Tîm Troseddu Ieuenctid fod angen gwasanaethau penodol ar gyfer pobl ifanc sydd â nifer fawr o anghenion cymhleth (sydd fel arfer yn cynnwys ymddygiad di-drefn, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl) a allai fod yn berygl iddyn nhw'u hunain ac eraill.

***Proffil o wasanaethau mewn dwy ardal***

3.4.8 Mae adran olaf y bennod hon yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yng ngham terfynol y gwaith a archwiliai broffil y gwasanaethau mewn dwy ardal awdurdod lleol, un drefol ac un wledig. Mae Tabl 3 yn dangos sut y mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn cydweddu â'r amrediad o wasanaethau a ddangosir yn y deipoleg yn Nhabl 2. Yn achos yr awdurdod trefol, mae'r gymhariaeth yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn unig, tra bod yr awdurdod gwledig yn cynnwys gwasanaethau y gall pobl ifanc, ymhlith grwpiau cleientiaid eraill, eu defnyddio. Aethpwyd ati yn y modd hwn oherwydd y nifer a'r amrywiaeth o wasanaethau a oedd ar gael yn yr ardal drefol.

3.4.9 Fel y gwelir yn Nhabl 3, y prif wahaniaeth yw bod yr awdurdod trefol wedi datblygu mwy o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc yn benodol, tra bydd yr awdurdod

gwledig fel rheol yn gosod pobl ifanc mewn darpariaeth ar gyfer oedolion digartref, y mae peth ohono yn darparu ar gyfer anghenion arbennig.

**TABL 3: Cymhariaeth o'r gwasanaethau a gynigir mewn ardal wledig ac un drefol gan ddefnyddio categorïau a mathau'r deipoleg**

| **CATEGORI 1 – DARPARIAETH FRYS/ARHOSIAD BYR LLE DARPERIR GWASANAETHAU MEWN LLETY HOSTEL AR UN SAFLE (yn cynnwys llochesau ar gyfer pobl sy'n ffoi rhag camdriniaeth yn y cartref** | | |
|---|---|---|
| | **AWDURDOD LLEOL GWLEDIG** | **AWDURDOD LLEOLTREFOL** |
| **Categori 1 Math 1: Darpariaeth hostel gyffredinol** | Pob tref wahanol<br>• 8 uned (+ 2 uned cymorth hyblyg)<br>• 7 uned (+ 10 uned wasgaredig, h.y. fflatiau, tai wedi eu rhannu)<br>• 10 uned – dim cefnogaeth ar safle (7 en suite, 3 fflat). Dim dynion sengl<br>• 5 fflat ar stad a ddefnyddir fel darpariaeth ddigartref – dim cefnogaeth ar y safle | |
| **Categori 1 Math 2: Darpariaeth hostel gyffredinol gyda llety diogel penodol ar gyfer pobl ifanc** | | |
| **Categori 1 Math 3: Llochesau ar gyfer pobl sy'n ffoi rhag camdrin yn y cartref** | • 7 uned (tref A)<br>• 4 uned (tref B)<br>• 4 uned (tref C)<br>• 3 uned (tref C) | |
| **Categori 1 Math 4: Darpariaeth hostel yn benodol ar gyfer pobl ifanc** | | • 9 uned ar gyfer rhai 16–21 oed er y rhoddir blaenoriaeth i bobl o dan 18 oed |
| **Categori 1 Math 5: Hostel pobl ifanc (asesiad ac ymyriad brys)** | | |
| **CATEGORI 2 – DARPARIAETH YMYRIAD BRYS/ARHOSIAD BYR LLE NA DDARPERIR GWASANAETHAU MEWN LLETY HOSTEL AR UN SAFLE** | | |
| | **AWDURDOD LLEOL GWLEDIG** | **AWDURDOD LLEOLTREFOL** |
| **Categori 2 Math 1: Gwely a brecwast** | | • Ie – fel arfer dim ond fel y lle olaf posibl ar gyfer y rheini sydd wedi cael eu gwahardd gan wasanaethau eraill |
| **Categori 2 Math 2: Lletya brys ar aelwyd â chefnogaeth ('lloches dros nos')** | | |
| **Categori 2 Math 3 Gwasanaethau allgyrch pendant (iechyd** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **meddwl, camddefnydd sylweddau neu anghenion lluosog** | | |
| **Categori 2 Math 4: Pecyn aml-asiantaeth hyblyg cydgysylltiedig** | | |
| **Categori 2 Math 5: Gwasanaethau cyfryngu** | | • Cefnogaeth i 10 – 15 o bobl ifanc i gynnal eu tai (yn aml cyn symudiad a drefnwyd i mewn i wasanaeth tai â chefnogaeth) |
| **CATEGORI 3 – GWASANAETHAU O NATUR DROS-DRO SYDD Â'R NOD O DDARPARU CEFNOGAETH I ALLUOGI POBL IFANC I GYNNAL TENANTIAETH A BYW YN ANNIBYNNOL, A DDARPERIR <u>AR UN SAFLE</u>** | | |
| | **AWDURDOD LLEOL GWLEDIG** | **AWDURDOD LLEOL TREFOL** |
| **Categori 3 Math 1: Tai â chefnogaeth wedi eu rhannu – gall fod ar gyfer amrywiaeth o bobl ifanc neu'n arbenigol, h.y. menywod ifanc diymgeledd, pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau, rhai sy'n mynd drwy'r system gyfreithiol (llety cymeradwy)** | | |
| **Categori 3 Math 2: Llety foyer** | • 6 uned – tref A<br>• 4 uned – tref B | • 28 uned ar gyfer pobl 16 – 25 oed |
| **Categori 3 Math 3: Fflatiau hyfforddi** | | • 8 uned - gwasgaredig |
| **Categori 3 Math 4: Tŷ wedi ei rannu – cefnogaeth cymheiriaid** | | |
| **CATEGORI 4 – GWASANAETHAU O NATUR DROS-DRO SYDD Â'R NOD O DDARPARU CEFNOGAETH I ALLUOGI POBL IFANC I GYNNAL TENANTIAETH A BYW YN ANNIBYNNOL, MEWN LLETY <u>ANGHENION CYFFREDINOL GWASGAREDIG</u>** | | |
| | **AWDURDOD LLEOL GWLEDIG** | **AWDURDOD LLEOL TREFOL** |
| **Categori 4 Math 1: Cymorth hyblyg - <u>cyffredinol</u> h.y. ar gyfer amrywiaeth o oedrannau ac anghenion** | • 10 uned (ar draws tref A)<br>• 17 uned (tref A ond ar un stad fawr)<br><br>**Gwasanaethau problemau penodol: (fe'u rhoddir yma yn hytrach nag isod am nad ydynt yn oed-benodol)**<br><br>Gwasanaeth penodol – camdriniaeth yn y cartref<br>• 4 uned | |

| | | |
|---|---|---|
| | • 7 uned<br>(gwahanol drefi)<br><br>Gwasanaeth penodol – menywod a theuluoedd<br>• 7 uned<br>• 7 uned<br>(gwahanol drefi)<br><br>Gwasanaeth penodol – iechyd meddwl<br>• 8 uned<br>• 6 uned<br>• 8 uned<br>(gwahanol drefi)<br><br>Gwasanaeth penodol – anabledd dysgu<br>77 uned (darparwyd mewn pum tref | |
| **Categori 4 Math 2: Cymorth hyblyg – <u>penodol ar gyfer</u> <u>pobl ifanc</u> beth bynnag y bo'u hanghenion cefnogaeth** | • 8 – 10 uned (ar draws yr awdurdod lleol) | • 50 uned ar gyfer pobl 16-21 oed (deiliadaeth gymysg)<br>• 12 uned ar gyfer pobl 16-24<br>• Hyd at 10 uned o gymorth hyblyg ar gyfer pobl ifanc mewn llety gwely a brecwast<br>• 19 uned fel darpariaeth frys<br>• 40 uned ar gyfer pobl ifanc yn benodol fel rhan o'r 303 o unedau Grant Refiniw Cefnogi Pobl a gyllidwyd gan yr awdurdod lleol |
| **Categori 4 Math 3: Cymorth hyblyg – <u>ar gyfer problemau penodol ac yn benodol ar gyfer pobl ifanc</u> e.e. pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau, troseddwyr ifanc, ymadawyr â gofal, menywod ifanc diymgeledd** | | • 22 uned ar gyfer menywod ifanc sy'n feichiog neu sydd â phlentyn dibynnol |
| **Categori 4 Math 4: Cynlluniau bondiau** | | |
| **Categori 4 Math 5: Lletya ar aelwyd â chefnogaeth** | I fod yn weithredol o fis Medi – nifer heb ei bennu eto | • 12 uned ar gyfer pobl 16-21 |
| **CATEGORI 5 – GWASANAETHAU O NATUR DROS-DRO SYDD Â'R NOD O DDARPARU CEFNOGAETH I ALLUOGI POBL IFANC I GYNNAL TENANTIAETH A BYW YN ANNIBYNNOL A DDARPERIR DRWY GYFUNIAD O LETY ANGHENION CYFFREDINOL UN-SAFLE A** | | |

| GWASGAREDIG (Y CYFEIRIR ATO WEITHIAU FEL CRAIDD A CHLWSTER) | | |
|---|---|---|
| | **AWDURDOD LLEOL GWLEDIG** | **AWDURDOD LLEOL TREFOL** |
| **Categori 5 Math 1: Craidd a chlwster – ar un safle** | | • Clwster o 3 uned (llofftydd byw) a ddefnyddir fel llety symud-ymlaen o'r cynllun categori 1 Math 4 uchod<br>• 4 uned (fflatiau gyda'i gilydd) a ddefnyddir fel llety symud-ymlaen o'r cynllun categori 1 Math 4 uchod |
| **Categori 5 Math 2: Craidd a chlwster hyblyg/gwasgaredig** | **Darpariaeth gyffredinol ar gyfer pobl ddigartref:**<br>• 7 uned. Craidd o 2 fflats a 5 o fflatiau gwasgaredig<br>• 10 uned. Craidd o 4 fflat a 6 o unedau gwasgaredig (4 yn benodol i'w cynnig yn gyntaf i ymadawyr â gofal)<br>• 6 uned. Craidd o 6 fflat ynghyd â nifer amhenodol o unedau cymorth hyblyg<br>• 20 uned. 13 uned mewn 3 craidd o fflatiau ynghyd â 7 uned o gymorth hyblyg (yn benodol ar gyfer pobl ddigartref a throseddwyr)<br>Mae'r uchod mewn pedair tre wahanol<br><br>**Problemau penodol (nid ar gyfer oed penodol):**<br>Salwch meddwl::<br>• 16 uned: craidd o 4 fflat, 2 fflat wasgaredig, 10 uned o gymorth hyblyg<br>• 6 uned: craidd o 4 fflat hunan-gynwysedig a 2 uned o gymorth hyblyg<br>Mae'r uchod mewn gwahanol drefi<br><br>Menywod â/heb blant:<br>• 7 uned: craidd o 5 o dai ynghyd â 2 uned o gymorth hyblyg | • 4 uned mewn tŷ wedi ei rannu a 2 uned o gymorth hyblyg a ddefnyddir yn benodol ar gyfer ymadawyr â gofal |

3.4.10 Ceir ymresymaid y ddau awdurdod am eu ffordd o ymdrin â materion allweddol isod.

| **AWDURDOD GWLEDIG** | **AWDURDOD TREFOL** |
|---|---|
| **Ffordd strategol o fynd ati** | |
| • Ffordd yr awdurdod o fynd ati yw lletya pobl ifanc ddigartref mewn darpariaeth | • Mae'r awdurdod a'i bartneriaid allweddol wedi gweithio i leihau defnydd o lety |

| | |
|---|---|
| gyffredinol ar gyfer pobl ddigartref, yn cynnwys cefnogaeth benodol i oedolion, e.e. darpariaeth iechyd meddwl.<br>• Ei unig wasanaethau penodol ar gyfer pobl ifanc yw dau foyer a gwasanaeth cymorth hyblyg ar gyfer ymadawyr â gofal. Ni chredir fod y nifer na'r dwysedd o bobl ifanc yn teilyngu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn benodol<br>• Mae'r gwasanaethau wedi eu lleoli o gwmpas pum tref lle byddant yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng darpariaeth gyffredinol a gwasanaethau sy'n ymdrin â phroblemau ar gyfer pobl ddigartref.<br>• Yn ddiweddar maent wedi mynd ati i gysylltu gwasanaethau cymorth hyblyg/ gwasgaredig wrth eu gwasanaethau mwy preswyl (un-safle) eu sail<br>• Dywedodd y Tîm Ymadael â Gofal hefyd fod ymadawyr â gofal yn cael eu rhoi mewn llety anghenion cyffredinol sy'n perthyn i'r awdurdod lleol a'u cefnogi gan weithwyr cymdeithasol neu Gynghorwyr Personol (swyddogaeth a gynyddodd mewn nifer o 100% llynedd). Mae gan y Tîm hefyd bolisi 'cadw rhai 18+ mewn lleoliad' sy'n rhoi'r dewis i bobl ifanc aros gyda rhieni maeth a throi'r cytundeb maethu yn gytundeb lletya ar aelwyd â chefnogaeth. | gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc. Ddwy flynedd yn ôl roedd 30 o bobl ifanc mewn llety gwely a brecwast ond dim ond 5 sydd erbyn hyn<br>• Ceir mynediad i lety a chefnogaeth i bobl ifanc 16-20 oed drwy atgyfeiriad canolog ac asesiad dechreuol. Mae'r trefniadau staff yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol a swyddog digartrefedd yn gweithio fel rhan o asiantaeth yn y sector gwirfoddol i gyd-drefnu'r gwaith yma<br>• Yn sgîl arolygon strategol o wasanaethau digartrefedd a gwasanaethau Cefnogi Pobl, mae'r awdurdod wedi ad-drefnu ei wasanaethau ar gyfer pobl ifanc ddigartref. Mae'r drefn gyfredol yn seiliedig ar yr egwyddor fod gan bobl 'yrfaoedd tai' ac y dylai darpariaeth ar gyfer y grŵp hwn feithrin 'continwwm' o wasanaethau sy'n eu galluogi i symud o gwmpas gwahanol fathau o dai a chefnogaeth nes eu bod yn gallu byw'n annibynnol<br>• O ganlyniad, mae gan yr awdurdod lleol amrediad o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc yn benodol (er ei bod hi hefyd yn bur debyg y caiff pobl eu rhoi mewn darpariaeth fwy cyffredinol (ar gyfer pobl ddigartref â phroblemau penodol (e.e. camdriniaeth yn y cartref) |
| **Ffordd o fynd ati gyda'r grŵp 16+ oed** | |
| • mae'r awdurdod wrthi'n datblygu protocol rhwng yr Uned Ddigartrefedd, y Tîm Troseddu Ieuenctid a'r Tîm Ymadael â Gofal fel sail i'w ffordd o fynd ati i ateb anghenion tai a chefnogaeth y grŵp hwn. | • Mae'r awdurdod yn ymdrin â rhai 16 a 17 sy'n ddigartref o dan y Ddeddf Plant yn hytrach na'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd gan y teimlant fod hynny'n meithrin perthynas fwy parhaus gyda'r person ifanc yn hytrach na chyflawni dyletswydd un waith o dan y ddeddfwriaeth Pobl Ddigartref |
| **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol a dangosyddion angen** | |
| • Yn Ymarferiad Mapio Anghenion yr awdurdod, a gynhwysir yn ei Gynllun Gweithredol Cefnogi Pobl, roedd 91 | • Teimlai'r awdurdod lleol fod y pwerau Cefnogi Pobl wedi ei alluogi i fynd ati mewn modd strategol a chynlluniedig yn |

| | |
|---|---|
| (27%) o'r rhai yn yr arolwg o dan 25<br>• Dangosodd yr arolwg hwn hefyd , o 173 o ganlyniadau Prawf a ddychwelwyd o dan yr Asesiad Anghenion, fod 34% o dan 25<br>• O safbwynt ffigurau digartrefedd yr awdurdod lleol, mae'r nifer mewn angen blaenoriaethol oherwydd tor-perthynas gyda'u rhieni yn uchel. Roedd 21% o'r holl achosion y deliodd y Cyngorydd Opsiynau Tai â nhw yn y categori hwn.<br>• Mae'r awdurdod newydd sicrhau grant Adran 180 i ddatblygu gwasanaeth cyfryngu i fynd i'r afael â phroblem pobl ifanc y gofynnir iddynt ymadael â chartref<br>• Mae gan yr awdurdod dri Chyngorydd Opsiynau Tai sy'n gweithio gyda phobl o flaen llaw er mwyn ceisio'u hatal rhag mynd yn ddigartref. Maent yn bwriadu cynyddu'r nifer hwn i bump er mwyn gallu gwasanaethu'r prif drefi. | ei waith gyda phartneriaid i ad-drefnu a chomisiynu gwasanaethau i ateb anghenion pobl ifanc yn ei ardal |

3.4.11 Mae nifer o bwyntiau'n codi o ddadansoddi'r astudiaethau unigol:

- mae gan y ddau awdurdod farn strategol glir ynglŷn â sut i ateb anghenion pobl ifanc sengl ddigartref yn eu cylch a chynllun ar gyfer mynd ati. Mae eu ffyrdd o fynd ati wedi eu llywodraethu gan ystyriaethau daearyddol, gweithgaredd comisiynu ac ad-drefnu, a'r adnoddau sydd ar gael. Dylanwadir ar y gallu i ddefnyddio gwasanaethau gan y modd y dewisa'r awdurdodau ddefnyddio eu hadnoddau staff a sut y mae unigolion a gwasanaethau o fewn yr awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth.

- mae lleoliad yn ffactor o bwys yn achos yr ardal wledig ac y mae'n amlwg fod trefnu gwasanaethau ac adnoddau i gyrraedd pobl ifanc ar draws yr ardal yn her wirioneddol i'r awdurdod lleol. Mae ei benderfyniad i gyfuno, i raddau helaeth, gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc gyda gwasanaethau i oedolion yn dangos gwahaniaeth o ran ffordd o fynd ati, gyda'r awdurdod lleol â mwy o allu i ddilyn strategaeth o ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn benodol.

- mae'r awdurdod trefol wedi datblygu 'continwwm' o wasanaethau cefnogaeth a llety gyda'r nod o alluogi pobl ifanc i symud drwyddynt (neu yn ôl ac ymlaen o'u mewn) cyn symud ymlaen yn y pen draw at ffordd fwy annibynnol o fyw. Mae'r awdurdod gwledug yn ymdrechu i sicrhau'r math yma o hyblygrwydd drwy amrediad o wasanaethau craidd a chlwster sydd â'r un nod o symud ymlaen fesul cam i alluogi pobl i gaffael y sgiliau a fydd yn eu galluogi i fyw bywydau mwy sefydlog.

- mae diffyg llety symud ymlaen fforddiadwy yn amharu ar ddefnydd effeithiol o wasanaethau tai â chefnogaeth yn yr ardal wledig

- mae'r ddau awdurdod lleol yn nodi bylchau o ran eu gallu i ddarp[aru at gyfer pobl ifanc sydd â fawr o anghenion cymhleth (a all gynnwys ffactorau risg, yn aml ynghyd ag ymddygiad troseddol a/neu ddi-drefn a camddefnydd sylweddau)

- mewn perthynas â throseddwyr ifanc, nododd y ddau awdurdod fod angen i wasanaethau fod yn hygyrch ac ar gael i bobl ifanc pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa, a phwysleisient yr angen am gysondeb er mwyn hwyluso ailsefydlu.

- mae'r ddau awdurdod yn cydnabod y rhan y gall gwasanaethau cyfryngu eu chwarae mewn atal digartrefedd neu ganfod ffordd fwy cynlluniedig o ymdrin â chwalfa deuluol (mae gan un o'r awdurdodau wasanaeth ac mae'r llall yn y broses o ddatblygu un). Mae'r ddwy ardal yn rhedeg gwasanaeth lletya ar aelwyd â chefnogaeth hefyd

- pwysleisiai'r ddau awdurdod yr angen am barhad a chysondeb mewn gwasanaethau cefnogi a phwysigrwydd cynnal gweithlu medrus yn y mudiadau sy'n darparu cefogaeth

- pwysleisiodd y ddau awdurdod fod rhannu cyfleusterau mewn llety un-safle a allai fod yn ceisio darparu ar gyfer cymysgedd amhriodol o anghenion yn broblem.

**Pwyntiau allweddol: anghenion a darpariaeth**

- Nid yw anghenion pobl ifanc sengl ddigartref bob amser yn cael eu hystyried ar wahân i anghenion pobl sengl ddigartref yn gyffredinol

- Mae anghenion pobl ifanc sengl ddigartref yn gymhleth ac yn gyfnewidiol ac mae eu patrymau byw yn ddynamig. Mae hyn yn ategu'r angen am amryw fathau o lety ac ymateb amryfath a all fod yn hyblyg ac â ffocws ar anghenion unigolion yn hytrach na grwpiau

- Mae gan gyfran o bobl ifanc sengl ddigartref anghenion lefel-isel yn unig, ond ar ben arall y sbectrwm, ceir pobl ifanc sengl ddigartref ag anghenion cymhleth y bydd arnynt angen ymateb amlweddig ac estynedig

- Mae amrywiaeth eang o fodelau o lety a gwasanaethau ar gael sy'n ceisio ateb anghenion pobl ifanc sengl ddigartref. Gally gwasanaethau hyn fod

  - wedi eu canolbwyntio ar fodelau un-safle, pwrpasol
  - yn canolbwyntio ar gefnogaeth, gan roi llai o bwyslais ar adeilad pwrpasol wedi ei ddylunio neu ei addasu i'r diben
  - yn cyfuno elfennau o'r naill a'r llall

  a gall unrhyw un o'r modelau uchod amrywio pellach:

  - ar gyfer oedran penodol, e.e. rhai o dan 18, neu hyd at 21/25 oed

- yn ymdrin â phroblem benodol e.e. iechyd meddwl, menywod yn unig
- ar gyfer oedran a phroblem benodol, e.e. gwasanaeth ar gyfer menywod ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl

- Y bylchau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd diffyg gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref ag anghenion cymhleth, a llety brys ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig rhai 16 a 17 oed

- Mae’r proffil gwasanaethau lleol yn dangos fod gan leoliad a ffactorau daearyddol gryn ddylanwad ar y modd y gall awdurdod strategol weithio gyda budd-ddeiliaid allweddol a darparwyr i ddiwallu angen yn eu hardal.

- Yn y mwyafrif o fathau o wasanaeth, nid oes cydberthynas clir rhwng y model llety a’r anghenion yr ymdrinir â nhw yn y math neilltuol o wasanaeth

- Rhaid caniatáu i bobl ifanc, yn enwedig rhai 16-18 oed, wneud camgymeriadau a dysgu drwy hynny. Efallai mai awdurdodau lleol yw’r corff mwyaf priodol i fod â pherthynas barhaus gyda’r grŵp hwn o bobl ifanc.

# 4 EFFEITHIOLDEB Y DDARPARIAETH

## 4.1 Rhagarweiniad

4.1.1 Nod pob cam yn y gwaith ymchwil oedd cynhyrchu gwybodaeth ynglŷn ag effeithioldeb y gwahanol fodelau o lety a chefnogaeth, a'u haddasrwydd ar gyfer pobl ifanc â gwahanol anghenion. Mae'r bennod hon, gan hynny, yn cynnwys deunydd o bob cam o'r gwaith ymchwil, yn cynnwys yr astudiaethau unigol (a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws gyda phobl ifanc).

4.1.2 Nodwyd cyfyngiadau'r gwaith ymchwil eisoes ym mhennod 1, o safbwynt y diffyg gwybodaeth bendant ar gost-effeithioldeb y gwahanol fodelau o lety a chefnogaeth. Yn y bennod hon, rydym wedi diffinio effeithioldeb mewn ffordd eang, sy'n cwmpasu nid yn unig gost effeithioldeb neu werth am arian ond hefyd pa fathau o lety a chefnogaeth sydd yn fwyaf addas ar gyfer pa anghenion o safbwynt budd-ddeiliaid a'r bobl ifanc eu hunain, ac yn ystyried amrywiaeth o ffactorau cyd-destunol, strategol a gweithrediadol sydd yn effeithio ar effeithioldeb gwasanaethau unigol. Mae hefyd yn bwysig ystyried effeithioldeb yr 'holl system' o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref sy'n bodoli mewn unrhyw ardal neilltuol. Effeithir yn anarfod ar effeithioldeb un rhan o'r system gan rannau eraill o'r system. Er enghraifft, os nad oes gan ardal unrhyw ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref â lefel uchel o angen, mae hyn yn debyg o effeithio ar wasanaethau ar gyfer y rheini sydd â lefel is o angen, all eu cael eu hunain yn lletya pobl ifanc ag anghenion cymhleth.

4.1.3 Cyflwynir y wybodaeth a gasglwyd gan y gwaith ymchwil o dan y penawdau a ganlyn:

- cysylltu anghenion a mathau o lety a chefnogaeth
- cost effeithioldeb a gwerth am arian
- problemau cyd-destunol sy'n dylanwadu ar effeithioldeb y ddarpariaeth
- problemau strategol sy'n dylanwadu ar effeithioldeb y ddarpariaeth
- problemau gweithredol sy'n dylanwadu ar effeithioldeb y ddarpariaeth

Cynhwysir enghreifftiau o arfer effeithiol o Gymru a Lloegr i egluro pwyntiau neilltuol.

## 4.2 Cysylltu anghenion a mathau o lety a chefnogaeth

***Darparu ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref ag anghenion sylfaenol, anghymhleth***

4.2.1 Cytunai'r mwyafrif y cyfwelwyd â nhw fod yna gyfran o bobl ifanc sengl ddigartref sydd ag anghenion anghymhleth a fyddai'n gallu byw yn annibynnol ar ôl mesur cyfyngedig o gefnogaeth ac a allai, felly, symud yn gyflym drwy'r gwasanaethau i mewn i lety annibynnol. Cynigiodd y budd-ddeiliaid a ganlyn amcangyfrifon o'r canrannau o bobl ifanc maent yn ymwneud â nhw y credid fod ganddynt anghenion anghymhleth ac a allai fyw yn annibynnol gyda chymorth cyfyngedig:

Timau Troseddu Ieuenctid - 20%, 25%
Timau Ymadael â Gofal – 20%, 30%, 50%, 60%
Timau Digartrefedd – 15/20%, 20%, 30%, 40%.

4.2.2 Gwnaeth cyfweledigion a oedd yn gweithio mewn gwasanaethau digartrefedd y pwynt, wrth i wasanaethau atal digartrefedd ennill eu plwyf a dod yn fwy effeithiol, y gallai hynny olygu na allai cymaint o bobl ifanc a ddoi i mewn i'r system ar hyd llwybr digartrefedd symud drwy'r system yn gyflym (h.y., mae'r bobl ifanc hynny na ellir eu hatal rhag mynd yn ddigartref yn debyg o fod ag anghenion mwy cymhleth).

4.2.3 Mynegwyd y farn a ganlyn mewn perthynas â phobl ifanc sengl ddigartref ag anghenion anghymhleth:

- mae pobl ifanc ag anghenion anghymhleth yn tueddu i fod yn rhai sydd â rhywfaint o gefnogaeth deuluol a rhwydwaith o ffrindiau, a rhai sydd heb dreulio cyfnodau mewn lleoliadau y tu allan i'w cynefin

- gall pobl ifanc â lefel isel o anghenion fynd yn sownd yn y gwasanaethau, a gall hynny greu dibyniaeth ac arwain at ddysgu 'arferion drwg' oddi wrth bobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth

- byddai ffordd 'trywydd-cyflym' o fynd ati yn amhosibl ar hyn o bryd oherwydd diffyg llety anghenion cyffredinol ar gyfer pobl sengl. Dylid ychwanegu hefyd fod y llety a gynigir i bobl ifanc sengl yn aml yn anaddas o ran lleoliad ac ansawdd. Gwnaeth un budd-ddeiliad strategol y pwynt nad oes gan gymdeithasau tai lety i ateb yr anghenion hyn a bod y gystadleuaeth, mewn rhai rhannau o Gymru, am lety sector prifat yn golygu y gall landlordiaid ddewis a dethol pwy i'w derbyn.

4.2.4 Rhybuddiodd rhai darparwyr fod angen pwyll, a chodi'r materion a ganlyn:

- mae rhai 16 a 17 oed yn cael eu diffinio fel plant o dan y gyfraith a byddai angen cefnogaeth ychwanegol ar unrhyw un o'r oed yma mewn lleoliad (e.e. lletya ar aelwyd â chefnogaeth neu dai wedi eu rhannu) cyn gallu byw ar eu pen eu hunain

- mae pobl ifanc yn aml yn dweud eu bod am fyw ar eu pen eu hunain ond, mewn gwirionedd, heb amgyffred beth y mae hynny'n ei olygu a heb fod yn barod am beth mae'n ei olygu yn ymarferol

- ychydig iawn a wnaed i archwilio'r posibilrwydd y gallai pobl ifanc ddigartref/mewn perygl o fod yn ddigartref rannu llety anghenion cyffredinol yn y ffordd y gwna llawer o bobl ifanc eraill (e.e. myfyrwyr sy'n rhannu tai), a gallai'r fath ddarpariaeth fod yn bont tuag at fyw ar eu pen eu hunain. Pe bai'r fath fodel yn cael ei hyrwyddo'n egnïol, byddai'n rhaid gofalu fod pobl ifanc yn cael dewis gyda phwy i rannu a byddai'n rhaid i ddarparwyr fod yn ymwybodol o'r gymysedd o anghenion ac arferion/ymddygiad.

***Darparu ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref ag anghenion cymhleth***

4.2.5 Teimlai'r mwyafrif o gyfweledigion o'r awdurdodau lleol na ddylai pobl ifanc sydd â hanes o ymddygiad treisgar ac anghenion cymhleth gael eu lletya mewn llety dros-dro wedi ei rannu os oedd modd osgoi hynny. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl

mewn ardaloedd sydd heb amrywiaeth yn eu darpariaeth ac, yn ymarferol, teimlai awdurdodau lleol fod yn rhaid mynd ati mewn ffordd bragmatig.

4.2.6 Credai cyfweledigion eraill, darparwyr yn bennaf:

- fod cartrefu pobl sydd yn berygl yn rhan o'u swyddogaeth a'r hyn y maent yno i'w wneud

- nad yw hi'n fuddiol gwahanu pobl ifanc ag anghenion neilltuol oddi wrth bobl ifanc eraill, oedolion neu eu cymunedau yn gyffredinol, ar sail eu hymddygiad, gan mai'r cwbl a wna hynny yw atgyfnerthu eu harwahanrwydd

- y gall fframweithiau rheoliadol a'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â nhw fod yn rhy betrus ynglŷn â risg a mygu ffordd o fynd ati sydd wedi eu harwain gan anghenion

4.2.7 Tra bod y ddwy farn uchod fel pe baent yn gwrthdaro, y canlyniad cyfredol yw fod cymysgedd o bobl ifanc yn cael eu cartrefu mewn tai wedi eu rhannu, yn cynnwys rhai ag anghenion cymhleth a all ddod o fewn y trydydd a'r pedwerydd categori yn sbectrwm anghenion Tabl 1. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn cytuno, lle bo pobl ifanc yn berygl, a chanddynt anghenion cymhleth, fod nifer o ragamodau rhaid eu cyflawni er mwyn i sefydliadau allu darparu'n effeithiol ar gyfer eu hanghenion.

4.2.8 Er mwyn asesu a lletya pobl ifanc sengl ddigartref ag anghenion cymhleth, rhaid:

- wrth asesiad manwl, yn cynnwys proses asesu risg braff, i alluogi darparwyr i farnu a fyddant yn gallu ymdopi ag anghenion y person ac unrhyw risg a allai godi

- i ddarparwyr dalu sylw i'r gymysgedd gyfredol o breswylwyr yn y gwasanaeth

- wrth lefelau staffio digonol i ddarparu'r lefelau priodol o gefnogaeth a gofal (h.y. staffio 24 awr)

- wrth weithio rhyng-asiantaeth a chydweithrediad er mwyn ateb anghenion defnyddwyr y gwasanaeth yn eu crynswth

- i ddarparwyr gynnig gwasanaeth cyfryngu ac atal bwlian o flaen llaw.

4.2.9 Roedd cydnabyddiaeth eang ymhlith y rhai y cyfwelwyd â nhw fod yna rai pobl ifanc, er mai lleiafrif ydynt, sydd ag anghenion tu hwnt o gymhleth a allai elwa ar wasnaeth dwys ac arbenigol dros ben nad yw'n gysylltiedig â llety, fel y model allgyrch pendant (gweler Atodiad 4 am esboniad ac enghraifft ymarferol o wasanaeth allgyrch pendant ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol).

4.2.10 Teimlid, er bod y fath wasanaethau yn ddrud, eu bod yn atal problemau gwaeth ac y gallant, yn y tymor hir, arbed llawer iawn o arian drwy ddarparu ymyriad cynnar a phositif ym mywydau pobl ifanc. Fodd bynnag, ni fu cefnogaeth ar lefel strategol genedlaethol yng Nghymru erioed i'r lefel hon o gyllido ataliol.

4.2.11 Roedd ymdrin ag anghenion cymhleth yn fater a oedd yn poeni'r cyfweledigion, ac mae angen ystyried y sylwadau uchod ochr yn ochr â'r bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad.

4.2.12 Cynigiwyd enghraifft neilltuol gan Voices from Care Cymru. Nododd y mudiad for cyfran uchel o ymadawyr â gofal yn mynd i garchar neu unedau diogel ac i mewn i buteindra. Mae pobl ifanc o'r fath yn aml yn debyg o arddangos problemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau ac/neu iechyd meddwl gwael yn aml ar sail profiad o gamdriniaeth a/neu nifer o leoliadau anfoddhaol. Mae'r fath ffactorau yn eu gosod yn y categorïau uchaf o angen. Gall y naill sefyllfa achosi i bobl ifanc ymddieithrio ymhellach oddi wrth brif ffrwd cymdeithas ac mae'r llall yn golygu fod pobl ifanc/plant diymgeledd yn cael eu hecsploetio. Mae'r ymyriadau sydd eu hangen gyda'r fath bobl ifanc yn anodd ac yn gymhleth ac yn gofyn ffocws neilltuol nad yw, ym marn Voices from Care, ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae hwn yn faes sy'n teilyngu mwy o waith ymchwil i ddarganfod beth yw hyd a lled y broblem ac i archwilio'r mathau o wasanaethau a allai ddarparu ymyriad a chefnogaeth effeithiol.

4.2.13 Pwysleisiwyd y pwynt y byddai ymyriad cynnar, o flaen llaw yn gost-effeithiol gan fod pobl ifanc sy'n cael eu gadael yn y fath amgylchiadau yn ddieithriad yn datblygu problemau sydd ag oblygiadau cost anferthol am flynyddoedd i ddod. Yn aml, bydd menywod ifanc yn y sefyllfaoedd hyn hwythau'n cael plant y gall fod y bydd angen gwasanaethau diogelu plant arnynt, ac a fydd yn aml yn datblygu i fod yn oedolion diymgeledd eu hunain, ac yn ailadrodd y cylch.

**Cynllunio i ymdrin ag anghenion cymhleth**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn datblygu gwasanaeth wedi ei anelu at Droseddwyr Cyson (PPO) 16 oed a throsodd. Bydd y llety safle-sengl yn cynnig cefnogaeth ddwys a strwythuredig (24 awr) i uchafswm o saith o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Cytunir ar bwy i'w hatgyfeirio gan y grŵp PPO ac adroddir yn ôl ar hynt y cynllun ym mhob cyfarfod.

Bydd y gefnogaeth a gynigir wedi ei strwythuro'n glos o gwmpas Unedau Tai Blaengar Amber. Rhaglen hyfforddi gynhwysfawr yw hon sydd wedi ei llunio i helpu defnyddwyr gwasanaethau i gyrraedd annibyniaeth gynaliadwy, a bod â'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i allu cynnal tenantiaeth, trin arian, a byw bywyd diogel ac iach. Mae'r unedau annibynnol hyn yn gymwysterau achrededig cenedlaethol a'r nod yw gweithio i gael landlordiaid i weld y cymwysterau hyn fel gwarant o allu i gynnal tenantiaeth. Bydd mynd ati drwy'r dull strwythuredig yma felly yn cynyddu'r tebygrwydd y bydd defnyddwyr yn gallu dod o hyd i denantiaeth ac, yn bwysicach, ei chynnal pan fyddant yn symud ymlaen.

Cyllidir y gwasanaeth gan Cefnogi Pobl, adran tai'r awdurdod lleol, Grant Digartrefedd Llywodraeth y Cynulliad ac Uned Orchymyn Sylfaenol Heddlu Dyfed Powys, ac fe'i cefnogir hefyd gan y Bartneriaeth Diogelwch y Gymuned a'r Gwasanaeth Prawf. Bydd Swyddog Heddlu Cymuned wedi ei leoli/lleoli yn yr adeilad er mwyn annog defnyddwyr y gwasanaeth i ddatblygu perthynas fwy positif gyda'r heddlu a chynyddu hyder y gymuned.

[Cyngor Sir Ceredigion]

**Ymdrin ag anghenion cymhleth**

Mae adran Gofal Cymuned adran Tai Cyngor Dinas Caerlŷr yn cynnig gwasanaethau cymorth hyblyg i bobl sy'n ddigartref ac sydd ag anghenion cymhleth neu hanes o fethu cynnal tenantiaethau. Mae'r gwasanaeth cymorth hyblyg ar gael hefyd i unrhyw un sy'n wynebu problemau tai o galyniad i alcohol neu gyffuriau. Mae'r Adran Gofal Cymuned yn cynnig ffordd gyfannol o gynnig cefnogaeth, gan ystyried pob agwedd ar amgylchiadau'r cleient. Mae Gweithwyr Cefnogaeth Tai ar gael i asesu a chefnogi pobl ifanc sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau.

[Ffynhonnell: Gwefan Cyngor Dinas Caerlŷr]

***Darpariaeth gyffredinol neu ddarpariaeth arbenigol?***

4.2.14 Roedd gwahaniaeth barn ynglŷn â'r angen am wasanaethau arbenigol ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref ag anghenion neilltuol ac o wahanol oedrannau. Ychydig o gefnogaeth a oedd i ddarparu gwasanaethau un-safle yn ymdrin ag anghenion penodol er y cydnabyddir y gall hyn fod yn ffocws i wybodaeth arbenigol. Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol nad oedd hi'n ddoeth lletya pobl sydd ag anghenion tebyg gyda'i gilydd, yn enwedig rhai â lefel uchel o anghenion cymhleth. Er enghraifft, byddai crynhoi pobl ag anghenion penodol fel camddefnyddio sylweddau yn atgyfnerthu eu problem ac yn ynysu eu hanghenion.

4.2.15 Credai cynrychiolwyr Timau Troseddu Ieuenctid a'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol nad oedd darpariaeth un-safle ar gyfer troseddwyr ifanc yn benodol yn beth da, am fod hynny ond yn pwysleisio eu harwahanrwydd cymdeithasol. Yn hytrach, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, sylent ddefnyddio'r ddarpariaeth llety a chefnogaeth gyffredinol sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc eraill.

4.2.16 Fodd bynnag, mae'r sylwadau isod gan bobl ifanc sydd wedi byw mewn llety wedi ei rannu yn dangos eu barn nhw ynglŷn â byw gyda phobl sydd â phroblemau cymhleth neu neilltuol:

*'Gormod o bobl â phroblemau cyffuriau sy'n gallu arwain pobl eraill ar gyfeiliorn'*

*'Angen project ar gyfer pobl sydd â phroblemau cyffuriau a phroject ar wahân ar gyfer y rheini sydd heb anghenion'*

*'Yn y llety oedd yn cael ei rannu, roedd ymladd rhwng y bechgyn, ond mi fyddwn i'n ceisio eu hanwybyddu'*
(Grwpiau Ffocws Pobl Ifanc – awdurdodau trefol a gwledig)

4.2.17 Credai cyfweledigion fod gwasanaethau arbenigol (e.e. rhai sy'n canolbwyntio ar un broblem fel iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau) o ddefnydd gan eu bod yn galluogi gwasanaethau a thimau staff i ddatblygu gwybodaeth arbenigol mewn maes neilltuol. Fodd bynnag, o safbwynt y math o ddarpariaeth, byddai'n well darparu

gwasanaethau o’r fath mewn cynlluniau heb fod ynghlwm wrth safle neilltuol, fel cymorth hyblyg neu eiddo gwasgaredig.

4.2.18 Cydnabyddai cyfweledigion fod ar wasanaethau nad ydynt ar gyfer problemau penodol angen cefnogaeth allanol mewn meysydd arbenigol fel iechyd meddwl, ymddygiad troseddol a chamddefnyddio sylweddau, er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i’r holl wahanol anghenion a amlygir gan bobl ifanc sengl ddigartref.

4.2.19 Yr unig eithriad i’r farn gyffredinol na ddylid bod â chynlluniau penodol ar gyfer anghenion penodol oedd ar gyfer pobl ifanc ddigartref sydd wedi cael eu camdrin. Gall pobl yn yr amgylchiadau hynny elwa yn aml ar rannu amgylchedd diogel am gyfnod dros-dro gyda phobl eraill sydd wedi cael profiadau tebyg. Mae darpariaethau arbenigol o’r fath yn gweithio orau pan fyddant yn rhai un-rhyw.

4.2.20 Credai cyfweledigion y dylai darpariaeth ar gyfer lletya pobl ifanc sengl ddigartref ag anabledd corfforol gael ei chynllunio ar sail ranbarthol.

**Ateb anghenion penodol**

Mae Cyngor Dinas Manceinion wedi gweithio gyda darparwyr gwasanaethau i wahaniaethu rhwng y mathau o ddarpariaeth y maent yn ei darparu er mwyn gallu ymateb â mwy o ffocws i anghenion penodol pobl. Er enghraifft, mae un o’r darparwyr mwy sy’n cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl wedi dechrau darparu gwasanaethau penodol ar gyfer pobl ifanc hoyw a ffoaduriaid ifanc o ganlyniad i adborth gan bobl ifanc, a chan gydnabod fod y ffyrdd penodol hyn o fynd ati yn arwain at well canlyniadau.

[Ffynhonnell: Adroddiad Arolygu Cefnogi Pobl Cyngor Dinas Manceinion, Awst 2004]

***Darpariaeth mynediad uniongyrchol/hostel***

4.2.21 Mae awdurdodau lleol a darparwyr ym mhob rhan o Gymru yn gorfod ymdrin â phobl ifanc sydd ag angen brys am lety a chefnogaeth. Mae ateb anghenion brys person ifanc am lety a chefnogaeth tra hefyd yn gofalu am eu diogelwch a’u lles yn her gymhleth i bob budd-ddeiliad.

4.2.22 Mae’n eglur fod budd-ddeiliaid yn credu y dylid datblygu gwasanaethau penodol (un-safle a heb fod ar un safle) i ateb anghenion brys pobl ifanc o dan 18 oed. Mae’r cwestiwn lle y dylid lletya pobl ifanc dros 18 yn dibynnu ar ffurf, adnoddau ac ansawdd y gwasanaethau brys sydd ar gael.

4.2.23 Nodai darparwyr pe bai llety mynediad uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio i’w ddiben gwreiddiol, sef ddarpariaeth arhosiad-byr, y byddai’r fath broblemau rheolaeth yn llai dyrys. Mae diffyg llety symud-ymlaen yn aml yn gwaethygu problemau rheolaeth y gellir ymdopi â nhw yn y tymor byr.

4.2.24 Y pwyntiau allweddol a wnaed mewn perthynas â lletya pobl ifanc ddigartref mewn llety brys oedd:

- mae darpariaeth benodol ar gyfer pobl ifanc fyddai orau
- na ddylai unrhyw berson ifanc rhwng 16 a 18 oed byw mewn hostel i oedolion
- hyd yn oed lle mae adain ddiogel, ar wahân ar gyfer pobl ifanc mewn hostel i oedolion, mae defnyddio ardaloedd cyffredin yn broblem, ac mae angen lefel uchel o staffio i gadw llygad ar y rhyngweithio mewn ardaloedd cyffredin
- ni ddylai pobl ifanc fynd i mewn i hostel mynediad-uniongyrchol drws-agored (h.y. sy'n derbyn pobl sy'n cyfeirio eu hunain yno ar sail y cyntaf i'r felin). Mae'n hanfodol fod unrhyw ddefnydd o wasanaeth o'r fath gan bobl ifanc yn amodol ar asesiadau manwl a dealltwriaeth glir ar ran y staff o'r perygl o safbwynt yr unigolyn a hefyd y gymysgedd o anghenion o fewn y gwasanaeth.
- nododd cyfweledigion sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig ei bod hi'n anodd darparu hosteli ar wahân ar gyfer pobl ifanc a bod atebion eraill (e.e. lletya brys ar aelwyd â chefnogaeth neu dai diogel ar gyfer pobl ifanc)
- dywedodd rhai awdurdodau lleol fod hostel â digon o staff a oedd yn cynnwys oedolion a phobl ifanc gyda'i gilydd yn well na llety gwely a brecwast. Fodd bynnag, lle mae gan awdurdodau lleol berthynas weithiol agos gyda darparwyr llety gwely a brecwast o answdd da, cefnogol, gellid dadlau fod hynny'n well na llety hostel cymysg, a gallai'r enghreifftiau gorau ymddangos yn debyg iawn i'r model lletya ar aelwyd â chefnogaeth.

4.2.25 Roedd yr holl gyfweledigion yn unfrydol fod staffio 24 awr yn angenrheidiol mewn darpariaeth hostel.

### *Lletya ar aelwyd â chefnogaeth*

4.2.26 Er mwyn i letya ar aelwyd â chefnogaeth fod yn effeithiol, teimlai darparwyr a chyrff comisiynu fod angen cefnogaeth dda ar y rhai oedd yn darparu llefydd, gan y sefydliad sy'n cyd-drefnu'r gwasanaeth lletya ar aelwyd â chefnogaeth a'r sector statudol. Yn ychwanegol at hynny, roeddent yn eiddgar i weld darparwyr llefydd yn cael eu gwobrwyo'n ariannol ar lefel sydd o leiaf yn cymharu â thaliadau a wneir i ddarparwyr gwasanaethau maeth neu, fel sydd yn digwydd ar hyn o bryd, bydd pobl yn dewis mynd yn rhieni maeth yn lle hynny. Mae yna broblemau neilltuol gyda threth a budd-daliadau sy'n ei gwneud hi'n anodd recriwtio darparwyr lletya ar aelwyd â chefnogaeth. Er enghraifft, nid yw'r un buddiannau treth sy'n dod i ran rhywun sy'n gosod stafell yn ei gartref/chartref ar gael i ddarparwyr llety ar aelwyd â chefnogaeth ac mae darparwyr llety ar aelwyd â chefnogaeth yn colli budd-daliadau oherwydd enillion fel pawb arall.

***Llety sy'n cael ei rannu***

4.2.27 Nodai'r arolwg o'r llenyddiaeth fod llety sy'n cael ei rannu yn amhoblogaidd ymhlith rhai pobl ifanc, ond y gall pobl ifanc deimlo'n unig yn eu tenantiaethau eu hunain, hyd yn oed pan ddarperir cymorth.

4.2.28 Mynegwyd sawl barn wahanol ynglŷn â buddiannau cyd-gefnogaeth i bobl ifanc mewn llety wedi ei rannu. Roedd pawb yn cytuno nad yw cydgefnogaeth yn datblygu o anghenraid ddim ond am fod pobl ifanc gyda'i gilydd. Gall y gwrthwyneb fod yn wir o'r safbwynt y gall diwylliant bwlian ddatblygu'n rhwydd ymhlith pobl sydd wedi gweld, neu ddioddef, perthynas gamweithredol rhwng oedolion.

4.2.29 Roedd gwahaniaeth barn ymhlith y bobl ifanc yn y grwpiau ffocws ynglŷn â llety wedi ei rannu:

*'Gormod o bobl ifanc o dan un to'*

*'Roedd byw mewn llety wedi ei rannu yn dda. Roedden ni'n tynnu 'mlaen yn iawn. Roedd gen i ffrindiau a chwmni da'*

*'Mae fy fflat fy hun yn braf. Byddai'n well gen i fod ar fy mhen fy hun nag yn rhannu'*

*'Gall y bloc fflatiau fod yn boen, gyda phobl yn chwarae cerddoriaeth uchel tan dri o'r gloch y bore'*

*'Weithiau mae trwbl. Mae rhai yn ei harddegau yn hongian o gwmpas y drws ffrynt'*

*'Dwi ddim yn hoffi byw yma. Dwi eisiau fy lle fy hun'*

*'Mae fy stafell i'n fach iawn. Dwi ddim yn hoffi byw mewn un stafell'*

*'Dwi'n nabod y person dwi'r rhannu gydag e, a faswn i ddim yn hoffi peidio â rhannu'*
(Grwpiau ffocws pobl ifanc – awdurdodau trefol a gwledig)

4.2.30 Cytunir y gall fod o fudd pan ellir darparu cefnogaeth cymheiriaid mewn ffordd reoledig (e.e. y gynghrair bêl-droed ddigartref, tripiau a digwyddiadau) neu roi pobl ifanc mewn cysylltiad â phobl ifanc eraill sydd wedi bod mewn sefyllfaoedd tebyg.

4.2.31 Credai'r cyfweledigion o'r Gwasanaeth Ieuenctid (ar lefel genedlaethol) ei bod yn bwysig bod pobl ifanc (yn enwedig rhai a oedd yn rhannu llety) yn cael eu cefnogi i ymuno mewn gweithgareddau hamdden a chelfyddydau prif-ffrwd yn y gymuned er mwyn cymysgu â phobl ifanc ac oedolion nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith tai â chefnogaeth. Cytunai pobl ifanc â hynny:

*'Dwi'n nabod lot o bobl o gwmpas dre a dwi'n cymysgu gyda phobl y tu allan i'r cynllun'*

*'Dwi'n cymysgu gyda fy mêts'*

*'Dwi ddim yn cymysgu gyda phobl yn y cynllun. Mae gen i fy ffrindiau fy hun y tu allan'* (Grwpiau ffocws pobl ifanc – awdurdodau trefol a gwledig)

4.2.32 Credai mwyfrafif o'r rhai y cyfwelwyd â nhw y dylai fod rhyw fath o ofal 24 awr (staffio 24 awr neu staff ar alwad allan o oriau gwaith) ar gael ym mhob amgylchedd wedi ei rannu. Fodd bynnag, awgrymodd rhai sefydliadau fod hynny'n dibynnu ar y gymysgedd o breswylwyr ac y byddai o gymorth pe bai systemau cyllido yn ei gwneud hi'n bosibl bod yn hyblyg ynglŷn â gweithredu'r gwasanaeth hwn.

***Yr angen am amrywiaeth o wasanaethau***

4.2.33 Yn y pen draw, bydd y penderfyniad ynglŷn â ble i roi person ifanc yn gyfaddawd rhwng anghenion y person ifanc a'r hyn sydd ar gael. Gall y cyfaddawd hwn arwain at ddiffyg cydweddiad rhwng anghenion a'r gwasanaeth a ddarperir.

4.2.34 Mynegwyd cefnogaeth ysgubol gan y rhai y cyfwelwyd â nhw i gontinwwm o wasanaethau llety a chefnogaeth (h.y. darparu llety a chefnogaeth ar draws yr holl deipoleg). Credai rhai pobl nad oedd y gair continwwm o gymorth gan ei fod yn awgrymu bod yna lwybr rhagbenodedig tuag at annibyniaeth a allai'n hawdd iawn lyffeitheirio  pobl ifanc. Teimlid y byddai'r cysyniad yn cael ei fynegi'n well drwy hyrwyddo'r egwyddor o fod ag amrywiaeth o wasanaethau fel y gellid darparu rhywfaint o ddewis.

4.2.35 Credai'r cyfweledigion ei bod hi'n bwysig fod pobl ifanc yn gallu symud i mewn ac allan, yn ôl ac ymlaen ac o gwmpas gwasanaethau, a'i bod hi'n aml yn angenrheidiol i bobl 'fethu' ac yna rhoi cynnig arall arni er mwyn dysgu gan eu profiadau. Mae'n bwysig cydnabod fod pobl ifanc yn gyffredinol yn symudol iawn ac yn byw bywydau dynamig ac mai camgymeriad fyddai dyheu am eu gweld yn dilyn patrymau byw sefydlog.

4.2.36 Mae taith yr unigolion isod yn tystio i'r amrywiaeth o wahanol lwybrau y gall pobl ifanc eu dilyn tuag at sicrhau patrwm mwy sefydlog, annibynnol o fyw.

- dyn - GaB, yn awr yn byw mewn fflat gyda chefnogaeth cymorth hyblyg
- menyw - GaB, yna llety brys, yn awr yn ei fflat ei hun gyda chymorth hyblyg
- dyn - GaB, llety brys, foyer, llety brys. Yn awr wedi ei gartrefu mewn cynllun gwasgaredig gyda chynlluniau i symud ymlaen
- dyn – digartref ar y stryd, hostel i oedolion digartref, yn awr yn rhannu llety dros-dro â chefnogaeth
- dyn - GaB, lletya ar aelwyd â chefnogaeth, nawr yn ei fflat ei hun gyda chymorth hyblyg

(Grwpiau ffocws pobl ifanc – awdurdod trefol)

4.2.37 Pwysleisiai sefydliadau (yn enwedig darparwyr) bwysigrwydd cael eu harwain gan anghenion a bod angen gwrando ar yr hyn y dywed pobl ifanc fod ei eisiau arnynt yn hytrach na'r hyn y cred darparwyr a chynllunwyr y dylent ei gael neu ei wneud.

**Cynyddu'r opsiynau ar gyfer rhai sy'n ymadael â gofal**

Mae Cyngor Metropolitan Solihull wedi gweithio i gynyddu'r dewisiadau ar gyfer rhai sy'n ymadael â gofal. Maent yn cynnwys:

- Project Llwybr – cefnogaeth seiliedig ar lety am hyd at ddwy flynedd, atgyfeiriadau ar gyfer rhai sy'n ymadael â gofal a chan y Tîm Opsiynau Tai
- lletya ar aelwyd â chefnogaeth – stafell, brecwast a swper gyda darparwyr 'cymeradwy' yn eu cartref eu hunain
- fflat hyfforddi – wedi ei dodrefnu'n gyflawn ar gyfer arosiadau o hyd at bedair wythnos
- Turnaround – cymorth hyblyg wedi ei darparu gan St Basils, (darparydd sector gwirfoddol sy'n arbenigo mewn gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref), am gyfnod o flwyddyn hyd at ddwy flynedd, atgyfeiriadau fel rhan o Gynllun Llwybr

[Ffynhonnell: Gwefan a Strategaeth Ddigartrefedd Cyngor Metropolitan Solihull]

## 4.3 Cost effeithioldeb/gwerth am arian

***Gwasanaethau yr ystyrir eu bod yn cynnig gwerth da am arian***

4.3.1 Daeth yr arolwg o'r llenyddiaeth o hyd i nifer o werthusiadau o wahanol fodelau o lety a chefnogaeth a oedd yn asesu eu cost effeithioldeb, e.e;

- roedd gwerthusiad Safe Moves[1] yn rhoi pris ar ei wasanaethau ac yn cymharu hynny â chost gwasanaethau y gellid fod wedi eu defnyddio pe na bai'r gwasanaeth Safe Moves ar gael (e.e. cost prosesu cais digartrefedd)
- roedd gwerthusiad Emmaus yng nghymuned Caergrawnt yn amcangyfrif faint yr oedd dull Emmaus o fynd ati (lle bydd defnyddwyr gwanaethau yn cymryd cyn lleied o gymorth gan y llywodraeth ag sy'n bosibl) yn ei arbed i'r coffrau cyhoeddus

4.3.2 Daeth astudiaeth Matrix o gostau a buddiannau gwasanaethau Cefnogi Pobl yng Nghymru i'r casgliad fod costau'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref a phlant sy'n ymadael â gofal yn fwy na'r buddiannau mesuradwy o fwy na £2,000 y defnyddiwr (LlyC, 2006). Fodd bynnag, dim buddiannau mesuradwy a ystyriwyd gan yr astudiaeth, a nodai fod y buddiannau anfesuradwy yn debyg o fod yn sylweddol i'r grŵp hwn o gleientiaid. Yn ychwanegol at hynny, dim ond buddiannau cyfnod o flwyddyn a ystyrir gan yr astudiaeth; gallai'r buddiannau i'r grŵp hwn o gleientiaid fod yn sylweddol iawn ar hyd gweddill eu hoes.

[1] Project peilot mewn pedair ardal yn Lloegr pedd Safe Moves, gyda'r nod o roi prawf ar fodel newydd o atal digartrefedd ar gyfer pobl rhwng 13 a 19 oed drwy ddatblygu pecyn o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys y gefnogaeth briodol i'w galluogi i symud i mewn i lety annibynnol neu ä gwasanaethau lle'r oedd angen hynny.

4.3.3 Nododd yr arolwg o strategaethau digartrefedd a Chynlluniau Gweithredu Cefnogi Pobl y pwyntiau a ganlyn hefyd mewn perthynas â chost effeithioldeb:

- mae gosod pobl ifanc sy'n ymadael â gofal mewn llety y tu allan i'r ardal yn neilltuol o ddrud
- mae diffyg llety i symud ymlaen iddo yn lleihau cost effeithioldeb nifer o gynlluniau
- mae cyfryngu teuluol yn arbed arian
- mae angen montitro'r defnydd o welyau brys y talwyd amdanynt ond nas defnyddir 100% o'r amser, yn ofalus

4.3.4 Fodd bynnag, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wybodaeth a oedd wedi ystyried cost effeithioldeb cymharol nifer o fathau o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref.

4.3.5 Nododd cyfweledigion nifer o wasanaethau y credent eu bod yn gost-effeithiol:

- **Cymorth hyblyg** – yn rhannol oherwydd fod y gwasanaethau'n cael eu darparu yng nghartrefi pobl, sy'n caniatáu canolbwyntio'n fwy ar y person ifanc nag y gellir ei wneud weithiau mewn tai sy'n cael eu rhannu. Mae tai sy'n cael eu rhannu yn gorfod canolbwyntio hefyd ar anghenion y preswylwyr fel grŵp sy'n gallu cyfyngu ar allu i ganolbwyntio ar unigolyn. Ystyrid fod y model hwn yn cynnig gwerth am arian hefyd am nad oes angen buddsoddiad cyfalaf, ac mae'n osgoi'r problemau cynllunio a datblygu cysylltiedig.

- **Gwasanaethau cyfryngu** – gwelir y fath wasanaethau fel rhai sy'n gwneud ymyriad cynnar ac yn datrys sefyllfaoedd cyn iddynt waethygu. Er mwyn i wasanaeth fod yn effeithiol, rhaid iddo ganolbwyntio ar y person ifanc, gyda'r negydu a'r canlyniadau oll yn arwain at ganfod yr ateb gorau iddo/iddi ac, yn bennaf oll, yn sicrhau diogelwch a lles. Mae'n hanfodol fod y gwasanaeth yn annibynnol ac yn gallu sefyll ar wahân i'r gwrthdaro a all godi rhwng buddiannau sefydliadau, systemau mewnol, neu ystyriaethau parthed defnydd adnoddau

- **Gwasanaethau lletya ar aelwyd â chefnogaeth** – credid eu bod yn effeithiol ac yn cynnig gwerth da am arian, er y nododd cyfweledigion ei bod yn anodd recriwtio oedolion sy'n fodlon cyfranogi yn y fath wasanaethau

- **Cynlluniau un-safle dros-dro** – ystyrir yn aml eu bod yn ddrud ond teimlid yn aml eu bod yn cynnig gwerth am arian yn y tymor hwy. Mae cred gyffredinol y dylai'r rhain fod yn fach (rhwng 4 ac 8 uned). Fodd bynnag, dywedai'r comisiynwyr gwasanaethau y cyfwelwyd â nhw nad yw lefelau tariff presenol Grantiau Refiniw Cefnogi Pobl yn cefnogi'r agwedd hon, ac nad yw cynlluniau rhannu llety llai o faint yn ymarferol yn ariannol oni cheir cyllid ychwanegol o ffynhonnell arall

4.3.6 Credai llawer o'r cyfweledigion fod diffyg cydnabyddiaeth i werth gwaith gyda phobl ifanc sy'n ymddangos yn ddrud ar y pryd, ond sydd ag effaith ataliol a allai arbed arian sylweddol yn y tymor hir. Roedd y sylw hwn yn neilltuol o berthnasol i fuddsoddi yn y gwasanaethau mwyaf dwys ar gyfer pobl ifanc â phroblemau cymhleth a

phatrwm o droseddu. Cyfeiriwyd at y diffyg buddsoddi mewn cyfleusterau diogel ar gyfer pobl ifanc fel nad oes rhaid iddynt fynd i garchar yn Lloegr fel enghraifft o hyn.

4.3.7 Darganfu'r arolwg o ganlyniadau blynyddol (a gasglwyd gan Lywodraeth y Cynulliad oddi wrth sefydliadau sy'n derbyn Grant Refiniw Tai â Chefnogaeth) ar gyfer 20 project sy'n darparu gwasanaethau tai â chefnogaeth i bobl ifanc fod:

- 19 o'r projectau wedi derbyn yr opsiwn dwysedd mewn perthynas â chyllid Grant Refiniw Cefnogi Pobl. Mae hynny'n fel pe bai'n awgrymu fod Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn fod y projectau hyn yn ymdrin â lefel uchel o anghenion cymhleth yng nghyd-destun y system tariffau.

- roedd gan 12 o'r projectau naill ai staffio 24-awr neu system ar-alw y tu allan i oriau gwaith, sydd unwaith eto yn dynodi'r lefel o angen y darperir ar ei gyfer

- lefelau isel iawn o lefydd gwag, sy'n dangos faint o alw sydd am y gwasanaethau

- roedd y cymarebau staff i denantiaid yn amrywio o 1:1 i 1:10, gyda'r mwyafrif yn 1:4, sy'n dangos yr angen am lefelau staffio uchel.

4.3.8 Mae'r ffeithiau uchod yn dangos y dylai projectau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref allu darparu ar gyfer lefelau uchel o anghenion cymhleth. Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd yn gynharach, mae darparwyr a chomisynwyr yn datgan eu bod yn ei chael hi'n anodd ateb anghenion y lleiafrif o bobl ifanc sydd ag anghenion o'r fath. Mae'r farn hon, ynghyd â'r data uchod, yn awgrymu fod angen edrych ar wahanol fodelau o wasanaethau er mwyn ateb y fath anghenion, o bosib y tu allan i'r rheini a amlinellir gan fframwaith cyllido'r Grant Refiniw Cefnogi Pobl.

***Gwerth am arian mewn perthynas â chanlyniadau***

4.3.9 Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am ganlyniadau penodol gyda phobl ifanc sengl ddigartref. Mae rhai sefydliadau wedi datblygu – neu yn y broses o ddatblygu – systemau mewnol i olrhain canlyniadau. Bydd timau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol yn casglu ystadegau hefyd, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar wybodaeth rifol fel y gyfran o symudiadau cynlluniedig a heb eu cynllunio o gynlluniau tai â chefnogaeth. Ar hyn o bryd, mae'r rhain ar y cyfan yn ymwneud â gwybodaeth feintiol yn hytrach nag ar ansawdd neu ganlyniadau. Nodwyd un enghraifft yn ystod yr ymchwil o awdurdod lleol a nododd fod pobl ifanc sy'n symud ar hyd y continwwm darpariaeth darparydd yn y sector gwirfoddol (lletya ar aelwyd â chefnogaeth, tai â chefnogaeth, tai annibynnol ynghyd â chefnogaeth) yn tueddu i wneud yn well na rhai sy'n symud allan o lety dros-dro yr awdurdod lleol i mewn i lety annibynnol â chefnogaeth.

4.3.10 Cyfeiriodd llawer o gyfweledigion mor anodd oedd pennu beth yn union oedd canlyniad llwyddiannus. Mae gan bobl ifanc wahanol lefelau o angen ac nid ydynt yn grŵp unrhyw; gan hynny, gall yr hyn sydd yn gyflawniad amrywio'n fawr rhwng unigolion. Nid yw systemau yn tueddu i fesur neu ystyried yr hyn a ddysgir drwy brofiad neu'r pellter a deithiwyd ychwaith, sydd yn aml yn golygu fod yn rhaid gwneud

camgymeriadau cyn i’r hyn a ddysgwyd ymsefydlu yn seici’r person ifanc. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn edrych ar bellter a deithiwyd fel ffordd o fesur llwyddiant gwasanaeth.

4.3.11 Nid yw’r agwedd hon ar werthuso gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref wedi ei datblygu’n ddigonol ar y cyfan, er bod rhai Timau Cefnogi Pobl yn dechrau gweithio ar lefel ranbarthol i sefydlu systemau cymharu costau gwasanaethau.

4.3.12 Ar y cyfan, pan ofynnwyd i bobl ynglŷn â chostau gwasanaethau, cyfeirient at symiau tariff y Grant Refiniw Cefnogi Pobl sy’n cael eu talu fesul uned am wahanol fathau o wasanaeth. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn talu swm llawn y tariff i ddarparwyr gwasanaethau gan ddewis, yn hytrach, ei ychwanegu at y gronfa adnoddau er mwyn talu am ragor o welyau.

**Olrhain canlyniadau gan ddefnyddio’r seren ganlyniadau**

Mae rhai mudiadau digartrefedd (fel St Mungo’s a Solas) wedi datblygu ffyrdd o fesur canlyniadau eu gwasanaethau drwy fesur ‘y pellter a deithiwyd’. Mae’r ‘seren ganlyniadau’ yn cynnwys asesiad dechreuol ar y cyd rhwng gweithiwr allweddol a pherson digartref sy’n defnyddio’r gwasanaeth.

Mae St Mungo’s yn nodi sefyllfa’r unigolyn mewn wyth maes – cyfrifoldeb personol, sgiliau byw, rhwydweithiau cymdeithasol, defnydd sylweddau, iechyd corfforol, iechyd meddwl, defnydd ystyrlon o amser a llety.

Bydd Solas yn nodi’r pellter a deithiwyd mewn perthynas â set debyg iawn o feysydd - cyfrifoldeb personol, sgiliau byw, rhwydweithiau cymdeithasol, defnydd sylweddau, gofalu am iechyd corfforol a iechyd meddwl, defnydd ystyrlon o amser/cyflogadwyedd a llety.

Drwy gyfeirio’n ôl at yr asesiad dechreuol, gall yr unigolyn a darparydd y gwasanaeth olrhain hynt yr unigolyn. Mae hefyd yn helpu’r mudiad i weld a oes yna feysydd lle mae’n gyson yn methu helpu unigolion i ddatblygu.

[Ffynhonnell: Scottish Executive (2007a), *A literature review on multiple and complex needs and Solas*]

**Mesur canlyniadau**

Mae Llamau Cyfyngedig yn crynhoi gwybodaeth fonitro gynhwysfawr mewn perthynas â nodau, amcanion a chanlyniadau pob un o’u projectau, ac ar gyfer pob defnyddiwr.

Mae’r gronfa ddata monitro yn galluogi’r sefydliad i ddangos yn glir nifer a chymhlethdod anghenion defnyddwyr y gwasanaeth am gefnogaeth, a ddatgelir yn ystod y broses gefnogaeth ac yr ymdrinir â nhw yn ystod eu harhosiad gyda Llamau.

Ochr yn ochr â’r wybodaeth ystadegol hon, mae sefydliad yn nodi ‘pellter a deithiwyd’ neu gynnydd a wnaed ar gyfer defnyddwyr unigol mewn perthynas â chwech o anghenion cefnogaeth blaenoriaethol. Mae’r system yn mesur ble’r oedd defnyddiwr y gwasanaeth arni

pan ddaeth i mewn i'r project, y cynnydd drwy gydol ei arhosiad, a ble y mae arni wrth ymadael â'r project, mewn perthynas â'r gwahanol anghenion cefnogaeth.

[Ffynhonnell: Llamau Cyfyngedig]

## 4.4 Materion cefndir sy'n dylanwadu ar effeithioldeb y ddarpariaeth

***Materion polisi***

4.4.1 Yn ystod y project hwn, trafododd llawer o gyfweledigion y ffordd y mae pobl ifanc yn cael eu gweld yn y DU. Mae yna deimlad fod eu gwaith a'r cynnydd y gall pobl ifanc ei wneud yn cael ei rwystro gan y modd y mae pobl ifanc yn cael eu pardduo a'u dal yn gyfrifol am droseddu ac anhrefn a drygau cymdeithas yn gyffredinol. Tra bod datrys y fath broblemau cefndir yn amlwg y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hon, rydym yn galw sylw at y mater gan fod y farn gyffredin hon yn sicr yn llesteirio gallu cynllunwyr a darparwyr i symud ymlaen, e.e. o ran datblygu gwasanaethau seiliedig ar lety addas ar gyfer pobl ifanc. Ar lefel fwy gweithredol, mae hefyd yn effeithio ar allu pobl ifanc sydd wedi cael anawsterau yn gynnar yn eu bywydau i ailymsefydlu mewn tai ac addysg brif-ffrwd a'r gymuned.

4.4.2 Cododd llawer o gyfweledigion gwestiwn pwysigrwydd arddull a ffordd o fynd ati wrth weithio gyda phobl ifanc. Mae hon yn drafodaeth ddyrys a chrynhoir y prif bwyntiau isod:

- pwysleisiodd cyfweledigion ei bod yn bwysig gweithio gyda phobl ifanc mewn ffordd sy'n cael ei harwain gan angen gan wrando ar beth mae ar bobl ei eisiau yn hytrach na dweud wrthynt beth i'w wneud a gwneud pethau drostynt

- pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r darparwyr a rhai cyfweledigion at lefel strategol bwysigrwydd annibyniaeth a dysgu derbyn cyfrifoldeb, sydd yn anorfod yn golygu'r hawl i wneud camgymeriadau. Ar yr un pryd, yn achos rhai pobl ifanc (yn enwedig rhai dan 18 oed sydd wedi bod yn destun trefniadaeth diogelu plant neu wedi eu diffinio fel plant mewn angen), y mae angen gweithredu i ddiogelu eu buddiannau ac ymyrryd yn fwy ar eu rhan

4.4.3 I orsymleiddio'r drafodaeth, mae angen gwahaniaethu rhwng adegau pan ddylai cefnogaeth fod wedi ei seilio yn fwy ar y model gwasanaethau cymdeithasol, lles cymdeithasol (mwy gwarchodol a mwy caeth i gyfrifoldeb deddfwriaethol) a lle mae hi'n fwy priodol defnyddio model gwasanaeth ieuenctid, dysgu/addysgol (sydd yn rhoi mwy o bwyslais ar ymreolaeth bersonol)

4.4.4 Mae'r modelau hyn yn rhychwantu'r sbectrwm o ffyrdd o fynd ati i weithio gyda phobl ifanc, ond mae llawer o bobl ifanc yn debyg o fod yn mynd drwy ryw fath o newid a fydd yn golygu bod angen y ddwy ffordd uchod. Pwysleisiodd cyfweledigion yr angen am drafodaeth ar lefel genedlaethol a lleol ynglŷn â phryd y dylid cefnogi symud tuag at roi pwyslais cynyddol ar gyfrifoldeb, dysgu ac ymreolaeth. Yn gyffredinol, mae'r ffordd hon o fynd ati yn galw am wasanaethau sydd yn canobwyntio'n fwy ar y

person, sy’n ddynamig, ac sy’n barod - ac â’r gallu - i newid wrth i anghenion person ifanc newid a datblygu.

***Problemau lleoliad mewn ardaloedd cefn gwlad***

4.4.5 Mae lleoliad gwasanaethau yn dylanwadu’n fawr ar eu heffeithioldeb. Mae pa mor wledig yw ardal, yn enwedig, yn dylanwadu ar y mathau o wasanaethau a geir yno a’u heffeithioldeb. Roedd cyfweledigion a oedd yn cynllunio neu’n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd cefn gwlad yn yn sôn am broblemau tebyg beunydd:

- yn gyffredinol, teimlid fod diffyg darpariaeth ar gyfer pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig darpariaeth fwy arbenigol. Mae ateb y galw am wasanaethau arbenigol mewn ardaloedd â phoblogaeth wasgaredig, a sicrhau gwerth am arian yn gryn her, ac mae angen ffyrdd arloesol o fynd ati i ddarparu’r fath wasanaethau.

- mae rhwystrau i ddatblygu gwasanaethau, fel ‘nimby’aeth. ac anawsterau llywio cais llwyddiannus drwy’r gyfundrefn gynllunio yn rhemp mewn ardaloedd gwledig

- os bydd pobl ifanc yn gorfod mynd o’r ardal (e.e. i’r carchar, neu symud at ran arall o’r awdurdod er mwyn cael llety brys neu i dderbyn cefnogaeth frys neu arbenigol) mae’n aml yn anodd iawn iddynt ddod o hyd i lety a/neu gefnogaeth yn ôl yn eu cynefin

- yn aml, nid fydd arbedion maint yn caniatáu bod â mwy nag un ddarpariaeth hostel uniongyrchol frys (neu hyd yn oed un). Felly mae prinder cyfleusterau bach, arbenigol ar gyfer pobl ifanc ddigartref. Mae hyn yn golygu nad oes nemor ddim darpariaeth un-safle yn benodol ar gyfer rhai 16 a 17 oed

- teimlir fod problem diffyg stoc tai addas a fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc sengl yn neilltuol o ddwys mewn ardaloedd gwledig

- lle mae gwasanaethau mor brin, credir ei bod hi hyd yn oed yn fwy pwysig eu bod yn amlweddog. Gyda’r fath wasanaethau, teimlir fod cefnogaeth gan wasanaethau statudol ac eraill yn hanfodol

- mae problemau pellter, adnoddau ariannol a gallu yn aml yn rhwystr i allu sefydliadau i weithio mewn partneriaeth

- yn ôl darparwyr, ychydig iawn o gydgomisiynu a darparu gwasanaethau ar draws ffiniau sy’n digwydd ar hyn o bryd.

4.4.6 Y projectau a’r ffyrdd o fynd ati y credid eu bod yn gweiothio’n dda mewn ardaloedd gwledig oedd:

- projectau un-safle bychain, annibynnol sy’n agos at adnoddau cymunedol, e.e. siopau, banciau, rhwydweithiau trafnidaeth gyhoeddus

- hosteli brys ar gyfer pobl ddigartref mewn lleoliadau trefol sy'n tueddu i hwyluso mynediad i adnoddau eraill, e.e. y sector statudol, cyflogaeth a rhwydweithiau hyfforddi

- gwasanaethau craidd a chlwster sy'n darparu craidd (tŷ neu grŵp o fflatiau) ynghyd â llety gwasgaredig (fflatiau fel arfer) yn y stoc anghenion cyffredinol

- darpariaeth heb fod ar safle (e.e. lletya ar aelwyd â chefnogaeth, cymorth hyblyg)

### 4.5 Materion strategol sy'n effeithio ar y gallu i gynllunio a datblygu'r ddarpariaeth

4.5.1 Teimlai'r mwyafrif o'r cyfweledigion ei bod hi'n anodd datblygu gwasanaethau un-safle oherwydd amrywiaeth o ffactorau:

- 'nimby'aeth a/neu ddiffyg ymrwymiad corfforaethol a/neu wrthwynebiad gan gynghorydd ward yr ardal lle bwriedir lleoli gwasanaeth

- lle bo cynllunwyr strategol a darparwyr wedi llwyddo i grynhoi cyfalaf a refiniw ar gyfer gwasanaeth, gorchwyl digon anodd ynddo'i hunan yn eu barn nhw, byddai'r gwasanaeth yn aml yn cael ei rwystro gan y broses gynllunio, oherwydd un neu fwy o'r ffactorau uchod

- cred darparwyr fod lleoliad gwasanaeth o bwys hanfodol i'w lwyddiant yn y tymor hir. Yn ddelfrydol, dylai fod yn rhan o gymuned ac yn agos at wasanaethau yn hytrach na bod mewn lleoliad ynysedig ar gyrion tref.

4.5.2 Yn gyffredinol, doedd gan y cyfweledigion ddim syniad sut y gellir goresgyn yr anawsterau hyn. Awgrymwyd mai'r camau cyntaf angenrheidiol tuag at wella'r sefyllfa oedd cynyddu ymwybyddiaeth o'r problemau ymhlith aelodau etholedig, a bod angen ymyriad mwy egnïol ar y lefel genedlaethol.

4.5.3 Mynegwyd cred gref hefyd fod darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau wedi mynd i ganolbwyntio'n ormodol ar frics a morter ac y dylai fod mwy o ffocws ar gefnogaeth sy'n cymryd agwedd fwy pragmataidd at ddefnydd llety, h.y. un sy'n ochrgamu'r problemau uchod. Er enghraifft:

- defnyddio stoc anghenion cyffredinol presennol i ddarparu gwasanaeth tai â chefnogaeth (h.y. tŷ anghenion cyffredinol i ddarparu llety brys ar gyfer 3 - 4 o bobl ifanc)

- datblygu darpariaeth tai â chefnogaeth ar raddfa fach fel rhan o ddatblygiad newydd gan landlord cymdeithasol cofrestredig a allai osgoi'r elfen o 'nimby'aeth gan na fydd cymdogion yn bodoli yn ystod y cyfnod datblygu

- ehangu gwasanaethau llety â chefnogaeth amhenodol, fel lletya ar aelwyd â chefnogaeth

- darparu cymorth hyblyg ar gyfer grwpiau bach o bobl ifanc yn rhannu tŷ o'r stoc anghenion cyffredinol

4.5.4 Gwnaeth darparwyr a chomisiynwyr nifer o bwyntiau ynglŷn â materion dylunio/lleoli:

- dylai llety un-safle (darpariaeth dros-dro wedi ei rhannu neu hostel) ar gyfer pobl ifanc fod yn fach (hyd at 4-6 llofft). Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws canolbwyntio'r gefnogaeth ar berson yn hytrach nag ymgolli mewn problemau rheolaeth a achosir gan y gymysgedd o breswylwyr a'u defnydd o'r adeilad. Fodd bynnag, addefodd y darparwyr a'r chomisynwyr fod lefelau cyfredol o Grant Refiniw Cefnogi Pobl yn golygu mai dim ond gwasanaethau mwy o faint oedd yn ariannol ymarferol

- dylai darpariaeth un-safle gynnig cymaint o breifatrwydd ag sy'n bosibl i breswylwyr, a theimlai nifer o'r grŵp ymgynghori y dylai pobl fod â'u cyfleusterau tŷ bach a chawod eu hunain yn hytrach na gorfod rhannu

- dylai eiddo a ddefnyddir gyda chymorth hyblyg fod wedi ei leoli mewn mannau sy'n ddiogel i bobl ifanc ac sy'n eu galluogi i ddefnyddio gwasanaethau a chymryd rhan mewn gweithgareddau prif-ffrwd lleol gydag phobl ifanc eraill.

## 4.6 Materion gweithredol sy'n effeithio ar effeithioldeb y ddarpariaeth

4.6.1 Mae gallu gwasanaethau unigol i fod yn effeithiol yn dibynnu ar fod ag amrediad hyblyg o wasanaethau ar gael, ac ar fod â'r cyflenwad iawn o lety fel y gellir ymateb i her darparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion. Mae hefyd yn glir fod yna nifer o broblemau gweithredol cydgysylltiedig sy'n tanseilio gallu gwasanaethau i fod yn effeithiol. Rhestrir y problemau a godwyd gan gan y grŵp ymgynghori a chyfweledigion isod.

### *Anghydweddiad rhwng anghenion a mathau o wasanaeth*

4.6.2 Nododd cyfweledigion a'r grŵp ymgynghori y ffaith y gall cynlluniau un-safle fynd yn llai effeithiol ac yn fwy anodd eu rheoli oherwydd y ffactorau canlynol:

- diffyg gwasanaethau yn yr ardal a'r angen am/pwysau ar ddarparwyr i fod yn bragmatig os nad oes gan rywun yr unlle arall i fynd iddo

- diffyg meini prawf cymhwyster, trefniadau atgyfeirio ac asesu clir, neu feini prawf yn cael eu gwyrdroi oherwydd y broblem uchod

- atgyfeiriadau gan asiantaethau nad ydynt yn rhoi gwybodaeth lawn ynglŷn â'r unigolyn ('*dumping*' yn Saesneg)

- diffyg adnoddau yn y sector statudol i weithio mewn partneriaeth i ateb anghenion rhywun, sy'n golygu fod yr anghenion hynny'n gwaethygu oherwydd na ellir eu diwallu'n effeithiol. Gall hyn arwain yn aml at droi rhywun allan o'r llety

- mae rhai darparwyr, am resymau cytundebol, yn gorfod derbyn pob atgyfeiriad gan awdurdod lleol at wasanaeth neilltuol, ni waeth a yw hynny'n briodol ar yr adeg honno (yn wyneb y sefyllfa reolaeth o fewn y project) neu yn gyffredinol.

4.6.3 Mae glynu wrth egwyddorion yr hyn y sefydlwyd gwasanaeth i'w gyflawni, drwy gyfrwng prosesau mynediad ac asesu praff, ynghlwm wrth ei effeithioldeb. Lle gwanheir hyn oherwydd diffyg cyflenwad neu atgyfeirio amhriodol, gall hynny danseilio effeithioldeb gwasanaethau tai wedi eu rhannu.

***Prosesau mynediad ac asesu***

4.6.4 Mae problemau mynedaid ac asesu yn gysylltiedig â'r uchod. Mae'n hanfodol fod pobl yn gwybod am y gwasanaethau llety a chefnogaeth a ddarperir ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref, ac yn gallu cael rhwydd fynediad iddynt. Mae nifer o awdurdodau wedi gwneud gwaith arloesol i sicrhau fod rhai mewn angen yn gwybod am y gwasanaethau ac yn gallu eu defnyddio (e.e. drwy ddarparu gwasanaethau arbenigol i gynghori pobl ifanc ynglŷn â thai).

4.6.5 Mae prosesau asesu cyfannol, sy'n mynd i'r afael â holl anghenion person ifanc, yn hanfodol hefyd. Ceir enghreifftiau o waith arloesol yn y cyswllt hwn hefyd, yn cynnwys cydgysylltu gwahanol brosesau asesu a chyflogi staff arbenigol sy'n arbenigwyr mewn cysylltu â phobl ifanc.

4.6.6 Mae amseru'n hollbwysig i bobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o sefydliadau fel carchar. Efallai na fydd lle ar gael yn y gwasanaeth priodol ar yr union adeg yn mae ei angen; mae angen cynllunio trefniadau mynediad ac asesu er mwyn lleihau'r fath broblemau.

**Gwasanaethau asesu wedi eu cyfuno ag ataliaeth**

Mae project Bays Abertawe, a reolir gan Barnardo's Cymru, yn darparu tri gwasanaeth:

- gwasanaeth asesu ar gyfer pobl ifanc sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod heb gartref
- gwasanaeth cynghori ar gyfer pobl ifanc ac ymadawyr â gofal
- gwasanaeth cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n byw mewn llety gwely a brecwast

Gwêl y gwasanaeth asesu rai 16 a 17 oed fel 'Plant mewn Angen' ac mae anghenion yn cael eu hasesu gan weithwyr cymdeithasol o'r project Bays. Asesir anghenion rhai 18 i 21 oed gan gynghorwyr opsiynau tai sy'n gweithio ochr yn ochr â'r project. Mae Barnardo's Cymru yn darparu gwasanaeth cyfryngu ar gyfer pobl ifanc sydd am ddychwelyd adref, ynghyd â gwasanaeth cefnogi gartref i gynorthwyo'r person ifanc yn y broses o ddychwelyd adref.

Bwriedir ehangu gwaith ataliol y tîm drwy gyflogi gweithiwr cyswllt addysgol a fydd yn cydweithio'n glos gydag ysgolion a swyddogion lles addysgol er mwyn canfod a gweithio gyda phobl ifanc sydd yn wynebu anawsterau er mwyn canfod eu hanghenion a darparu cefnogaeth yn gynnar yn y broses.

[Ffynhonnell: Barnardo's Cymru]

**Cyfuno asesu gyda gwasanaethau**

Gwnaeth Cyngor Dinas Plymouth arolwg o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc. O ganlyniad, cynigiodd Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol wasanaeth ar y cyd sy'n cynnig dull cyfannol o ateb anghenion pobl ifanc ddigartref drwy gyfuno asesu, cymorth hyblyg a lletya ar aelwyd â chefnogaeth oll mewn un gwasanaeth.

[Ffynhonnell: Adroddiad Arolygu Cefnogi Pobl Cyngor Dinas Plymouth, Gorffennaf 2006]

**Mynediad i wasanaethau**

Mae Bwrdeistref Llundeinig Hounslow wedi sefydlu panel tai a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sydd wedi ehangu mynediad i wasanaethau Cefnogi Pobl ar gyfer pobl ifanc. Mae'r panel yn gweithredu fel porth unedig i holl wasanaethau cefnogaeth cysylltiedig â thai y fwrdeistref ar gyfer pobl ifanc. Crewyd swydd swyddog llety pobl ifanc i fod yn ddolen gyswllt rhwng nifer o asiantaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc. Rhan o'r swyddogaeth yw cyd-drefnu'r panel tai a chefnogaeth; mae cadeiryddiaeth y panel yn cylchdroi rhwng swyddogion llety yn yr uned bobl ddigartref, y tîm troseddu ieuenctid â'r tîm ymadael â gofal.

[Ffynhonnell: Adroddiad Arolygu Cefnogi Pobl Bwrdeistref Llundeinig Hounslow, Ion. 2005]

***Diffyg llety symud ymlaen***

4.6.7 Credai'r mwyafrif helaeth o gyfweledigion fod diffyg llety symud ymlaen yn creu tagfa yn y gwasanaethau. Nid yw pobl sy'n barod i symud ymlaen yn gallu gwneud, ac mae gwasanaethau y mae ar eraill angen ac awydd eu defnyddio yn llawn. Gall hyn effeithio'n negyddol ar bobl ifanc a thanseilio unrhyw gynnydd y maent wedi ei wneud.

4.6.8 Roedd gan gyfweledigion farn gref iawn ar y pwnc. Cred llawer ohonynt mai ychydig iawn y gellir ei wneud i wella byd pobl ifanc ddigartref a sicrhau gwerth am arian o'r gwasanaethau presennol hyd oni cheir gwell cyflenwad o lety symud-ymlaen mwy addas, a gwell llwybrau mynediad iddo. Heb fwy o dai fforddiadwy, fel y dywed un ymatebydd, '*bydd yn dal i deimlo fel pe baem yn gwthio cwch i fyny i fryn*'.

4.6.9 Dywedodd yr holl ddarparwyr yr adolygwyd eu canlyniadau blynyddol fod symud ymlaen yn broblem.

4.6.10 Ar yr un pryd, mae cyfweledigion yn deall y gellir gwneud mwy i fanteisio ar y stoc tai presennol, fel gweithio'n fwy clos gyda landlordiaid yn y sector preifat ac ymchwilio i opsiynau na roddwyd cynnig arnynt gan mwyaf, fel pobl ifanc yn rhannu tai yn y stoc anghenion cyffredinol gyda rhywfaint o gymorth hyblyg

*'Dwi'n ceisio dod o hyd i dŷ gyda fy mhartner'*

*'Byddai'n well gen i fyw yn agos at y teulu, ond does nemor ddim tai ar gael yn y cylch'*

*‘Dwi eisie fflat ddwy-lofft yn y cylch yma, lle gallaf wadd fy nheulu a’m ffrindiau’*
(Grŵp Ffocws Pobl Ifanc – ardal wledig)

**Gwella llety symud-ymlaen**

Mae Homeless Link wedi gweithio gyda nifer o awdurdodau i redeg cynllun peilot Protocol Cynlluniau Symud-Ymlaen. Bwriedir i’r Protocol helpu awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau i fynd i’r afael â ffactorau lleol sy’n atal pobl rhag symud ymlaen. Mae’r protocol wedi ei seilio ar bartneriaethau lleol, archwiliad symud-ymlaen, datblygu cynllun gweithredu symud-ymlaen a dadansoddiad cyson o gynnydd a chanlyniadau. Mae cyfarpar ar gael i gynorthwyo awdurdodau a’u partneriaid o ddarparwyr i weithredu’r protocol.

[Ffynhonnell: gwefan Homeless Link]

**Gwella mynediad i’r sector rhentu preifat**

Mae Cyngor Sir y Fflint, ar y cyd â YMCA Cymru, yn rhedeg cynllun bondiau ar gyfer pobl sengl dros 16 oed drwy ddarparu ernes nad yw mewn arian. Mae’r gwasanaeth wedi ei anelu at bobl sy’n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref sy’n derbyn budd-daliadau neu ar incwm isel ac sy’n chwilio am lety, ond sy’n methu fforddio bond a fyddai’n eu galluogi i fanteisio ar ddarpariaeth sector preifat. Mae’r tîm bondiau yn ymweld â’r eiddo o flaen llaw i weld ei gyflwr a chynhyrchu adroddiad arolygu i sicrhau fod yr eiddo o safon dderbyniol.

[Ffynhonnell: Cyngor Sir y Fflint]

***Galluoedd a sgiliau’r gweithlu***

4.6.11 Gwnaeth llawer o gyfweledigion (yn enwedig darparwyr a rhai ar lefel genedlaethol yn y sectorau statudol a gwirfoddol) sylwadau ynglŷn â gallu a sgiliau fel ffactor a all ddylanwadu’n fawr ar allu gwasanaethau i fod yn effeithiol.

4.6.12 Y pwynt mwyaf cyffredin oedd yr angen am ddatblygu sgiliau arbenigol y tu fewn i sefydliadau oherwydd diffyg gallu gwasanaethau statudol i ddarparu’r gefnogaeth angenrheidiol mewn meysydd fel camddefnyddio sylweddau a iechyd meddwl.

4.6.13 Cyfeiriodd darparwyr hefyd at anhawster gyda recriwtio a chadw staff cymwys â sgiliau. Mynegodd lleiafrif o’u plith bryder fod prosesau comisiynu cyfredol yn gyrru costau i lawr tra bod darparwyr yn lletya pobl gydag anghenion mwyfwy cymhleth. Credai rhai cyfweledigion, pe bai hyn yn parhau, y byddai’n gyrru cyflogau i lawr, yn effeithio ar ansawdd gwasanaethau ac yn y pen draw’n golygu na allai gwasanaethau ymdopi’n effeithiol â’r lefel o risg y disgwylir iddynt wneud ar hyn o bryd.

4.6.14 Roedd nifer o gyfweledigion sy’n gweithio gyda darparwyr tai â chefnogaeth yn gwerthfawrogi parhad a chysondeb mewn trefniadau staffio gan nodi, pan sefydlid perthynas ac ymddiriedaeth, fod hynny’n gwneud gweithio mewn partneriaeth yn fwy

effeithiol, yn ogystal â bod yn bwysig o ran cynorthwyo person ifanc i symud ymlaen i fyw'n annibynnol.

*'Mae'r gweithiwr cefnogi fel ffrind sydd â llawer o brofiad o fywyd i'w rannu gyda fi'*

*'Gallaf weld fy ngweithiwr cefnogi pan fynnaf – pa fydd arna'i eisiau ac angen cefnogaeth a thawelwch meddwl'*

*'Mae fy ngweithiwr cefnogi yn wych – mae'n gadael i fi fwrw ymlaen â phethau ond mae bob amser yno i fi pan fydda i'n ffonio'*

*'Mae'r gweithiwr cefnogi wedi fy helpu i elwa ar lawer o weithgareddau fel chwaraeon, dosbarthiadau ymlacio, gwersi coginio'*
(Grwpiau Ffocws Pobl Ifanc – ardaloedd gwledig a threfol)

***Gwaith partneriaeth aneffeithiol***

4.6.15 Fel y nodwyd yn gynharach, mae angen i wasanaethau llety a chefnogaeth weithio ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o wasanaethau eraill ac i eiriol ar ran y bobl ifanc er mwyn iddynt elwa ar y fath wasanaethau. Nid yw hi'n anghyffredin i asiantaethau brofi cryn anhawster o ran sicrhau'r lefel o weithio aml-asiantaeth sy'n anghenrheidiol.

4.6.16 Cydnabyddir yn gyffredinol fod gwasanaethau statudol fel gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHs) a gwasanaethau cymdeithasol wedi eu gorlwytho a heb y gallu i gydweithio'n glos gyda darparwyr, a all amharu ar effeithioldeb gwasanaethau.

4.6.17 Nododd llawer o gyfweledigion broblem benodol hefyd rhwng gwasanaethau digartrefedd/tai a gwasanaethau plant (h.y. y gwasanaethau'n methu penderfynu pwy sydd â dyletswydd at y person ifanc dan sylw).

4.6.18 Dywedodd un cyfwelai ar lefel genedlaethol yn y sector gwirfoddol fod pobl ifanc yn aml yn cael eu gollwng yn rhy gynnar o leoliadau maethu i ddychwelyd at eu teulu er mwyn i'r lle gofal maethu gael ei ddefnyddio ar gyfer rhywun arall. Yn rhy aml o lawer, meddai, byddai'r berthynas deuluol yn chwalu wedi i'r person ifanc gyrraedd 18 oed, a olygai nad ystyrid y person ifanc yn gyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol mwyach pe bai'n mynd yn ddigartref.

4.6.19 Mae'n glir at sail trafodaethau gyda nifer o gyfranogwyr ar y lefel strategol nad yw gwaith partneriaeth wedi ei ddatblygu'n ddigonol mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer troseddwyr ifanc. Mae nifer o elfennau yn y pryderon a leisiwyd:

- mae'n rhaid i Dimau Troseddu Ieuenctid fod â swyddog llety enwebedig. Gall y person yma fod yn unrhyw un o fewn y sefydliad. Gall yr oriau a neilltuir i'r swydd enwebedig amrywio felly, o awr neu ddwy yr wythnos i, mewn rhai achosion, swydd lawn-amser. Cyflawnir y cyfrifoldebau hyn gan wahanol swyddogion mewn gwahanol ardaloedd, felly mae'r swyddogaeth yn amrywio o ran statws/ blaenoriaeth. O'r herwydd, mae'r amser a dreulir ar broblemau llety yn amrywio'n anferthol, gydag anghysondeb felly rhwng perfformiad y naill ardal a'r llall.

- mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ddiffiniad o'r hyn a olygir wrth 'lety addas' ac mae'n ofynnol i Dimau Troseddu Ieuenctid ddarparu ystadegau yn dweud pa gyfran o'r bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw sydd mewn llety addas. Dengys yr ystadegau cyfredol, gyda nifer fach o eithriadau, fod 95% a mwy o'r hachosion wedi eu lletya'n addas. Mae'n amlwg fod hyn yn celu amrywiaeth helaeth o ran safon a math o lety a ddarperir.

- Cynhyrchwyd adroddiad cynhwysfawr yn ddiweddar gan NACRO Cymru ar gyfer y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid o fewn y Cynulliad. Mae'r adroddiad yn cynnig amrywiaeth o argymhellion parthed gwella gwaith ar y cyd a'r cyflenwad o lety ar gyfer troseddwyr ifanc yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu Atodiad manwl sy'n dangos pa lety a ddefnyddir gan Dimau Troseddu Ieuenctid ym mhob ardal. Mae'r llety a ddefnyddir yn cynnwys bron bob un o'r mathau o ddarpariaeth a restrir yn y deipoleg, gydag amrywiaeth sylweddol o safbwynt yr amrediad o fodelau a ddefnyddir gan wahanol awdurdodau lleol

4.6.20 Sefydlwyd fforwm genedlaethol ar gyfer swyddogion Timau Troseddu Ieuenctid, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Cynulliad yn ddiweddar er mwyn gwella gwaith partneriaeth yn y maes hwn.

**Gwaith partneriaeth**

Cymeradwywyd Cyngor Dinas Manceinion gan y Comsiwn Archwiliad am gysylltiadau da rhwng Connexions, Surestart, Homestart, Cynghori Tai Manceinion, ymwelwyr iechyd, gweithwyr ieuenctid, Canolfan Byd Gwaith a darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl. Roedd y cysylltiadau hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc mewn perygl.

[Ffynhonnell: Adroddiad Arolygu Cefnogi Pobl Cyngor Dinas Manceinion, Awst 2004]

**Gwasanaeth cyfannol**

Cymerodd Cyngor Dinas Birmingham St Basils yn bartner mewn cynllun peilot Project Atal Digartrefedd yn 2004 mewn ardal neilltuol o'r ddinas lle roedd lefelau uchel o bobl ifanc yn datgan eu bod yn ddigartref. Aeth y project ati mewn pedair ffordd:

- Asesiadau Opsiynau Cartref a wnaed gan staff St Basils
- mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant a chefnogaeth sgiliau ar gyfer pobl ifanc
- sesiwynau ymwybyddiaeth mewn ysgolion lleol gyda staff St Basils ac addysgwyr o gymheiriaid
- cyfryngu a chefnogaeth i deuluoedd

Yn sgîl y cynllun peilot, gweithredwyd y project ledled y ddinas. Mae gan St Basils weithwyr cynllunio Llwybr hefyd sy'n gweithio'n llawn-amser gyda'r gwasanaeth Troseddu Ieuenctid yn darparu opsiynau tai a llwybrau tai cynlluniedig at gyfer pob troseddwr ifanc sydd â phroblemau llety. Cyflenwir y gwasanaeth gydag un gwely brys a gyllidir gan y gwasanaeth

Troseddu Ieuenctid. Vellach, nid oes rhaid i'r un person ifanc yn Birmingham aros yn y ddalfa ddim ond oherwydd diffyg llety. Mae St Basils wrthi'n gweithio gyda'r gwasanaeth Ymadael â Gofal i wella llwybrau tuag at lety ar gyfer rhai sy'n ymadael â gofal.

Yn ystod 2005/06, gwelodd St Basils 262 o bobl ifanc ac atal 92% ohonynt rhag mynd yn ddigartref a gorfod ceisio llety brys.

[Ffynhonnell: St Basils]

**Pwyntiau allweddol: effeithioldeb y ddarpariaeth**

- Gallai pobl ifanc sydd dros 18 oed sydd heb anghenion cymhleth symud yn gyflym tuag at fyw'n annibynnol pe bai llety addas ar gael, er ei bod yn debyg y byddai angen cefnogaeth arnynt gyda sgiliau bywyd

- Gallai pobl sydd â hanes o drais gael eu cefnogi mewn llety un-safle cyhyd â bod y systemau atgyfeirio, asesu, polisïau a threfniadaeth, sgiliau, gallu i ymdopi a nifer y staff yn ddigonol i ateb anghenion y person, a bod y gymysgedd gyfredol o bobl yn y llety yn cael ei ystyried yn y modd priodol

- Mae angen ystyried gwasanaethau nad ydynt ar un safle, fel allgyrch pendant, yn achos pobl sydd â lefel uchel o anghenion cymhleth ac sy'n berygl. Oni roddir ystyriaeth i'r broblem hon, bydd pobl yn y pen draw yn cael eu heithrio o wasanaethau ac, yn niffyg dim byd arall, yn parhau i ddefnyddio llety gwely a brecwast

- Mae yna ddiffyg gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig gwasanaethau lleol neu ranbarthol fel dadwenwyno, gwasanaethau iechyd meddwl a llefydd mewn cyfleusterau diogel/carchar ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru

- Ni chymeradwyir gwasanaethau un-safle ar gyfer grwpiau penodol o gleientiaid (e.e. rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, rhai ag afiechyd meddwl a throseddu). Ystyrir fod gwasanaethau o'r fath yn syniad gwael am eu bod yn anodd eu rheoli a'r canlyniad yw ynysu pobl, eu cadw ar wahân a'u llyffetheirio'n fwy fyth. Yr unig eithriad i hyn yw pobl ifanc sydd wedi dioddef camdriniaeth

- Ni ddylai pobl ifanc sydd dros 18 oed gael eu derbyn i mewn i hostel i oedolion onid oes yno system asesu braff, dyluniad sy'n caniatáu mesur o gadw ar wahân a staffio 24 awr

- Mae angen datblygu darpariaeth frys (un-safle a heb fod ar un safle) ym mhob awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc ddigartref 16 – 18 oed

- Gall cyd-gefnogaeth mewn llety a rennir fod yn fuddiol, ond mae angen datblygu'r agwedd hon a'i rheoli ar sail cynllun pendant, a chyfuno hynny â'r gallu i fanteisio ar weithgareddau hamdden a chyfleoedd dysgu prif-ffrwd

- Mae angen amrywiaeth o fathau o lety ac opsiynau cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ym mhob awdurdod lleol

- Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am gost effeithioldeb y gwahanol fathau o lety a chefnogaeth. Fodd bynnag, credir bod nifer o wasanaethau yn cynnig gwerth da am arian – cymorth hyblyg, gwasanaethau cyfryngu, gwasanaethau lletya ar aelwyd â chefnogaeth a chynlluniau un-safle dros-dro

- Ychydig o ddata sydd ar gael am y canlyniadau o safbwynt defnyddwyr y gwasanaethau, ac nid oes yr un system sy'n cael ei defnyddio'n gyson ledled Cymru. Lle mae systemau mesur canlyniadau yn bodoli, maent yn tueddu i fod yn benodol i'r sefydliad hwnnw

- Mae nifer o broblemau sy'n ei gwneud hi'n anodd datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref mewn ardaloedd gwledig. Mae gwasanaethau graddfa-fach, annibynnol yn gweithio'n dda yn yr ardaloedd hynny, yn ogystal â gwasanaethau eraill heb fod ynghlwm wrth safle, fel lletya ar aelwyd â chefnogaeth a chymorth hyblyg

- Mae darpariaeth un-safle yn anodd i'w ddatblygu oherwydd 'nimby'aeth a/neu ddiffyg ymrwymiad corfforaethol, ac anawsterau gyda sicrhau caniatâd cynllunio

- Mae nifer o broblemau gweithredu sy'n amharu ar effeithioldeb gwasanaethau, e.e.:

    - anghydweddiad rhwng anghenion a math o wasanaeth
    - prosesau mynediad ac asesu
    - diffyg llety symud-ymlaen
    - gallu a sgiliau'r gweithlu
    - diffyg gwaith partneriaeth effeithiol

- Pan fydd pobl yn sôn am effeithioldeb gwasanaethau maent yn debycach o grybwyll problemau gweithredol yn hytrach na phroblemau'n gysylltiedig â modelau neilltuol o lety a chefnogaeth. Mae'r pethau hyn y gysylltiedig gan y gall problemau godi am nad oes mathau neilltuol o ddarpariaeth ar gael, ond gallant hefyd ddeillio o atgyfeirio gwael neu brosesau atgyfeirio ac asesu gwan

- Mae angen i'r sector ddarparu ddatblygu ac ehangu sgiliau ei weithlu i ateb anghenion neilltuol fel camddefnyddio sylweddau ac afiechyd meddwl a/neu allu galw ar gefnogaeth o ansawdd dda gan wasanaethau arbenigol eraill yn y sectorau gwirfoddol a statudol

- Gall gwaith partneriaeth gwael ar lefel yr awdurdod lleol arwain at eithrio pobl ifanc sengl ddigartref o wasanaethau yn y lle cyntaf (e.e. oherwydd fod gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau plant yn methu cytuno ar bwy sy'n gyfrifol am ateb anghenion unigolyn). Gall anghenion y bobl ifanc hynny fod yn anweledig nes iddynt ymddangos fel oedolion â set o broblemau gwaeth byth.

## 5 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

### 5.1 Casgliadau

5.1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ceisio nodi'r amrywiaeth o anghenion sydd gan bobl ifanc sengl ddigartref a'r mathau o lety sydd ar gael i ateb yr anghenion hynny. Mae hefyd wedi ystyried problemau sy'n amharu ar gynllunio a gweithredu'r fath wasanaethau. Mae pennod derfynol yr adroddiad yn nodi casgliadau allweddol ac yn cynnig argymhellion ar gyfer gwella'r sefyllfa bresennol.

***Cyd-destun***

5.1.2 Ar hyn o bryd, mae cryn bwyslais ar ddatblygu polisi ar gyfer pobl ifanc ac ynglŷn â nhw, ar lefel y DU, Cymru a Lloegr. Mae fframweithiau polisi ieuenctid yn gyfuniad o ffyrdd hollgyffredinol o fynd ati a rhai wedi eu targedu, gyda mwy o bwyslais ar ddulliau hollgyffredinol yng Nghymru. Cafodd datblygiad polisi mewn perthynas â digartrefedd ieuenctid sylw mawr hefyd. Bydd darpariaeth a defnydd mwy effeithiol o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau polisi cenedlaethol yng Nghymru a'r targedau digartrefedd cysylltiedig.

***Anghenion***

5.1.3 Mae anghenion pobl ifanc sengl ddigartref yn amrywiol ac yn ddynamig, ac nid ydynt bob amser yn cael eu hystyried ar wahan i anghenion pobl sengl ddigartref yn eu crynswth. Mae Tabl 1 ym mhennod 3 yn crynhoi sbectrwm o anghenion gyda gwybodaeth ynglŷn â sefyllfaoedd byw blaenorol a'r problemau y gall fod angen cefnogaeth ar eu cyfer, ar y cychwyn cyntaf ac yn y tymor hwy. Gall pobl ifanc symud yn gyflym o'r naill gategori i'r llall.

5.1.4 Mae gan gyfran o bobl ifanc sengl ddigartref lefel isel o anghenion. Wrth i'r anghenion fynd yn fwy cymhleth, mae'n bwysig mynd i'r afael â phroblemau fel camddefnyddio sylweddau, camdriniaeth ac/neu iechyd meddwl gwael yn ogystal â sgiliau bywyd. Yn ychwanegol at hyn oll, mae cydweithio rhwng asiantaethau yn mynd yn bwysicach, mae asesu risg yn effeithiol a rheoli risg yn hollbwysig, ac mae mwy o angen continwwm neu sbectrwm o wasanaethau y gall pobl ifanc symud o'u mewn. Gall anghenion rhai 16 a 17 oed fod yn wahanol iawn i eiddo rhai 18-24 oed. Mae'n ddadl yng Nghymru ar hyn o bryd ynglŷn ag a ddylid cael pobl ifanc yn fwriadol ddigartref. Mae dadl o blaid dileu'r syniad o fwriad gan roi lle i bobl ifanc ddysgu oddi wrth eu camgymeriadau heb gael eu cosbi. Fodd bynnag, oni chaiff gwendidau eraill yn y system eu dileu, gallai dileu bwriad ar gyfer y grŵp oedran hwn wneud dim mwy na chreu drws tro i mewn i system nad yw, o safbwynt y rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth, yn darparu llety a chefnogaeth addas. Nid yw dileu'r syniad o fwriad yn ateb i holl broblemau ymdrin yn effeithiol â digartrefedd ieuenctid yng Nghymru.

***Y ddarpariaeth***

5.1.5 Mae'r deipoleg o fodelau o lety a gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc sengl ddigartref a geir yn Nhabl 2 ym mhennod 3 yn cynnwys y mwyafrif o'r mathau o ddarpariaeth sydd ar gael yn y DU ar hyn o bryd. Mae'r deipoleg yn nodi un ar hugain

o fathau o ddarpariaeth o fewn pum categori. Mae’r deipoleg yn cynnwys gwybodaeth am y llety ei hun, lefel a natur y gefnogaeth a ddarperir, llwybrau atgyfeirio nodweddiadol, hyd yr arhosiad, a’r broses o symud ymlaen.

5.1.6 Mae bylchau sylwedol yn narpariaeth Cymru o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref, yn enwedig darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth, darpariaeth frys, ac mae diffyg cyfleusterau carchar/diogel yng Nghymru. Gall problemau amseru amharu ar y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy’n cael eu rhyddhau o’r carchar (h.y. dichon fod llety addas a chefnogaeth yn bodoli, ond heb fod lle ar gael yr union adeg y mae ei angen).

5.1.7 Mae’r proffil o’r gwasanaethau a ddarperir mewn dwy ardal (y naill yn drefol, y llall yn wledig) yn dangos fod lleoliad a ffactorau daearyddol yn hanfodol o ran pennu sut y mae gwasanaethau’n cael eu darparu. Gall yr hyn sy’n gweithio’n dda mewn lleoliad trefol fod yn amhriodol neu’n anodd iawn ei ddarparu mewn lleoliad gwledig.

5.1.8 Yn y rhan fwyaf o fathau o wasanaeth, nid oes cydberthynas glir rhwng y model llety a’r anghenion y darperir ar eu cyfer yn y math neilltuol hwnnw o wasanaeth.

***Effeithioldeb***

5.1.9 Dylid gallu cynnig amrywiaeth o wasanaethau i bobl ifanc sengl ddigartref er mwyn i’r ddarpariaeth gael ei harwain gan angen ac i bobl ifanc gael rhywfaint o ddewis. Roedd yr angen am amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer y grŵp yma o gleieintiaid yn un o ganlyniadau ymchwil yn yr Alban a fu’n gwerthuso project unigol ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref: ‘*dim ond un gwasanaeth ydyw y dylid ei leoli o fewn rhwydwaith strategol ehangach o wasanaethau ac adnoddau’* (Communities Scotland, 2007).

5.1.10 Un o gasgliadau canolog yr ymchwil hon yw fod angen ffyrdd penodol o ymateb i anghenion pobl ifanc â’r lefelau isaf ac uchaf o anghenion am lety a chefnogaeth. Bydd darparu llety a chefnogaeth addas ar gyfer y rhai â’r lefelau isaf ac uchaf o anghenion yn caniatáu i’r bobl ifanc hynny sydd rhwng y ddau begwn hyn i gael gwell mynediad i’r gwasanaethau presennol a chael eu hanghenion wedi eu diwallu ganddynt. Gallai pobl ifanc dros 18 oed â lefel isel o anghenion symud yn gyflym drwy’r gwasanaethau, a bwrw bod digon o lety addas ar gael ar gyfer pobl sengl.

5.1.11 Drwy ddadansoddi’r defnydd a wneir o’r gwasanaethau presennol, a’r tueddiadau datblygu o fewn y gwasanaethau hyn, gallasom nodi pa fathau o wasanaeth sydd yn fwyaf effeithiol mewn gwahanol leoliadau daearyddol. Mae’n amlwg yr amharir ar effeithioldeb gwasanaethau mewn rhai ardaloedd oherwydd problemau gweithredol fel anghydweddiad anghenion â gwasanaethau, prosesau mynediad ac asesu gwael, gallu a sgiliau’r gweithlu, gwaith partneriaeth aneffeithiol a diffyg llety symud-ymlaen.

5.1.12 Ar hyn o bryd, mae yna ddiffyg mecanwaith y cytunwyd arno i werthuso effeithioldeb gwahanol fathau o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref, naill ai o safbwynt cost effeithioldeb nac o safbwynt y canlyniadau i bobl ifanc. Mae’n bwysig ystyried effeithioldeb y ddarpariaeth gyflawn ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref mewn ardal neilltuol yn ogystal ag effeithioldeb projectau neu gynlluniau unigol.

## 5.2 Argymhellion

5.2.1 Rydym yn argymell y dylai comisiynwyr a darparwyr gwasnaethau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref ddefnyddio'r sbectrwm o angen a'r deipoleg a ddarperir ym mhennod 3 o'r adroddiad hwn i ddadansoddi'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid yn eu hardal nhw.

5.2.2 Ceir argymhellion pellach isod, o dan gyfres o benawdau.

***Sicrhau'r amrediad priodol o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref***

Dylai comisiynwyr a'u partneriaid:

- geisio creu amrywiaeth o opsiynau llety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref yn eu hardal. Rhaid i'r amrediad neilltuol a ddatblygir mewn unrhyw ardal ddal i lynu'n glos wrth y dystiolaeth o angen a gasglwyd gan y tîm Cefnogi Pobl (gan mwyaf, ond gyda rhai eithriadau)

- sicrhau y datblygir llety brys penodol ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed fel na fydd yn rhaid iddynt gael eu lletya mewn hostel i oedolion. Gallai'r llety hwn fod yn dŷ bychan wedi ei rannu, yn ddarpariaeth craidd a chlwster, cymorth hyblyg neu wasanaeth lletya ar aelwyd â chefnogaeth

- osgoi, lle bynnag y bo modd, datblygu gwasnaethau seiliedig ar lety sy'n ymdrin â phroblem benodol ar gyfer pobl ifanc (e.e. ar gyfer pobl ifanc sy'n ymddwyn yn droseddol, sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac ati) ac eithrio pan fo'r gwasanaethau hynny ar gyfer pobl ifanc sydd wedi dioddef camdriniaeth, ac yn rhai un-rhyw. Os penderfyna sefydliadau ddatblygu'r fath wasanaethau, dylent fod yn wasanaethau heb fod yn gysylltiedig ag un safle (h.y. g wasanaethau cymorth hyblyg).

- sicrhau fod tai wedi eu rhannu ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref mor effeithiol ag sy'n bosibl drwy beidio â gorddibynnu ar y math hwn o ddarpariaeth. Yn hanesyddol, ystyrir tai wedi eu rhannu yn gonglfaen y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ond mae'r gwasanaeth yn fwyaf effeithiol pan fydd yn bodoli/yn cael ei ddatblygu fel rhan o amrediad o ddarpariaethau mewn ardal

- ystyried datblygu, neu ehangu, cynlluniau lletya ar aelwyd â chefnogaeth y gellir eu defnyddio ar gyfer arhosiad byr iawn, tebyg i lety argyfwng (e.e. tra bod prosesau asesu neu gyfryngu yn mynd rhagddynt) ac ar gyfer arosiadau tymor-hwy fel y bo'n briodol

- edrych yn fwy creadigol ar opsiynau i ddatblygu gwasanaethau sy'n osgoi gorfod ceisio caniatâd cynllunio, fel defnyddio llety anghenion cyffredinol i ddarparu llety wedi ei rannu ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref ag anghenion lefel-isel.

***Cau'r bylchau yn y ddarpariaeth***

- Dylai Llywodraeth y Cynulliad archwilio'r drefn gyllido bresennol er mwyn ymdrin â'r bylchau cyfredol mewn gwasanaethau, yn cynnwys:

- sicrhau y gall cyfleusterau un-safle brys (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc 16-18) gael eu datblygu a'u bod yn ymarferol yn ariannol (e.e. drwy gyfrwng pennu tarfiff Grant Refiniw Cefnogi Pobl uwch yn benodol i'r diben hwn, neu drwy i Lywodraeth y Cynulliad ddatgan ei bod yn disgwyl i wasanaethau cymdeithasol gefnogi'r fath wasanaethau ar gyfer pobl ifanc mae arnynt ddyletswydd iddynt)

- annog cynllunio rhanbarthol a gweithgaredd comisiynu er mwyn ateb anghenion pobl ifanc sy'n mynd yn ddigartref a sicrhau bod y fath weithgaredd yn cael ei fonitro

- ehangu cynllluniau lletya ar aelwyd â chefnogaeth a gwneud mwy o ddefnydd ohonynt (e.e. ar gyfer arosiadau brys ac ar gyfer pobl â lefel uchel o anghenion cymhleth) drwy ddatblygu systemau cyllido (drwy gyfrwng Grant Refiniw Cefnogi Pobl neu'r gwasanaethau cymdeithasol) a fydd yn sicrhau fod pobl sy'n darparu'r fath lefydd yn cael eu gwobrwyo'n ariannol i raddau sydd o leiaf yn gymesur â'r hyn a delir i ofalwyr maeth

- Dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu grŵp llywio aml-ddisgyblaeth i ystyried sut y gellir ateb anghenion pobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth (h.y. fel a ddangosir yn adran 4 o Dabl 1). Mae Atodiad 5 yn rhoi gorolwg o sefydliadau a allai fod yn rhan o'r grŵp hwn a sut y gallai weithio. I grynhoi, dylai'r grŵp ganolbwyntio ar dri maes:

    - gwneud arolwg o'r anghenion er mwyn cael syniad o'r niferoedd o bobl ifanc sy'n dod o fewn y categori hwn (arolwg ar sail genedlaethol ond gan gofnodi'r canlyniadau fesul rhanbarth)
    - ymchwilio i wasanaethau a allai ateb yr anghenion hyn
    - goruchwylio cynllunio peilot gyda modelau newydd o ddarpariaeth, yn enwedig y model allgyrch pendant, a gwerthuso'r rhain

  Yr ydym o'r farn y dylai'r argymhelliad hwn fod yn rhan o'r cynllun 10-mlynedd i ymdrin â digartrefedd yr ymrwymwyd iddo yn y ddogfen ***Cymru'n Un***. Mae angen gweithredu ar y cyd â ffocws i ateb anghenion y bobl ifanc ddigartref sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth

- Ynghyd â darparwyr yn eu hardaloedd, dylai comisynwyr fod yn fwy ymwybodol o bobl ifanc â lefel uchel o anghenion cymhleth a datblygu systemau i gasglu gwybodaeth ynglŷn â niferoedd a nodweddion a theithiau tai y grŵp hwn. Bydd hyn yn ofynnol crynhoi amrywiaeth o wybodaeth a data, yn cynnwys gwybodaeth gan Cefnogi Pobl a gwybodaeth o fonitro digartrefedd

- Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fynd i'r afael ag anawsterau datblygu darpariaeth un-safle ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref. Yn y cyswllt hwn, dylid ystyried rhoi cyhoeddusrwydd i'r canllawiau a geir yn yr adroddiad a gynhychwyd gan Epona ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd (Epona, 2002) (a datblygu'r canllawiau hyn ymhellach, o bosib, i adlewyrchu'r cyd-destun cyfredol).

### *Cydweddu anghenion a mathau o ddarpariaeth*

Dylai darparwyr a'u partneriaid weithio gyda'i gilydd i:

- sicrhau na fydd pobl ifanc ddigartref dros 18 yn cael eu lletya mewn hosteli oedrannau-cymysg onid oes gan y rheini brosesau asesu a rheolaeth risg praff, a lle y gall cynllun yr adeilad sicrhau diogelwch a lles pobl ifanc

- osgoi rhoi pobl â lefel isel o anghenion sylfaenol (rhif 1 Tabl 1) mewn hostel neu ddarpariaeth wedi ei rhannu ac yn hytrach, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, defnyddio llety ar aelwyd â chefnogaeth a chymorth hyblyg fel y gallant dderbyn cefnogaeth wedi ei thargedu i'w galluogi i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol yn y gymuned

- sicrhau fod gwneud defnydd pragmatig o wasanaethau lle nad oes gwasanaeth amgen ar gae ar gyfer person ifanc yn thema gyson wrth feddwl yn strategol am y ddarpariaeth sydd ar gael yn y cylch (h.y. mae defnyddio gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc â lefel uwch o anghenion nag y bwriadwyd i'r gwasanaeth ddelio â nhw dro ar ôl tro yn awgrymu diffyg darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth)

- edrych ar ffyrdd o ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli ymhlith darparwyr arbenigol i ddysgu sgiliau (e.e. iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau) i ddarparwyr cefnogaeth gyffredinolaidd sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

### *Ardaloedd gwledig*

Mewn ardaloedd gwledig, dylai comisiynwyr:

- sicrhau fod gwasanaethau pobl ifanc yn canolbwyntio llai ar ddarpariaeth un-safle, bwrpasol ac yn lle hynny, yn datblygu gwasanaethau a all fod yn hyblyg ac sy'n ymateb i anghenion ar lefel ddaearyddol, fel gwasanaethau lletya ar aelwyd â chefnogaeth, cymorth hyblyg a darpariaeth craidd a chlwster

- weithio ar sail ranbarthol i ddatblygu gwasanaethau ar draws ffiniau i fanteisio ar arbedion maint o ran costau rheoli, a chan gydnabod y ffaith y gall symudiadau pobl ifanc yn hawdd iawn groesi ffiniau awdurdodau.

### *Mynediad i wasanaethau*

- Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu canllawiau, a hyrwyddo arfer da, parthed sut y mae anghenion llety a chefnogaeth pobl ifanc a ddiffinir fel plant mewn angen, yn cael eu hasesu a'u diwallu ar lefel leol; y brif nod fydd i awdurdodau lleol gynnal perthynas barhaus gyda phobl ifanc o'r fath, a'u hasesu o dan y Ddeddf Plant yn hytrach nag o dan y ddeddfwriaeth ddigartref

- Dylai darparwyr wneud yn siwr fod ganddynt lwybrau cymhwysedd, mynediad ac asesu clir sy'n galluogi gwasanaethau i ddarparu ar gyfer yr anghenion y bwriedid iddynt wneud, ac osgoi anghydweddiad rhwng anghenion a math o wasanaeth

- Dylai mynediad i wasanaethau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth fod yn seiliedig ar asesiad manwl, yn cynnwys asesiad risg praff

- Dylai darparwyr a chomisiynwyr sicrhau fod darpariaeth ar gyfer asesu pobl ifanc ag anghenion cymhleth yn fanwl tra'u bod mewn llety priodol (e.e. yn lletya ar aelwyd â chefnogaeth, neu yn y model SAFE a ddisgrifir yn Atodiad 4)

***Symud ymlaen o wasanaethau***

- Dylai comisiynwyr a darparwyr gydweithio i gynyddu'r gyfran o eiddo cymdeithasol sydd ar gael i'w rentu i bobl ifanc sydd am symud ymlaen o lety â chefnogaeth

- Dylai comisiynwyr a darparwyr gydweithio'n glos gyda thimau tai strategol awdurdodau lleol i bwysleisio'r angen am ddatblygu mwy o unedau un-person

- Dylai comisiynwyr, darparwyr, timau tai sector preifat a thimau tai strategol weithio'n greadigol i ddatblygu cysylltiadau gyda landlordiaid yn y sector preifat i hwyluso mynediad i'r sector rhentu preifat ar gyfer pobl ifanc lle bo hynny'n briodol

- Dylai darparwyr weithio i leihau'r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag symud ymlaen, e.e. ystyried defnyddio cytundebau deiliadaeth priodol a gweithio mewn partneriaeth.

***Gwasanaethau monitro a gwerthuso***

- Dylai Llywodraeth y Cynulliad hwyluso sefydlu system gynhwysfawr a phraff o werthuso effeithioldeb y gwahanol fathau o lety a chefnogaeth a ddarperir ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref a sicrhau fod systemau rheoliadol yn goruchwylio'r mater hwn. Dylai system o'r fath gyfeirio'n uniongyrchol at y nodau cenedlaethol a bennwyd ac ystyried y canlyniadau o ran pobl ifanc a gwerth am arian. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth y Cynulliad elwa ar brofiad sefydliadau fel Cymorth Cymru a darparwyr cefnogaeth sydd wedi datblygu eu systemau eu hunain i fonitro canlyniadau

- Ar lefel leol, dylai gwybodaeth ynglŷn ag effeithioldeb gwasanaethau llety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref o safbwynt gwerth am arian a'r canlyniadau a sicrheir ddylanwadu ar benderfyniadau comisiynu

  Mae Atodiad 6 yn manylu ymhellach ar fonitro a gwerthuso gwasanaethau.

***Ymchwil bellach***

- Mae'r ymchwil hon wedi nodi dau faes sy'n teilyngu archwiliad pellach:

    - archwilio'r cysylltiadau rhwng ymadawyr â gofal a phuteindra yng Nghymru er mwyn dod i ddeall anghenion y grŵp hwn am gefnogaeth a llety ac ymyriadau effeithiol i fynd i'r afael â'r broblem hon

- canfod hyd a lled y defnydd o wasanaethau carchar a chyfleusterau diogel ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru er mwyn cynhyrchu argymhellion a chanllawiau ar gyfer ateb anghenion y grŵp hwn am lety a chefnogaeth yn effeithiol, gyda'r nod o'u hailgyfuno â chymdeithas brif-ffrwd. Dylai ymchwil o'r fath geisio asesu effaith eu rhoi mewn lleoliadau diogel y tu allan i Gymru ar y bobl ifanc, ac ystyried a ddylid sefydlu mwy o gyfleusterau yng Nghymru.

**Atodiad 1 Llyfryddiaeth**

***Y llenyddiaeth a adolygwyd er mwyn canfod yr amrediad o anghenion a mathau o ddarpariaeth***


Adroddiadau adrannau llywodraeth

Yr Adran Iechyd, DTLR, Centrepoint (2002) ***Care leaving strategies***

Biwro Cenedlaethol y Plant/Yr Uned Cysgwyr Allan/Yr Adran Iechyd (2000) ***Audit and Assessment of Leaving Care Services in London***

ODPM 2003 ***Supporting People Guide to Housing and Support Options for Homeless Households***

ODPM 2003 ***Reducing GaB use and tackling homelessness – what's working***

ODPM 2004 ***Local Authorities' Homelessness Strategies – Evaluation and Good Practice***

ODPM 2005 ***Transitions: Young Adults with Complex Needs. A Social Exclusion Unit Final Report***

Llywodraeth y Cynulliad (2005) ***Y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd 2006-08***

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2000) ***Advice on Accommodation***

Ymchwil ac adroddiadau eraill

Y Ganolfan Polisi Tai, Prifysgol Efrog (2004) ***The Safe Moves Initiative: An Evaluation***

Y Ganolfan Polisi Tai, Prifysgol Efrog (dim dyddiad) ***Housing Vulnerable Single Homeless People***

Centrepoint (2005) ***Bed and breakfast: unfit housing for pobl ifanc***

Centrepoint (2004) ***New approaches to youth homelessness prevention***

Char (1996) ***We don't choose to be homeless – the inquiry into preventing youth homelessness***

Yr Uned Ymchwil Diogelwch Cymunedol, Prifysgol Northumbria (dim dyddiad) ***A review of local authority homelessness strategies and youth homelessness in Northumberland and Tyne and Wear***

Crisis (1999) ***A future foretold: new approaches to meeting the long-term needs of single homeless people***

Crisis (2001) ***Trouble at Home: family conflict, young people and homelessness***

Cymdeithas Caer Las (2000) ***Breaking Down Barriers: meeting housing and support needs in Swansea, Neath Port Talbot, Bridgend and Carmarthenshire***

Emmaus (dim dyddiad) ***Emmaus in the UK: Building on Success***

Epona (2000) ***The provision of floating support services for people experiencing mental ill health in Powys: A feasibility study***

Epona (2001) ***Stepping up to independence: the views of 16-25 year olds on the development of a foyer in Machynlleth***

Epona (2002) ***Location, Location, Location – the planning and siting of specialist homelessness provision – a report for Newport CBC***

Epona (2004) ***Debates and directions – identifying options to meet the support and housing needs of drug and alcohol using clients in Pembrokeshire***

Foyer Federation (2003) ***Dispersed foyers: a research study***

Y Gorfforaeth Tai/ Ffederasiwn Tai Llundain (dim dyddiad) ***Models of Shared Living: the potential to develop unsupported shared housing for people leaving temporary supported housing***

Sefydliad Joseph Rowntree (2000) ***Research on single homelessness in Britain***

Y Sefydliad Iechyd Meddwl/Centrepoint (2006) ***Making the link between iechyd meddwl and youth homelessness: a pan London study***

Y Sefydliad Iechyd Meddwl (2002) ***The iechyd meddwl needs of homeless young people***

Safe in the City (2000) ***Staying Safe: preventing youth homelessness through early intervention programmes***

Llywodraeth yr Alban (2006) ***Intentionally Homeless Households in Scotland – Accommodation and Support Needs***

Rhwydwaith Tai Ieuenctid yr Alban (2000) ***Young Homeless People – speaking for themselves***

St Mungo’s, Thames Reach a Bondway (2000) ***Single Homeless People in London: Profiles of Service users and perceptions of needs***

Prifysgol Brighton (2006) ***Out on my own: understanding the experiences and needs of homeless lesbian, gay, bisexual and transgender youth***

Llywodraeth y Cynulliad (2006) ***Costau a Buddiannau’r Rhaglen Cefnogi Pobl***

Llenyddiaeth o UDA, Ewrop ac Awstralia

AHURI Research and Policy Bulletin (2006) ***Youth homelessness in rural Australia***

National Alliance to End Homelessness (dim dyddiad) ***Fundamental Issues to Prevent and End Youth Homelessness***

National Center for Homeless Education (dim dyddiad) ***Unaccompanied and Homeless Youth Review of Literature (1995-2005)***

National Youth Affairs Research Scheme (1996) ***Homelessness among pobl ifanc in Australia: early intervention and prevention – a report to the National Youth Affairs Research Scheme***

US Department of Housing and Urban Development Office of Policy Development and Research (2002) ***Evaluation of Continuums of Care for Homeless People Final Report***

Gwybodaeth am brojectau unigol :

Connecticut Department of Children and Families Housing Continuum
Illinois Department of Children and Families Youth Housing Assistance Program
Lighthouse Youth Services Housing Continuum
Cocoon House and Complex, Everett, WA

***Llenyddiaeth arall***

Aberlour Child Care Trust (dim dyddiad) ***Missing Out – Young Runaways in Scotland***

Communities and Local Government (2007) ***Tackling Youth Homelessness Policy Briefing 18***

Communities Scotland (2007) ***A longitudinal evaluation of the Drumchapel Supported Youth Housing Project***

Department for Education and Skills (2006) ***Care Matters: Transforming the Lives of Children and Young People in Care***

HM Treasury (2007a) ***Policy review of children and young people: a discussion paper***

HM Treasury (2007b) ***Aiming high for children: supporting families***

Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol (Mehefin 2007) ***Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru***

Maguire M, Hutson S a Nolan J (2007) ***Accommodation for ex-prisoners in the South West region***

NACRO Cymru (2005) ***Youth Offending Unit Report – Youth Offending Teams, Young People and Accommodation***

Y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (2006) ***Cydgysylltu yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer Oedolion a Phobl Ifanc i Ostwng Aildroseddu***

Rainer (2007) ***Home Alone: Housing and Support for Young People Leaving Care***

Llywodraeth yr Alban (2007a) ***A Literature Review on Multiple and Complex Needs***

Llywodraeth yr Alban (2007b) ***Review of Research on Vulnerable Young People and Their Transitions to Independent Living***

UNICEF (2007) ***Child poverty in perspective: An overview of child well-being in rich countries***

Llywodraeth y Cynulliad (2003) ***Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Tai a Digartrefedd***

Llywodraeth y Cynulliad (2004) ***Ymestyn Hawliau – Creu Gweledigaethau o Ymarfer Effeithiol i Bobl Ifanc Yng Nghymru***

Llywodraeth y Cynulliad (dim dyddiad) ***Dyfodol Teg i'n Plant Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant***

Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth y Cynulliad (2006) ***Arolwg Polisi o Ddigartrefedd Ieuenctid***

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2004) ***All Wales Youth Offending Strategy***

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2006) ***Suitable, Sustainable, Supported: A Strategy to ensure provision of accommodation for children and young people who offend***

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2007) ***Housing Needs and Experiences***

**Atodiad 2**

**Mathau o lety a chefnogaeth: ffurflen ar gyfer yr arolwg o'r llenyddiaeth**

| Darparwyd enw'r project/fenter a'r sefydliad(au) gan | Math o lety/ cefnogaeth (cyfeirier at y deipoleg isod) | Natur y llety | Lefel a natur y gefnogaeth, yr oruchwyliaeth a'r ymyriad a ddarperir | Llwybrau atgyfeirio nodweddiadol, hyd arhosiad, trefniadau symud ymlaen (yn cynnwys i ble mae pobl ifanc yn symud ymlaen) | Dogfen/gwefan ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Tytiolaeth o effeithioldeb gwahanol fathau o lety a chefnogaeth: ffurflen ar gyfer yr arolwg o'r llenyddiaeth**

| Darparwyd enw'r project/fenter a'r sefydliad(au) gan | Tystiolaeth – pa mor addas o safbwynt person ifanc | Tystiolaeth – canlyniadau positif/arall | Tystiolaeth - cost effeithioldeb | Tystiolaeth – barn budd-ddeiliaid am effeithioldeb | Dogfen ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Anghenion pobl ifanc sengl ddigartref: ffurflen ar gyfer yr arolwg o'r llenyddiaeth**

| Dogfen ffynhonnell | A nodir anghenion pobl ifanc (16-24 neu unrhyw is-grŵp o'r cylch oedran yma) sengl ddigartref (h.y. a wahaniaethir rhyngddynt â'r wybodaeth ar bobl sengl ddigartref yn gyffredinol?) A ddarperir unrhyw ddadansoddiad o anghenion, unrhyw ddata? | A gyfeirir at fater anghenion cymhleth/lluosog y grŵp hwn o gleientiaid? ?) A ddarperir unrhyw ddadansoddiad o anghenion lluosog, unrhyw ddata? | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Atodiad 3 Bylchau yn y ddarpariaeth a nodwyd mewn Strategaethau Digartrefedd a Chynlluniau Gweithredu Cefnogi Pobl yng Nghymru**

Adolygwyd strategaethau digartrefedd gan bob un o'r 22 awdurdod lleol ond nid oedd pob un ohonynt yn cynnwys gwybodaeth berthnasol. Adolygwyd Cynlluniau Gweithredu Cefnogi Pobl sampl o 11 o awdurdodau.

| Cyfeirnod yr awdurdod | Darpariaeth newydd sydd ei hangen/ tystiolaeth y Strategaeth Digartrefedd | Darpariaeth newydd sydd ei hangen/ tystiolaeth Cynllun Gweithredu Cefnogi Pobl |
|---|---|---|
| **1** | Anghenion heb eu diwallu (yn seiliedig ar farn asiantaethau)<br><br>- llety ychwanegol gyda chefnogaeth lefel-isel<br>- llety ar gyfer pobl ifanc a lefel uchel o anghenion cefnogaeth | |
| **2** | Cynnydd yn y cyflenwad o lety-dros dro â chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref ddiymgeledd | |
| **3** | Cydnabod prinder llety â chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref | |
| **4** | Cydnabod y cynnydd yn y nifer sy'n ddigartef o blith rhai 16-17 oed | |
| **5** | Nodwyd bod angen llety brys a dros-dro â chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc<br><br>Tystiolaeth o ddadansoddiad o achosion o ddigartrefedd, atgyfeiriadau at y Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymuned, a niferoedd sydd ar fin ymadael â gofal | |
| **6** | | Mae pobl ifanc ag anghenion cymhleth yn aml yn cael eu lletya y tu allan i'r sir am gost o gymaint â £3000 yr wythnos<br>Mae cyfran sylweddol o rai sy'n ymadael â gofal yn treulio amser mewn llety GaB |

| Cyfeirnod yr awdurdod | Darpariaeth newydd sydd ei hangen/ tystiolaeth y Strategaeth Digartrefedd | Darpariaeth newydd sydd ei hangen/ tystiolaeth Cynllun Gweithredu Cefnogi Pobl |
|---|---|---|
| **7** | Diffyg llety â chymorth a llety prif-ffrwd<br><br>Diffyg darpariaeth ar gyfer rhai sydd ag anghenion neilltuol o gymhleth a all fod yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl | Lletya ar aelwyd â chefnogaeth ar gyfer rhai sy'n ymadael â gofal<br>Cymorth hyblyg ar gyfer cyn-droseddwyr ifanc<br>Byw â chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc<br>Ar gyfer rhai 18-24 oed, cefnogaeth emosiynol a chwnsela oedd y gwasanaeth roedd mwyaf o'i angen arnynt<br>Ar gyfer rhai 16-17 oed, cymorth gyda sefydlu/cynnal cartref a chymorth i hawlio budd-daliadau<br>Angen datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc o dan 25 sydd â phroblemau iechyd meddwl<br>Mae gan nifer fach o rai sy'n ymadael â gofal lefel eithriadol o uchel o anghenion<br>Mae symud ymlaen yn broblem fawr i bob person sengl<br>20-30 o bobl ifanc sy'n gyfrifoldeb i'r Tîm Troseddu Ieuenctid heb lety addas |
| **8** | Angen llety dros-dro â chefnogaeth (sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd). 60% o'r rhai sy'n datgan eu bod yn ddigartref yn 16-25 oed | Pobl ifanc yw'r flaenoriaeth bennaf ar gyfer Grant Refiniw Cefnogi Pobl, gyda hostel ar gyfer pobl ifanc ddigartref ar ben y rhestr o ran cynlluniau newydd<br>Barn pobl ifanc yn awgrymu bod angen hostel ar gyfer pobl ifanc ddigartref a mwy o lefydd lletya ar aelwyd â chefnogaeth ynghyd ag amrywiaeth o lety â chefnogaeth |
| **9** | Diffyg llety brys a llety symud-ymlaen | Anodd i'r cynlluniau sy'n bodoli gefnogi pobl ifanc ag anghenion cymhleth/bywydau di-drefn<br>Angen mwy o lefydd lletya ar aelwyd â chefnogaeth ac efallai math gwarchodol o gynllun<br>Amau a yw gwasanaethau oedolion, e.e. ar gyfer pobl â phroblemau alcohol, yn addas ar gyfer pobl ifanc |

| Cyfeirnod yr awdurdod | Darpariaeth newydd sydd ei hangen/ tystiolaeth y Strategaeth Digartrefedd | Darpariaeth newydd sydd ei hangen/ tystiolaeth Cynllun Gweithredu Cefnogi Pobl |
|---|---|---|
| **10** | Cydanbod fod angen datblygu opsiynau tai a chefnogaeth drawsnewidiol | Diffyg llety â chefnogaeth ar gyfer ymadawyr â gofal a phobl ifanc sengl ddigartref (pwysleisiwyd hyn gan fforymau cynllunio)<br>Dim digon o lety addas i symud ymlaen iddo o ofal maeth/lletya ar aelwyd â chefnogaeth (pwysleisiwyd hyn gan fforymau cynllunio)<br>Hostel yn anaddas ar gyfer pobl ifanc (rheolwyr achosion gwaith cymdeithasol)<br>Diffyg darpariaeth ar gyfer pobl ifanc/ ymadawyr â gofal ag anghenion lluosog |
| **11** | Cydnabod fod angen datblygu llety â chefnogaeth | Mae'r Tîm Troseddu Ieuenctid yn datblygu strategaeth lety i ateb anghenion troseddwyr ifanc am lety a chefnogaeth yn gysylltiedig â thai<br>Angen mathau mwy addas o lety dros-dro a gwell mynediad i lety parhaol |
| **12** | Nodwyd fod angen project ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref | |
| **13** | Nodwyd bod diffyg llety mynediad uniongyrchol<br>Angen datblygu cynllun lletya ar aelwyd â chefnogaeth ar gyfer ymadawyr â gofal<br>Angen cryfhau'r llwybr drwy ddigartrefedd ar gyfer pobl ifanc | Pobl ifanc sengl ddigartref yn flaenoriaeth |
| **14** | Angen llety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref sydd â chefndir o droseddu | Nodwyd fod angen mwy o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion lefel-uchel neu gymhleth |
| **15** | Angen llety dros-dro ar gyfer rhai 16-17 oed<br>Mae 65% o rai sydd yn datgan eu hunain yn ddigartref dro ar ôl tro yn 16-25 oed | Amryw o wasanaethau yn bodoli ond nodwyd nifer o fylchau – bylchau mewn gwasanaethau hollgyffredinol, e.e. gwasanaethau iechyd meddwl, prinder llety yn gyffredinol ac ar gyfer ymadawyr ifanc â charchar, gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ddiymgeledd nad ydynt yn ffitio modelau traddodiadol |

| Cyfeirnod yr awdurdod | Darpariaeth newydd sydd ei hangen/ tystiolaeth y Strategaeth Digartrefedd | Darpariaeth newydd sydd ei hangen/ tystiolaeth Cynllun Gweithredu Cefnogi Pobl |
|---|---|---|
| **16** | Angen llety ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref<br>Ystyried yr angen am ddatblygu project lloches dros nos<br>Angen datnlygu cynlluniau llwybr ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref | |
| **17** | | Prinder llety<br>Diffyg llety symud-ymlaen<br>Gwasanaethau cymorth hyblyg cyfyngedig<br>Dim gwasanaeth ar gyfer poblifanc ddiymgeledd, risg-uchel<br>Diffyg cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref nad ydynt mewn llety â chefnogaeth<br>Dylai datblygu hostel ar wahân ar gyfer rhai 16-18 oed a 19-25 oed yn benodol, neu drwy ad-drefnu gwasanaethau presennol |
| **18** | | Cyflwynwyd gwybodaeth helaeth o'r gwaith mapio anghenion, ond dim blaenoriaeth glir o ran darpariaeth newydd |

## Atodiad 4 Enghreifftiau o fathau o wasanaethau

Darparwyd manylion pellach ynglŷn â phedwar math o wasanaeth isod am ddau reswm:

- maent yn cynrychioli gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt yng nghorff yr adroddiad fel rhai o'r bylchau yn y ddarpariaeth yng Nghymru, a nodwyd hefyd eu bod yn fathau effeithiol o wasanaeth y gellid eu defnyddio i lenwi bylchau ac ateb yr amrywiaeth o anghenion sydd gan bobl ifanc ddigartref yn fwy effeithiol, ac

- maent yn fathau o wasanaeth sydd, i wahanol raddau, yn llai cyfarwydd ac/neu yn llai sefydliedig yng Nghymru ac y maent felly'n teilyngu eglurhad pellach

Esbonir i ba categori a math o fewn y deipoleg a ddarparwyd ym mhennod 3 o'r adroddiad hwn y mae pob un o'r pedwar gwasanaeth yn perthyn.

### Enghraifft 1: Darpariaeth frys ar gyfer pobl ifanc

*Teipoleg: Categori 1 Math 4: Darpariaeth hostel benodol ar gyfer pobl ifanc a ddisgrifir isod. Gallai'r model yma berthyn hefyd i Gategori 1 Math 5: Hostel pobl ifanc (asesiad ac ymyriad brys) pe bai'r arhosiad am gyfnod byrrach.*

Mae darparydd tai a chefnogaeth i bobl ifanc o Gaerdydd wedi datblygu rhwydwaith o chwe phroject SAFE ledled de-ddwyrain Cymru yn y chwe blynedd diwethaf. Mae'r gair SAFE yn sefyll am elfennau hanfodol y model hwn ('*Supported Housing, Advice, Family Mediation, Empowerment*'). Datblygwyd y model cefnogaeth a llety penodol hwn mewn ymateb uniongyrchol i dri pheth:

- y ffaith y diwygiodd Llywodraeth y Cynulliad restr y grwpiau digartref mewn angen blaenoriaethol ym mis Mawrth 2001
- er mwyn helpu i ostwng nifer y rhai 16 a 17 oed sy'n cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast
- y gred fod llety hostel yn anaddas ac yn anniogel ar gyfer y grŵp diymgeledd hwn o gleientiaid

Projectau asesu a thai â chefnogaeth tymor-byr ar gyfer pobl ddigartref 16 a 17 oed yw'r projectau SAFE. Atgyfeirir drwy gyfrwng adran ddigartrefedd pob awdurdodau lleol.

Mae gan y projectau staff at ddyletswydd am 24 awr. Mae gan bob project gegin a lolfa gymunedol a gwahanol nifer o stafelloedd unigol hyd at uchafswm o wyth. Mae'r model SAFE hefyd yn cynnig lle diogel gyda lefel uchel o fesurau diogelwch, felly ni chaniateir ymwelwyr, a dim ond trwy fynedfa ddiogelwch sy'n cael ei gwylio gan staff y ceir mynediad.

Nod y gwasanaeth yw caniatáu i staff ddod i ddeall pob unigolyn yn gyflym, a gallu asesu galluoedd unigol ac anghenion am gefnogaeth drwy arsylwi uniongyrchol yn ogystal â phroses asesu. Yn y lle cyntaf, bydd y gweithiwr allweddol yn treulio'r ychydig wythnosau cyntaf yn adeiladu asesiad cynhwysfawr o anghenion y person ifanc, gan gynnwys anghenion am gymorth, sgiliau byw'n annibynnol, anghenion am addysg a hyfforddiant, a

statws ariannol. Bydd y gweithiwr allweddol yn cefnogi'r person ifanc yn yr holl feysydd hyn yn ogystal â chytuno ar fath o lety symud-ymlaen addas a chynaliadwy a dod o hyd iddo.

Bydd hyd arhosiad person ifanc ar gyfartaledd yn amrywio o'r naill broject i'r llall, a bydd yn aml yn ddibynnol ar faint o lety symud-ymlaen sydd ar gael mewn ardal neilltuol. Mae'r cyfnod yn debyg o fod yn rhyw 6 i 8 mis ar gyfartaledd.

Mae'r gwasanaeth yn elwa hefyd ar allu defnyddio gwasanaeth cyfryngu mewnol y darparydd.

**Enghraifft 2: Lletya ar Aelwyd â Chefnogaeth**

*Teipoleg: Categori 4 Math 5: Lletya ar Aelwyd â Chefnogaeth*

*Gall y math hwn o wasanaeth weithredu hefyd i ateb anghenion llety a chefnogaeth pobl ifanc mewn argyfwng – ar yr adeg y datgenir eu bod yn ddigartref, h.y. Categori 2 Math 2: Lletya Brys ar Aelwyd â Chefnogaeth. Ceir enghreifftiau o'r fath wasanaethau yng Nghymru ond lleiafrif ydynt o safbwynt defnyddio'r math hwn o fodel.*

Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei redeg gan asiantaeth sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc yng nghylch Castell-nedd Port Talbot. Ar hyn o bryd mae ganddo 9 darparydd llety sy'n gallu cynnig 17 o lefydd (yn cynnwys 3 lle brys) yn eu cartrefi. Mae'r gwasanaeth yn llawn fel arfer a'r nod yw helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn gallu byw mewn mathau mwy annibynnol o lety.

Cyllidir y gwasanaeth gan dîm gwasanaethau plant yr awdurdod lleol. Dim ond gan y gwasanaethau cymdeithasol y derbynir atgyfeiriadau, Rhoddir blaenoriaeth i bobl ifanc sy'n derbyn gofal ac, mewn rhai achosion, pobl ifanc ddigartref 16/17 oed.

Mae darparwyr y llety yn cynnig lefel isel o gefnogaeth 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, i'r bobl ifanc sy'n cael lle. Mae staff a gyflogir gan y darparydd yn rhoi cefnogaeth ychwanegol, fwy penodol, drwy law gweithiwr cefnogi, o 9 tan 5 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae anghenion y person ifanc yn cael eu nodi a'u diwallu drwy gynllun cefnogi.

Ceir gwasanaeth ar-alw y tu allan i oriau gwaith y gall pobl ifanc a darparwyr ei ddefnyddio. Pan fydd darparwyr llety yn defnyddiuo'r gwasanaeth hwn, y ffocws yw datrys y broblem sydd wedi codi a sicrhau y gall y lleoliad barhau. Mae'n neilltuol o bwysig fod hyn ar gael ar y penwythnos.

Cyn i'r person ifanc ymadael a'r llety, gwneir gwaith cyn-denantiaeth i sicrhau fod y symudiad nesaf yn addas ac yn gynaliadwy ar gyfer y person ifanc.

Er mwyn i'r fath wasanaeth weithio'n dda, mae'n hanfodol bod ag amrywiaeth o ddarparwyr â gwahanol sgiliau er mwyn gallu cydweddu anghenion y person ifanc a galluoedd darparwyr llety. Mae hefyd yn hanfodol bod â darparwyr llety ledled yr awdurdod er mwyn sicrhau fod gan bobl ifanc rywfaint o ddewis ynglŷn â ble y byddant yn cael eu rhoi.

Mae yna broblemau sy'n ei gwneud hi'n anodd cynnal y gwasanaeth, fel problem colli darparwyr, sydd yn aml yn mynd yn ofalwyr maeth (yn rhannol oherwydd fod hynny'n talu'n well) a diffyg llety addas i bobl ifanc symud i mewn iddo pan fyddant yn ymadael â'u llety.

### Enghraifft 3: Gwasanaethau cyfryngu

*Teipoleg: Categori 2 Math 5: Gwasanaethau cyfryngu*

Dengys ymchwil fod llawer o bobl ifanc yn wynebu digartrefedd oherwydd chwalfa yn y berthynas rhwng aelodau'r teulu. Nod gwasanaethau cyfryngu, lle bo hynny'n briodol, yw helpu pobl ifanc a'u teuluoedd i ddod o hyd i ryw dir cyffredin lle gellir ailadeiladu'r berthynas. Bydd gweithwyr cyfryngu yn archwilio'r posibilrwydd o ddychwelyd adref, gyda chefnogaeth gyson, ymadael â chartref mewn ffordd gynlluniedig gyda chefnogaeth, neu o leiaf ailadeiladu rhwydweithiau cefnogi gydag aelodau o'r teulu.

Gall y fath wasanaethau fod ar gael gan awdurdod lleol neu ddarparydd o'r sector gwirfoddol.

Gall atgyfeiriadau ddod ar hyd un llwybr yn unig, e.e. adran ddigartrefedd awdurdod lleol, neu o amrywiaeth eang o ffynonellau, e.e. ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant, gwasanaethau statudol, aelodau o'r teulu, a'r person ifanc ei hunan.

### Enghraifft 4: Gwasanaeth Allgyrch Pendant

*Teipoleg: Categori 2 Math 3: Gwasanaethau allgyrch pendant (iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu anghenion lluosog)*

Mae allgyrch pendant yn golygu targedu cleieintiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a pharhaus sy'n ei chael hi'n anodd ymwneud â gwasanaethau:

- mae'n aml-ddisgyblaethol, yn cynnwys amrywiaeth o ddisgyblaethau proffesiynol (nyrsys, seiciatryddion a gweithwyr cymdeithasol fel lleiaswm: hefyd, gan ddibynnu ar anghenion defnyddwyr, gweithwyr cefnogi, gweithwyr a fu'n defnyddio'r gwasanaeth, seicolegwyr, therapyddion gwaith, gweithwyr tai, arbenigwyr ar gamddefnyddio sylweddau, ac arbenigwyr galwedigaethol
- mae'r gymhareb defnyddwyr y gwasanaeth i weithwyr yn isel
- ceir cysylltiad mynych a dwys gyda chleientiaid o'i gymharu â thimau iechyd meddwl cymuned arferol
- pwyslais ar ymwneud â'r cleient a datblygu perthynas therapiwtig
- cynigir eu rhoi mewn cysylltiad â chymorth penodol ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ddefnyddiwr y gwasanaeth
- gwasanaethau â therfyn amser iddynt a pholisi o beidio â gadael i neb roi'r gorau iddi
- gweithio gyda phobl yn eu hamgylchedd eu hunain, yn eu cartref eu hunain yn aml; ymgysylltu â rhwydwaith gefnogi'r defnyddiwr o deulu, ffrindiau ac eraill
- gweithio fel tîm sy'n cynnig cefnogaeth hyblyg a chreadigol i gydgysylltwyr achos unigol

Datblygwyd y gwasanaethau hyn yn Lloegr a'r Alban ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl ac maent yn derbyn pobl ifanc â'r fath broblemau. Tra gwêl gwasanaethau presennol iechyd meddwl fel y prif angen, mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod pobl hefyd yn arddangos problemau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a phrofiadau sydd wedi amharu ar eu lles emosiynol, fel profiad o gamdriniaeth. Mae nodweddion y gwasanaeth hwn a'r hyn y ceisia ei gyflawni yn awgrymu y gall fod ganddo lawer i'w gynnig i bobl ifanc sy'n amlygu'r nodweddion hyn.

[Ffynhonnell: Cyhoeddiad Canolfan Iechyd Meddwl Sainsbury, 'Allgyrch pendant 2001]

**Enghraifft ymarferol o wasanaeth allgyrch pendant ar gyfer pobl ifanc**

Er na ddaethpwyd o hyd i fodel o allgyrch pendant yn cael ei ddefnyddio gyda phobl ifanc ddigartref ag anghenion cymhleth, nodwyd enghraifft o allgyrch pendant yn cael ei ddefnyddio fel ymyriad cynnar yn achos pobl ifanc â seicosis.

Mae Initiative to Reduce the Impact of Schizophrenia (IRIS) yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau ymyriad cynnar ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid, yn cynnwys allgyrch pendant. Mae protocol yn rheoli sut y mae'r gwasanaeth allgyrch pendant yn cael ei ddarparu. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:

- cadw cysylltiad cyson a di-dor gyda'r person ifanc
- ymdrin â nifer fach o achosion ar y tro
- amrywiaeth o staff arbenigol o fewn tîm o 10 o leiaf, yn cynnwys seiciatrydd, nyrs iechyd meddwl, arbenigwr mewn camddefnyddio sylweddau, arbenigwr ailsefydlu mewn gwaith, a gweithiwr cymdeithasol, gydag arweinydd tîm penodol ar gyfer pob person ifanc
- bydd aelodau'r tîm yn gweithio yn amgylchedd y cleientiaid eu hunan
- mae'r tîm yn gyfrifol am wasanaeth argyfwng, yn cynnwys argaeledd 24 awr
- bydd y gwasanaeth mor ddwys, a'r cysylltiadau mor aml ag y bo'r angen

Mae Tîm Allgyrch Ymyriad Cynnar Birmingham yn enghraifft benodol o'r ffordd hon o fynd ati, ac mae'n darparu cefnogaeth ddwys yn y gymuned i bobl sy'n dioddef seicosis am y tro cyntaf, ac yn ystod y tair blynedd cyntaf.

Mae'r Gwasanaeth Ymyriad Cynnar yn defnyddio'r model allgyrch pendant fel tîm ac mae'n gweithredu polisi dim-cau fel na fydd yn rhaid i gleientiaid sy'n colli cysylltiad gael eu hail-atgyfeirio a gellir eu sicrhau fod cefnogaeth dymor-hir ar gael. Mae gweithio fel tîm yn golygu fod holl aelodau;'r tîm yn gweithio gyda phob cleient, fel nad yw'r un o'r gweithwyr yn gyfan gwbl gyfrifol am gleient ar ei ben ei hun. Gall y tîm felly weithio gyda'r nos ac ar benwythnos.

[Ffynhonnell: www.iris-initiative.org.uk/assertiveoutreach.htm]

## Atodiad 5 Grŵp llywio aml-ddysgyblaethol i ystyried sut y gellir ateb anghenion pobl ifanc â'r anghenion mwyaf cymhleth

### Aelodaeth y grŵp

Awgrymwn y dylai aelodaeth y grŵp gynnwys y canlynol:

- Cynrychiolwyr digartrefedd, Cefnogi Pobl, y Gwasanaeth Ieuenctid, y Gwasanaeth Plant (Ymestyn Hawliau) a Creu'r Cysylltiadau (gwasanaethau y mae'r dinesydd yn ganolog iddynt) Llywodraeth y Cynulliad
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Voices from Care
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Plant yng Nghymru
- Cymorth Cymru
- Cynrychiolwyr darparwyr tai â chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc

### Nod y grŵp

Awgrymwn mai nod y grŵp fydd goruchwylio datblygu model o gefnogaeth a all ymateb i anghenion pobl ifanc ddigartref ag anghenion lefel-uchel a chymhleth. Ni ddylai'r model fod yn seiliedig ar lety, a dylai gynnwys ymateb brys a chysondeb staffio er mwyn gallu cefnogi'r person ifanc ble bynnag y bo – mewn hostel, yn aros gyda ffrindiau, yn y ddalfa, yn cysgu allan, mewn uned ddiogel, ayb, a chydnabod natur ddi-drefn ei ffordd o fyw a'i ymddygiad.

### Dull y grŵp o fynd ati

Awgrymwn mai'r ffordd y dylai'r grŵp fynd ati fyddai:

- gweithio dros gyfnod o ddwy flynedd, yn cynnwys un neu fwy o gynlluniau peilot
- dysgu gan y dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio drwy wahodd pobl o wasanaethau perthnasol i siarad â'r grŵp ac efallai ymweld â gwasanaethau perthnasol (e.e. yr enghraifft o Birmingham a grybwyllir yn Atodiad 4)
- cynghori ar sefydlu un neu fwy o gynlluniau peilot, gan gynnwys nodi sut y gellir eu cyllido. Awgrymwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyllido'r cynllun(iau) peilot, o bosib â chyllid ***Creu'r Cysylltiadau*** gan fod a wnelo hyn oll â gwasanaethau cydgysylltiedig ar gyfer y bobl ifanc fwyaf diymgeledd
- rhoi prawf ar y cynllun(iau) peilot a gwerthuso llwyddiant neu fethiant, a nodi sut y dylid datblygu'r model ymhellach
- yn ddynamig, gan ddysgu a chaboli wrth i'r model ddatblygu
- esbonio'n glir pa wersi a ddysgwyd a beth yw buddiannau buddsoddi yn y fath fodel a sut y gellid ei weithredu ledled Cymru

## Atodiad 6 Monitro a gwerthuso gwasanaethau

Mae monitro a gwerthuso effeithioldeb llety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref yn faes cymhleth oherwydd amrywiaeth y grŵp hwn o gleientiaid a'u hanghenion. Felly, er na fyddai hi'n briodol argymell sut y dylai pob sefydliad fesur llwyddiant ei wasanaethau, awgrymir y byddai sefydlu fframwaith cenedlaethol o ganlyniadau y cytunwyd arnynt yn fan cychwyn defnyddiol o safbwynt datblygu gwell darlun o'r hyn sy'n gweithio.

Dylai fframwaith cenedlaethol o ganlyniadau gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ddigartref:

- fod yn seiliedig ar amcanion cenedlaethol clir ar gyfer digartrefedd a Chefnogi Pobl (ar hyn o bryd mae amcanion cenedlaethol clir o ran canlyniadau ym maes digartrefedd ond nid ar gyfer Cefnogi Pobl)

- gyfeirio at fanyleb gwasanaethau Grant Refiniw Cefnogi Pobl, h. y., bydd y ffocws ar fyw'n annibynnol

- nodi nifer fach (5-6) o ganlyniadau a ddisgwylir gan wasanaethau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref y gellir mesur pob gwasanaeth o'r fath yn eu herbyn (yn seiliedig ar enghreifftiau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan ddarparwyr sy'n edrych ar ddangosyddion meintiol ac ansoddol). Gallai'r fath ganlyniadau gynnwys, e.e., datblygu sgiliau byw, cyfranogi mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, gwella gallu i ofalu am iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gostyngiad mewn camddefnyddio sylweddau, gostyngiad mewn cyfraddau aildroseddu

Ar hyn o bryd, nid yw'r un o'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol ar ddigartrefedd yn cyfeirio'n benodol at bobl ifanc. Dichon y byddai'n briodol ystyried gwahanu'r rhai o'r dangosyddion hyn ar sail oedran.

Gan derbyn yr amrywiaeth leol mewn blaenoriaethau strategol a dulliau o ddarparu gwasanaethau, mae systemau lleol o werthuso yn debyg o fod ag angen dull amlweddog o fynd ati. Awgrymwn mai un ffordd syml o asesu gwerth am arian fyddai edrych ar beth yw cost y person mynd drwy wasanaeth neilltuol ar sail y wybodaeth a ddarperir yn y canlyniadau blynyddol (cyfamswn cost y gwasanaeth a'r nifer o bobl ifanc a gefnogwyd). Gellid ystyried hyn wedyn, ynghyd â gwybodaeth werthuso, yn erbyn y canlyniadau cenedlaethol y cytunwyd arnynt a gwybodaeth am foddhad defnyddwyr y gwasanaeth.

Byddai asesiad cyflawn o werth am arian yn golygu asesu effaith dymor-byr, dymor-canol a thymor-hir y buddsoddiad mewn darparu llety a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref ar y bobl ifanc eu hunain, ar gymdeithas ac ar wasanaethau eraill. Gallai hynny olygu astudiaeth hydredol gynhwysfawr o unigolion (a gymerai lawer o amser ac arian) neu ddatblygu model yn cynnwys nifer sylweddol o ragdybiaethau ynglŷn â chostau ac arian a arbedwyd (fel y gwnaeth y gwaith i ddarganfod y gwerth am arian a gynigir gan raglen Cefnogi Pobl yng Nghymru).